

Agenda – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: Hybrid – Ystafell Bwyllgora 5 I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom Owain Roberts
Dyddiad: Dydd Iau, 18 Medi 2025 Clerc y Pwyllgor
Amser: 10.00 0300 200 6388
SeneddCyllid@senedd.cymru

Cofrestru

(09.30 – 09.45)

Rhag-gyfarfod preifat

(09.45 – 10.00)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(10.00)

2 Papurau i'w nodi

(10.00)

(Tudalennau 1 – 11)

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, 2 Gorffennaf a 9 Gorffennaf.

2.1 PTN 1 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Cyllid: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol – 8 Gorffennaf 2025

(Tudalennau 12 – 13)

2.2 PTN 2– Llythr gan Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: y Pwyllgor Sefydlog Rhyng-Weinidogol (IMSC) – 14 Gorffennaf 2025

(Tudalen 14)

2.3 PTN 3 – Llythyr gan Brif Weinidog Cymru: Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: 43ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig – 22 Gorffennaf 2025

(Tudalen 15)



- 2.4 PTN 4 – Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (RhCM): Nodyn Briffio – Gwaith ymchwil newydd ar anghenion gofal gofalplant teuluoedd yng Nghymru– Gorffennaf 2025**
(Tudalennau 16 – 18)
- 2.5 PTN 5 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Ymgynghoriad ar adolygu Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – 11 Gorffennaf 2025**
(Tudalennau 19 – 21)
- 2.6 PTN 6 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Gwybodaeth ariannol i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ei hystyried wrth gynllunio eu cyllideb – 11 Gorffennaf 2025**
(Tudalennau 22 – 23)
- 2.7 PTN 7 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) – Cyfnod 4 – 11 Gorffennaf 2025**
(Tudalen 24)
- 2.8 PTN 8 – Llythyr gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC): Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) – 15 Gorffennaf 2025**
(Tudalennau 25 – 26)
- 2.9 PTN 9 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC): Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) – 18 Gorffennaf 2025**
(Tudalen 27)
- 2.10 PTN 10 – Llythyr gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC): Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) – 1 Awst 2025**
(Tudalennau 28 – 30)
- 2.11 PTN 11 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai: Gwybodaeth ychwanegol am y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) – 27 Awst 2025**
(Tudalennau 31 – 40)

- 2.12 PTN 12 – Llythyr gan Gomisiwn y Senedd: Y wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2025–26 – 15 Gorffennaf 2025**
(Tudalennau 41 – 53)
- 2.13 PTN 13 – Llythyr at Archwilio Cymru: Hysbysiad ar y sefyllfa o ran dyddiad cau archwiliad – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys – 21 Gorffennaf 2025**
(Tudalennau 54 – 55)
- 2.14 PTN 14 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Swyddfa Ystadegau Gwladol a Chyfrifiad 2031 – 4 Awst 2025**
(Tudalen 56)
- 2.15 PTN 15 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Cyllid canlyniadol fformiwla Barnett o Adolygiad Gwariant y DU (11 Mehefin) – 5 Awst 2025**
(Tudalennau 57 – 59)
- 2.16 PTN 16 – Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Gyllideb Atodol Gyntaf 2025–26 – 18 Awst 2025**
(Tudalennau 60 – 68)
- 2.17 PTN 17 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Cyfraddau Treth Incwm Cymru – Ystadegau Alldro 2023–24 – 21 Awst 2025**
(Tudalennau 69 – 70)
- 2.18 PTN 18 – Gwybodaeth ychwanegol gan National Energy Action ynghylch tloidi tanwydd yng Nghymru – 7 Awst 2025**
(Tudalennau 71 – 72)
- 2.19 PTN 19 – Llythyr oddi Gadeirydd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Gogledd Iwerddon: Bil Cyngor Cyllid Gogledd Iwerddon – 22 Gorffennaf 2025**
(Tudalennau 73 – 74)
- 2.20 PTN 20 – Llythyr at Gadeirydd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Gogledd Iwerddon: Bil Cyngor Cyllid Gogledd Iwerddon – 8 Medi 2025**
(Tudalennau 75 – 76)
- 2.21 PTN 21 – Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Y Grŵp Rhyngweinidogol dros Fusnes a Diwydiant – 2 Medi 2025**
(Tudalen 77)

2.22 PTN 22 – Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Y Grŵp Rhyngweinidogol dros Fusnes a Diwydiant – 10 Medi 2025

(Tudalen 78)

2.23 PTN 23 – Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) – 8 Medi 2025

(Tudalennau 79 – 81)

3 Archwilio Cymru – Gwaith craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024–25 a Chynllun Blynyddol 2025–26: Sesiwn dystiolaeth

(10.00 – 11.00)

(Tudalennau 82 – 294)

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru
Dr Ian Rees, Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, Archwilio Cymru
Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol, Archwilio Cymru
Ann-Marie Harkin, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio, Archwilio Cymru

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 5 i 11 a 13, ac o ddechrau'r cyfarfod ar 24 Medi 2025

(11.00)

5 Archwilio Cymru – Gwaith craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024–25 a Chynllun Blynyddol 2025–26: Trafod y dystiolaeth

(11.00 – 11.15)

6 Penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru: Diweddariad

(11.15 – 11.30)

(Tudalennau 295 – 314)

- 7 Fforwm y Cadeiryddion –Ymgynghoriad: Adolygu Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd**
(11.30 – 11.40) (Tudalennau 315 – 317)
- 8 Newidiadau i Brotocol Proses y Gyllideb a gweithdrefnau cyllidebol cysylltiedig: Diweddariad**
(11.40 – 11.50) (Tudalennau 318 – 322)
- 9 Trafod y flaenraglen waith**
(11.50 – 12.00) (Tudalennau 323 – 340)
- 10 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026–27: Dull o graffu**
(12.00 – 12.10) (Tudalennau 341 – 345)
- 11 Goblygiadau ariannol Bil Cynllunio (Cymru) a Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru)**
(12.10 – 12.20) (Tudalennau 346 – 348)
[Bil Cynllunio \(Cymru\), fel y'i cyflwynwyd](#)
- [Bil Cynllunio \(Darpariaethau Canlyniadol\) \(Cymru\), fel y'i cyflwynwyd](#)
- [Bil Cynllunio \(Cymru\) a Bil Cynllunio \(Darpariaethau Canlyniadol\) \(Cymru\) – Memorandwm Esboniadol](#)
- Egwyl**
(12.20 – 12.45)
- Cyhoeddus**
- 12 Goblygiadau ariannol Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Sesiwn dystiolaeth**
(12.45 – 13.45) (Tudalennau 349 – 369)

Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y
Trefnydd a'r Prif Chwip

Amira Evans Pennaeth Cydraddoldebau, Llywodraeth Cymru

Bethany Thomas Rheolwr Polisi Iaith Arwyddion Prydain, Llywodraeth Cymru

Dogfennau ategol:

[Bil Iaith Arwyddion Prydain \(Cymru\), fel y'i cyflwynwyd](#)

[Bil Iaith Arwyddion Prydain \(Cymru\), fel y'i cyflwynwyd \(Cyflwyniad i'r Bil yn Iaith Arwyddion Prydain\)](#)

[Bil Iaith Arwyddion Prydain \(Cymru\) – Crynodeb o'r Bil](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

[Llywodraeth Cymru: Papur dystiolaeth](#) (Fersiwn Iaith Arwyddion Prydain)

Preifat

13 Goblygiadau ariannol Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(13.45 – 14.00)

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Senedd a
fideogynhadledd ar Zoom

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv) yn:
<http://senedd.tv/cy/15130>

Dyddiad: Dydd Iau, 26 Mehefin 2025

Amser: 09.00 – 10.22

Hybrid

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd) Mike Hedges AS Sam Rowlands AS Buffy Williams AS (yn lle Rhianon Passmore AS)
Tystion:	Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru Sharon Bounds, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheoli Ariannol, Llywodraeth Cymru Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Owain Roberts (Clerc) Mike Lewis (Dirprwy Clerc) Martin Jennings (Ymchwilydd)



Cofrestru

Rhag-gyfarfod preifat

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS. Roedd Buffy Williams AS yn dirprwyo ar ran Rhianon Passmore AS.

2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

- 2.1 PTN 1 – Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Adroddiad Blynyddol Cysylltiadau Rhynglywodraethol – 5 Mehefin 2025
- 2.2 PTN 2 – Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: Cytundeb Perthnasoedd Rhyngsefydliadol: Cyngor y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau, a chyfarfodydd rhynglywodraethol eraill – 9 Mehefin 2025
- 2.3 PTN 3 – Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Cyllid: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol – 13 Mehefin 2025
- 2.4 PTN 4 – Llythyr gan ddarparwyr byw â chymorth yn y trydydd sector ledled Cymru at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Pwysau Yswiriant Gwladol ar ddarparwyr byw â chymorth yn y trydydd sector – 10 Mehefin 2025
- 2.5 PTN 5 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru: Gwybodaeth ychwanegol am Fil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) – 12 Mehefin 2025

3 Cyllideb Atodol Gyntaf 2025–26: Sesiwn tystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2025–26 gan Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys, Llywodraeth Cymru; a Sharon Bounds, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheolaeth Ariannol, Llywodraeth Cymru.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Cyllideb Atodol Gyntaf 2025–26: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a gafwyd.

6 Newidiadau i Brocol Proses y Gyllideb a gweithdrefnau cyllidebol cysylltiedig

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunodd ar y llythyrau drafft at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, ac at y Comisiwn Etholiadol.

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a
fideogynhadledd ar Zoom

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/15565) yn:
<http://senedd.tv/cy/15565>

Dyddiad: Dydd Mercher, 2 Gorffennaf
2025

Amser: 09.30 – 10.47

Hybrid

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd) Mike Hedges AS Sam Rowlands AS Lesley Griffiths AS (yn lle Rhianon Passmore AS)
Tystion:	Huw Irranca-Davies AS, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru Naomi Matthiessen, Dirprwy Gyfarwyddwr, Tirweddau, Natur a Choedwigaeth, Llywodraeth Cymru Alice Teague, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Y Môr a Bioamrywiaeth, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Owain Roberts (Clerc) Sian Giddins (Ail Clerc) Mike Lewis (Dirprwy Clerc) Peter Davies (Ymchwilydd) Martin Jennings (Ymchwilydd)



Cofrestru

Rhag-gyfarfod preifat

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS. Roedd Lesley Griffiths AS yn dirprwyo ar ran Rhianon Passmore AS.

1.3 Datganodd yr Aelodau'r buddiannau perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

- Datganodd Lesley Griffiths AS mai hi oedd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig o fis Rhagfyr 2018 i fis Ebrill 2021.

2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

- 2.1 PTN 1 – Llythyr gan yr elusen ddigartrefedd genedlaethol, Crisis: Goblygiadau ariannol y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol – 11 Mehefin 2025
- 2.2 PTN 2 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Rhestr o holl gyllid canlyniadol Barnett sy'n deillio o Ddatganiad Gwanwyn y DU a'r Prif Amcangyfrifon ar gyfer 2025–26 – 24 Mehefin 2025
- 2.3 PTN 3 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol Diwygiedig – 24 Mehefin 2025
- 2.4 PTN 4 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Newidiadau i'r trawsgrifiad – 24 Mehefin 2025
- 2.5 PTN 5 – Llythyr gan Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: y Pwyllgor Sefydlog Rhyng-Weinidogol (IMSC) – 24 Mehefin 2025
- 2.11 PTN 6 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Grwp Rhyngweinidogol Twristiaeth – 25 Mehefin 2025

3 Goblygiadau ariannol Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar oblygiadau ariannol Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) gan Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru; Naomi Matthiessen, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth, Llywodraeth Cymru; ac Alice Teague, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran y Môr a Bioamrywiaeth, Llywodraeth Cymru.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn a dechrau'r cyfarfod ar 9 Gorffennaf 2025

4.1 Cytunwyd ar y cynnig.

5 Goblygiadau ariannol Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru): Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

6 Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno, yn amodol ar fân newidiadau.

7 Cyllideb Atodol Gyntaf 2025–26: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno, yn amodol ar fân newidiadau.

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: Hybrid – Ystafell Bwyllgora 4
Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/15169) yn:
<http://senedd.tv/cy/15169>

Dyddiad: Dydd Mercher, 9 Gorffennaf
2025

Amser: 09.30 – 12.10

Hybrid

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd) Mike Hedges AS Sam Rowlands AS
Tystion:	Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Katrin Shaw, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Staff y Pwyllgor:	Owain Roberts (Clerc) Sian Giddins (Ail Clerc) Mike Lewis (Dirprwy Clerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Božo Lugonja (Ymchwilydd) Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) Masudah Ali (Cynghorydd Cyfreithiol)



Yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o ddechrau'r cyfarfod heddiw.

Cofrestru

Rhag-gyfarfod preifat

1 Penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru: Dull o recriwtio

1.1 Trafododd y Pwyllgor y papurau ar y dull o benodi Archwilydd Cyffredinol Cymru a chytunodd ar y camau gweithredu a nodwyd yn y papur eglurhaol.

2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026–27: Dull o graffu

2.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar y dull o graffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026–27 a chytunodd ar y camau gweithredu a nodwyd ynddo.

3 Trafod y flaenraglen waith

3.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.

4 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026–27: Adroddiad cryno ar waith ymgysylltu

4.1 Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad cryno ar waith ymgysylltu a'r ddau gyflwyniad ysgrifenedig.

Cyhoeddus

5 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

5.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

5.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS. Nid oedd dirprwy yn bresennol ar ran Rhianon Passmore AS.

6 Papur(au) i'w nodi

6.1 Cafodd y papurau eu nodi.

6.1 PTN 1 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Amserlen Cyllideb Ddrafft 2026–27 – 1 Gorffennaf 2025

6.2 PTN 2 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Gweinyddu trethi datganoledig yng Nghymru – 1 Gorffennaf 2025

6.3 PTN 3 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol dros Fusnes a Diwydiant – 1 Gorffennaf 2025

7 Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019: Sesiwn dystiolaeth 6

7.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth fel rhan o'r adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 gan Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a Katrin Shaw, Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau.

8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

8.1 Derbyniwyd y cynnig.

9 Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019: Trafod y dystiolaeth

9.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

10 Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019: Trafod y materion allweddol.

10.1 Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol.

Llywodraeth Cymru
Welsh GovernmentPeredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

8 Gorffennaf 2025

Annwyl Peredur,

Gallaf gadarnhau y cynhaliwyd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid (F:ISC) yn Llundain ar 26 Mehefin. Cyhoeddwyd hysbysiad hefyd yn dilyn cyfarfod: [Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid - 26 Mehefin 2025 - GOV.UK](#)

Cadeiriodd y Gwir Anrhydeddus Darren Jones AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys (Llywodraeth y DU) y cyfarfod. Ymunais i ochr yn ochr â Shona Robison ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (Llywodraeth yr Alban). Ymunodd John O'Dowd ACD, Gweinidog Cyllid (Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon) yn rhithwir.

Roedd y ffocws ar gydweithio yn dilyn Adolygiad Gwariant y DU, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin. Mae'r strategaethau Diwydiannol a Seilwaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Mehefin yn rhoi cyfle i ddod â thwf economaidd pellach i Gymru. Fe wnaethom archwilio sut y gallwn barhau i ymgysylltu i sicrhau bod prosiectau newydd yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cymru.

Cytunwyd i barhau i ymgysylltu ynghylch penderfyniadau gwariant, gan gynnwys trwy Awdurdod Trawsnewid Gwasanaethau a Seilwaith Cenedlaethol newydd y DU (NISTA), a fydd yn rhan o benderfyniadau gwariant.

Codais y defnydd o bwerau o dan bwerau Deddf Marchnad Fewnol y DU (UKIMA) yn ystod y cyfarfod. Esboniais fod potensial i'r defnydd o bwerau UKIMA ymestyn ymhellach i mewn i wariant mewn meysydd datganoledig, ac nad yw hyn ffordd ymarferol na synhwyrol o wneud pethau. Mae'r Prif Ysgrifennydd yn ymwybodol o bryderon y tair cenedl ddatganoledig ar y mater hwn.

Fe wnaethom hefyd drafod hyblygrwydd cyllidol, sy'n fater o ddiddordeb cyffredin rhwng y llywodraethau datganoledig. Gofynnais am gael adfer y terfynau yn ein Fframwaith Cyllidol i werth gwirioneddol y ffigurau, gan nad yw hwn bellach yn offeryn digonol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SNCorrespondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cytunwyd y byddai swyddogion yn cyflwyno senarios modelu, dan arweiniad swyddogion yr Alban, i ddangos opsiynau ar gyfer newidiadau i hyblygrwydd cyllidol ar gyfer pob un o'r tair cenedl ddatganoledig cyn y F:ISC nesaf. Mae'r F:ISC nesaf yn rhoi cyfle i drafod hyblygrwydd cyllidol ymhellach ar gyfer Cyllideb yr Hydref y DU.

Cefais gyfle hefyd i godi materion penodol i Gymru, gan gynnwys y Datganiad Ysgrifenedig ar Safleoedd Rheolaethau'r Ffin¹ a phryderon ynglŷn â chymhwyso fformwla Barnett – byddaf yn ysgrifennu at y Brif Ysgrifennydd y Trysorlys gyda fy mhryderon.

Cynhelir cyfarfod nesaf F:ISC yng Nghaeredin yn yr Hydref, cyn Cyllideb yr Hydref y DU.

Yn gywir,



Mark Drakeford AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

¹ [Datganiad Ysgrifenedig: Rheolaethau'r Ffin ar fewnforion i Gymru o Iwerddon \(24 Mehefin 2025\) | LLYW.CYMRU](#)

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref - PO/HIDCC/0347/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

14 Gorffennaf 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, ac yn dilyn fy llythyr dyddiedig 24 Mehefin, i dynnu at eich sylw at y [Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig](#) sy'n crynhoi'r trafodaethau yng nghyfarfod diweddaraf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, Cymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/FM/0337/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

22 Gorffennaf 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu, yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, i'ch hysbysu fy mod wedi mynychu 43^{ain} Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Iwerddon a gynhaliwyd gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon yn County Down ar 12 a 13 Mehefin.

Hoffwn dynnu eich sylw at fy [Natganiad Ysgrifenedig](#) heddiw, ac at [neges](#) y Cyngor sy'n crynhoi canlyniadau'r Uwchgynhadledd.

Thema'r Uwchgynhadledd oedd '*Rôl Deallusrwydd Artiffisial mewn Diwygio a Thrawsnewid*'. Rhannais brofiadau Llywodraeth Cymru a'i hymrwymiad i ddefnyddio technolegau AI i ddiwygio a thrawsnewid y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan dynnu sylw at ganllawiau a ddatblygwyd gan Gyngor Partneriaeth y Gweithlu Cymru.

Yn ystod yr Uwchgynhadledd, cefais gyfle hefyd i gynnal cyfarfodydd dwyochrog gyda nifer o arweinwyr o aelod-weinyddiaethau eraill y Cyngor.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cyllid, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gwir,

Eluned Morgan

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cefndir

Gyda gofal plant yn cael ei ehangu'n sylweddol yn Lloegr ar hyn o bryd, mae mwy a mwy o bwysau yn cael ei roi ar Lywodraeth Cymru i wella'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd ar yr ochr yma o'r ffin. Rydym wedi holi rhieni a gofalwyr sydd â phlant o dan bum mlwydd oed am eu profiadau o ddefnyddio gofal plant, yr effaith ar eu teuluoedd, a'r hyn a fyddai o gymorth iddyn nhw.

Mae'r prif ganfyddiadau a gyflwynir yn y nodyn briffio hwn yn seiliedig ar arolwg ar-lein o **780 o rieni a gofalwyr oedd â phlant o dan bum mlwydd oed**.¹ Cynhaliwyd yr arolwg gan **Arad** ar ran **Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (RhCM)**, rhwng canol mis Mawrth a chanol mis Mai 2025.

Canfyddiadau allweddol

1. Mae diffyg gofal plant yn achosi straen yn y cartref drwy effeithio'n negyddol ar rieni a bywyd cartref

- Dywedodd **84%** o ymatebwyr bod eu trefniadau gofal plant yn cael **effaith gadarnhaol neu led-gadarnhaol ar eu plant**
- Ond dywedodd bron i **3 o bob 10 (28%)** bod eu trefniadau **gofal plant** yn cael **effaith negyddol neu led-negyddol arny'n nhw eu hunain**
- Dywedodd **41%** bod eu trefniadau gofal plant yn cael **effaith negyddol neu led-negyddol ar eu bywyd cartref**.

2. Mae addasiadau ac aberthau i reoli gofal plant yn effeithio ar gyllid teuluoedd ac mae oedolion a phlant yn teimlo hynny

- Roedd yn rhaid i **60%** o'r ymatebwyr **leihau faint o oriau maen nhw'n eu gweithio**
- Roedd yn rhaid i **42%** **leihau faint maen nhw'n ei wario ar bethau hanfodol** megis bwyd, rhent, neu wresogi

¹Ymatebodd cyfanswm o 883 o rieni a gofalwyr i'r arolwg. O'r rhain, nid oedd gan 103 ohonynt blant rhwng 0–4 oed. Rhoddwyd cyfle iddyn nhw roi sylwadau ar ofal plant cyn gadael yr arolwg.

- Roedd yn rhaid i **35% leihau faint maen nhw'n ei wario** ar bethau i'w plant sydd ddim yn hanfodol, megis **dillad, teganau neu weithgareddau**.

3. Mae diffyg gofal plant yn rhwystro gwaith ac addysg rhieni

- Roedd **89%** o'r ymatebwyr sydd **ddim yn defnyddio unrhyw ofal plant ffurfiol yn methu â gweithio neu astudio** cymaint ag yr hoffent (**119 o ymatebion**)
- Ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn defnyddio gofal plant ffurfiol, roedd y gyfran **nad oedd yn gallu gweithio neu astudio** cymaint ag yr hoffent yn dal i fod mor uchel â **60%** (**345 o ymatebion**)
- Roedd y ffigyrau hyn yn **waeth ar gyfer teuluoedd oedd ag incwm is na'r cyfartaledd**, gyda **dwyr ran o dair** o'r ymatebwyr yn methu gweithio nac astudio cymaint ag yr byddent yn hoffi (66%), o'i gymharu ag **ychedig dros hanner (55%)** o theuluoedd oedd ag **incwm uwch na'r cyfartaledd**.

4. Mae costau gofal plant yn rhwystro gwaith ac addysg, ond felly hefyd problemau gyda thrafnidiaeth ac oriau anhyblyg

- **Costau gofal plant yw'r prif ffactor** sy'n atal gweithio neu astudio (**83%**), gyda ffactorau fel **mynd â'r plant i'r ysgol a'u casglu, a thrafnidiaeth o un lle i'r llall (35%), a dim gofal ar gael pan fo'i angen (32%)**
- Ymhlith rhieni a gofalwyr plant **rhwng tri a phedwar oed, roedd bron i hanner (45%)** yn dweud bod **trafferthion o ran mynd â'r plant i'r ysgol a'u casglu, a thrafnidiaeth o un lle i'r llall** yn rhesymau pam na allan nhw weithio neu astudio cymaint ag yr hoffent
- Pan ofynnwyd iddynt beth fyddai'n eu galluogi i weithio ac i astudio cymaint ag yr hoffent, atebodd y mwyafrif helaeth trwy ddweud **gofal plant mwy fforddiadwy (83%)**, ac atebodd **bron i hanner (46%)** trwy ddweud **gofal plant mwy hyblyg**, megis oriau anarferol neu ofal rhan-amser.

5. Mae teuluoedd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth glir am ofal plant

- Roedd bron i **70%** o'r holl ymatebwyr yn cael trafferth ddod o hyd i **wybodaeth am gymorth ariannol** ar gyfer gofal plant (**69%**)
- Roedd **bron i hanner (45%)** yn cael trafferth ddod o hyd i **wybodaeth am ddewisiadau gofal plant** yn eu hardal.

6. Nid yw anghenion gofal plant teuluoedd sydd eisoes yn defnyddio gofal plant yn cael eu diwallu

- Byddai **72%** o'r ymatebwyr (478 o ymatebion) yn defnyddio mwy o ofal plant pe bai'n **fforddiadwy ac ar gael**
- Cododd y ffigur hwn i **81%** ymhlith ymatebwyr â **phlant o dan ddwy oed** (179 o ymatebion).

Mae'r canfyddiadau cychwynol yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru weithredu ar y meysydd allweddol canlynol:

- Lleihau costau gofal plant i deuluoedd – yn enwedig i blant o dan dair oed
- Gwella'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch cymorth ariannol gyda chostau gofal plant ac ar ddewisiadau gofal plant lleol
- Symleiddio'r broses ymgeisio a gweithredu fel bod teuluoedd yn gallu manteisio ar y gefnogaeth y mae ganddynt hawl iddi
- Cydweithio â'r sector ar gynnig oriau mwy hyblyg ac i egluro costau'n well.

Bydd rhagor o waith dadansoddi yn digwydd yn y mis nesaf, a bydd adroddiad terfynol ynghyd ag awgrymiadau manwl yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi.

Os hoffech chi drafodaeth gychwynol ar y canfyddiadau hyn, cysylltwch â



Ynghylch Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru

Ein gweledigaeth yw Cymru lle na cheir gwahaniaethu ar sail rhywedd, lle mae gan bawb gyfle ac awdurdod cyfartal i siapio cymdeithas a'u bywydau eu hunain. Rydyn ni'n cydweithio â'n hamrywiaeth o aelodau sefydliadol ac annibynnol i drawsnewid cymdeithas. Mae ein gwaith wedi'i seilio ar dair colofn - byddwn ni'n cysylltu, yn ymgyrchu, ac yn hyrwyddo menywod nes caiff ein gweledigaeth ei gwireddu.

Noddwyd yr ymchwil hwn gan [Ymddiriedolaeth Tegwch Ariannol abrdn.](#)

Mark Drakeford AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref – eich llythyr dyddiedig 6 Mawrth 2025
Ein cyf/Our ref -

Mr Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Cardiff, CF99 1SN

11 Gorffennaf 2025

Annwyl Peredur

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am geisio barn y Gweinidogion ynglŷn â'r newidiadau y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi'u nodi fel rhai 'hanfodol' a 'dymunol' i symleiddio darpariaethau amrywiol yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r syniad o newid y Ddeddf wedi ei drafod ers peth amser bellach. Dros y cyfnod hwnnw, mae safbwynt Llywodraeth Cymru wedi aros yr un fath â'r safbwynt a roddwyd i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Ebrill 2022 gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd. Er bod angen rhoi sylw i rai materion, bernir mai mân faterion yw'r rhain ac nid blaenoriaethau deddfwriaethol. Nid yw anghymhwysiad dilynol cyn-Gadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn newid y safbwynt hwn. O ganlyniad, nid yw'r achos dros edrych eto ar weithrediad Deddf 2013 yn gryf.

Mae llythyr yr Archwilydd Cyffredinol atoch ar 20 Medi 2024 yn nodi tri newid sy'n cael eu nodi'n 'hanfodol' yr hoffwn fynd i'r afael â hwy yn benodol:

1. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu y dylid dileu'r gofynion ar y Senedd i **ymgyngori â'r Prif Weinidog ar faterion penodi**. Nodweddir hyn yn ei lythyr fel mesur a fyddai'n arwain at graffu da a gwell gwerth am arian. Yn fy marn i, ni allaf weld sut mae cael gwared ar yr ymgynghori â'r Prif Weinidog rywsut yn gwella gwaith craffu. Yn hytrach, mae'n ymddangos y byddai hyn yn lleihau lefel y craffu wrth benodi. Cynlluniwyd Deddf 2013 i gael system briodol a rhesymol ar gyfer cadw cydbwysedd.

Felly, er nad yw annibyniaeth broffesiynol a gweithredol yr Archwilydd Cyffredinol yn cael ei rhwystro, rhaid hefyd sicrhau craffu priodol o ran y rôl, o ystyried bod yr

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

FIN(6)-19-25 PTN 5

Archwilydd Cyffredinol yn dal swydd gyhoeddus ac yn defnyddio adnoddau cyhoeddus y mae'n atebol amdanynt (gan gynnwys ei daliadau cydnabyddiaeth ei hun). Mae'n darparu ar gyfer system aml-haenog i oruchwylio'r Archwilydd Cyffredinol ac mae ymgynghori â'r Prif Weinidog (nad yw'n feto) yn elfen bwysig o'r system hon. Felly, rwyf innau o'r un farn â chyn-Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn yr ohebiaeth atoch ym mis Ebrill 2022; nid oes digon o gyfiawhad dros ddiwygio'r trefniadau presennol.

2. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu bod angen newidiadau hanfodol i fynd i'r afael â **rhesymoli darpariaethau ffioedd**. Barn bendant Llywodraeth Cymru o hyd yw bod y cynllun ar gyfer codi ffioedd y darperir ar ei gyfer yn y ddeddfwriaeth, sy'n gweithredu ar sail adennill costau, yn parhau i fod yn ddigonol ac yn briodol. O ystyried bod Archwilio Cymru yn gweithredu i'r un safonau â gweddill y sector cyhoeddus yng Nghymru, dylai cymell effeithlonrwydd fod yn nod i'r Archwilydd Cyffredinol yn union fel y mae ar gyfer pob corff cyhoeddus yng Nghymru, yn yr un modd â chadw cofnodion cywir i sicrhau y codir yn iawn ar y rhai sy'n talu am wasanaethau yn unol â'r darpariaethau presennol. Er bod yr astudiaeth achos a ddarperir yn ddefnyddiol, nid oes digon o wybodaeth ar gael i ddangos graddau ac arwyddocâd gwirioneddol y mater o godi ffioedd, ac nid oes tystiolaeth sylweddol ychwaith o unrhyw gorff cyhoeddus yn herio ffioedd a godir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar draws y gwahanol ddyletswyddau statudol.

Yn yr un modd, yn achos cymelliadau effeithlonrwydd, er y deallir bod sicrhau effeithlonrwydd ar un archwiliad yn rhyngweithio â'r darpariaethau adennill costau ar gyfer y corff archwiliedig hwnnw, mae staffio ac effeithlonrwydd cyffredinol Archwilio Cymru yn gweithredu ar draws y portffolio o archwiliadau a gynhelir yn flynyddol. Fel gyda sector cyhoeddus ehangach Cymru, mae sicrhau effeithlonrwydd yn golygu bod angen cynllunio'r gweithlu yn strategol i helpu â chysoni adnoddau a chostau, a ddylai liniaru yn erbyn y risgiau a nodwyd. Nid yw'r farn bod cyfyngiadau adennill costau yn datgymell effeithlonrwydd archwilio yn dwyn perswâd. Gwahoddir yr Archwilydd Cyffredinol i rannu â swyddogion unrhyw dystiolaeth ddadansoddi gymharol sydd ganddo am y gwahanol ddulliau y mae Archwilydd Cyffredinol eraill y DU yn eu defnyddio ar gyfer dyrannu adnoddau a chostau.

Dylwn hefyd bwysleisio, unwaith eto, na all swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac Archwilio Cymru ond ymwneud â Chymru. O ganlyniad, nid yw'r hyn a elwir "swyddogaethau anstatudol" y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn awyddus i greu elw ohonynt (fel y mae'r ymadrodd hwnnw'n ei awgrymu) yn swyddogaethau sydd wedi eu rhoi i'r Archwilydd Cyffredinol - ac ni allant fod gan na fyddent yn ymwneud â Chymru. Felly, nid oes gan yr Archwilydd Cyffredinol, ac ni ddylai fod ganddo, y pŵer i wneud y gwaith hwn.

3. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu bod **egluro darpariaethau anghymhwys** yn hanfodol er mwyn lleihau'r risg o waith gweinyddol a chyfreithiol ac i ddileu'r datgymhelliad i ddarpar ymgeiswyr am swyddi, o ystyried y profiad diweddar o ran Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, nid wyf wedi fy argyhoeddi o'r diffyg eglurder yn narpariaethau Deddf 2013 nac o berthnasedd y Safon Foesebol y cyfeirir ati, o ystyried bod hyn yn ymwneud ag Archwilydd (Cyffredinol) ac nid â deiliaid swyddi anweithredol corff cyhoeddus. Yn yr achos hwn, mae'r risg o waith gweinyddol a chyfreithiol yn gost bosibl a allai fod, ac a ddylai fod, yn gost y mae modd ei hosgoi ac nid yn sicrwydd. Nid oes llawer o dystiolaeth wedi'i darparu ychwaith i gefnogi'r dadl bod y darpariaethau cymwysterau presennol yn ddatgymhelliad. Yn sicr, nid yw'n ymddangos iddynt fod yn rhwystr i sicrhau digon o geisiadau yn achos y penodiad mwyaf diweddar i swydd yr Archwilydd Cyffredinol.

O ran y newidiadau nad ydynt yn hanfodol eraill i ddeddfwriaeth a nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, mae fy swyddogion yn cynghori y gallai'r rhain fod yn gyfystyr â darn Tudalen y pecyn 20

FIN(6)-19-25 PTN 5

sylweddol o waith i'w werthuso'n llawn a byddai angen rhagor o waith ac ymgysylltu rhwng swyddogion a'r Archwilydd Cyffredinol i ddeall manylion yr hyn sy'n cael ei gynnig. Mae hyn arbennig o berthnasol yn achos unrhyw ddyletswydd 'trefniadau priodol' mewn llywodraeth ganolog lle nad yw cwestiynau gwerth am arian mor hawdd eu diffinio ag y gallant fod yn y gweithrediadau (cymharol) unffurf sy'n canolbwyntio ar gyflawni a geir mewn llywodraeth leol ac yn y GIG. O ystyried yr hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ei ddadlau yn achos ffioedd a chodi ffioedd, mae'n anodd gweld sut y gall dyletswydd 'trefniadau priodol' newydd mewn llywodraeth ganolog wrthbwysio lefel y gwaith sy'n ofynnol ar gyfer ymchwiliadau datblygu cynaliadwy.

Yn ymarferol, byddai angen rhagor o wybodaeth ar swyddogion er mwyn deall ac ymateb yn adeiladol i'r gwahanol ddiwygiadau y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu cynnig. Fodd bynnag, fel yr eglurwyd gennyf, nid yw hyn yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth. Yn yr achos hwn, am yr holl resymau a amlinellir uchod, ni all y Llywodraeth gefnogi'r cynnig hwn.

Yn gywir



Mark Drakeford AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh GovernmentPeredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

11 Gorffennaf 2025

Annwyl Peredur

Mae'r llythyr hwn yn darparu gwybodaeth i gefnogi'r blaengynllunio ariannol ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol, yn unol ag ymrwymadau'r Llywodraeth ar y mater hwn. Mae'n nodi'r wybodaeth sydd ar gael ac mae hefyd yn cyfeirio at y cynlluniau ar gyfer y broses gyllidebol eleni.

Yn gyntaf, mae'n werth nodi gwybodaeth ddiweddar am gyllid cyhoeddus y DU. Benthycodd y sector cyhoeddus £149 biliwn yn 2024-25 a rhagwelir y bydd yn benthycu £118 biliwn yn 2025-26, yn seiliedig ar Ragolygon Economaidd a Chyllidol diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) o fis Mawrth eleni. Mae rheolau cyllidol Llywodraeth y DU yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyllideb bresennol fod mewn gwarged erbyn 2029-30 a bod rhwymedigaethau ariannol net y sector cyhoeddus yn gostwng fel cyfran o Gynnyrch Domestig Gros (GDP) yn yr un flwyddyn. Mae rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer mis Mawrth yn dangos bod benthycu yn lleihau dros weddill y degawd hwn a'r rheolau hyn yn cael eu bodloni, ond dim ond o drwch blewyn.

Gan droi at y rhagolygon ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru, mae Adolygiad Gwariant diweddar Llywodraeth y DU yn darparu setliad adnoddau i Lywodraeth Cymru ar gyfer y tair blynedd nesaf a setliad cyfalaf ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Cafwyd cyllid ychwanegol sylweddol ym mis Hydref y llynedd ar gyfer 2024-25 a 2025-26 sy'n darparu cynnydd i'w groesawu yn yr adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, o'i gymharu â'r hyn a awgrymwyd gan gynlluniau Llywodraeth flaenorol y DU. Fodd bynnag, o ystyried yr heriau ar gyfer y cyllid cyhoeddus a nodwyd uchod, mae'r twf yn setliad Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd i ddod yn parhau i fod yn gymedrol. Mae cynnydd o ychydig dros 3% y flwyddyn i'r setliad adnoddau rhwng 2026-27 a 2028-29 mewn termau enwol, neu gynnydd cyfartalog o 1.2% mewn termau real bob blwyddyn. Mae'r setliad cyfalaf yn cynyddu cymaint â £180 miliwn yn uwch na llinell sylfaen 2025-26 yn 2026-27 ac yna'n gostwng ychydig yn y blynyddoedd dilynol. Ar gyfartaledd, mae'r setliad cyfalaf ar gyfer 2025-26 i 2029-30 yn parhau i fod 0.8% yn uwch mewn termau real nag yn 2023-24.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SNCorrespondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 22
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae pwysau sylweddol a chynyddol ar gostau darparu'r prif wasanaethau cyhoeddus, sy'n golygu y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd a rheoli'r adnoddau yn ofalus ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru i gyflawni o fewn y setliad a amlinellir uchod. Rwy'n disgwyl i gyrff a ariennir yn uniongyrchol fod yn ymwybodol o'r pwysau hyn wrth osod eu cyllidebau.

Mae canlyniad yr Adolygiad o Wariant yn rhoi sicrwydd mawr ei angen ar grant bloc Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 i 2028-29. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y cwmpas cyffredinol ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru hefyd yn dibynnu ar referniw a ragwelir o'r trethi datganoledig. Fel y nodir yn fy natganiad i'r Senedd ar 1 Gorffennaf, mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio cyllideb un flwyddyn ar gyfer 2026-27. Bydd y Gyllideb Ddrafft amlinellol a manwl yn cael ei chyhoeddi ar 14 Hydref a 3 Tachwedd yn y drefn honno. Bydd y Gyllideb Derfynol yn cael ei chyhoeddi ar 20 Ionawr 2026. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn debygol o gael ei chyhoeddi cyn rhagolygon economaidd a chyllidol yr Hydref y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, felly bydd yn tynnu'n bennaf ar y rhagolygon referniw treth o fis Mawrth eleni. Bydd y rhain yn cael eu diweddarau ar gyfer y Gyllideb Derfynol ym mis Ionawr, a hefyd yn ystyried unrhyw newidiadau eraill i'n setliad sy'n deillio o Gyllideb yr Hydref y DU.

Gan droi at brisiau a chyflogau, mae rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer mis Mawrth 2025 yn dangos y bydd y datchwyddydd GDP yn cynyddu 2.6% yn 2025/26, 1.7% yn 2026-27, ac yna tua 2% fesul blwyddyn wedi hynny. Mae'r un rhagolwg ar gyfer mis Mawrth yn dangos bod y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn cynyddu 3.2% yn 2025-26, 1.9% yn 2026-27, ac yna 2.0% yn y blynyddoedd dilynol. Mae disgwyl i enillion cyfartalog y DU gynyddu 3.7% yn y flwyddyn ariannol gyfredol, a 2.2% y flwyddyn nesaf.

Mae [Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru](#) a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ym mis Rhagfyr 2024 yn darparu amcanestyniadau tymor hwy ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru. Ers hynny rydym wedi cael canlyniad Adolygiad Gwariant y DU a set fwy diweddar o ragolygon referniw treth gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Yn nhermau cyfanredol, ni fyddai ystyried y newidiadau hyn yn cael fawr o effaith ar y man cychwyn ar gyfer yr amcanestyniadau hyn. Felly, mae'r senarios a gyflwynwyd yn parhau i fod yn berthnasol i'r rhagolygon hirdymor ar gyfer rhagolygon cyllidebol Llywodraeth Cymru.

I grynhoi, mae gennym fwy o sicrwydd ynghylch y rhagolygon ar gyfer cyllid Llywodraeth Cymru nag yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan ddarparu sail gadarnach ar gyfer cynllunio'r gyllideb ar gyfer y Senedd nesaf. Mae ymrwymiad Llywodraeth y DU i gynnal Adolygiad Gwariant bob dwy flynedd hefyd yn darparu fframwaith mwy sefydlog a rhagweladwy ar gyfer cynllunio, gan osgoi'r sefyllfa a brofwyd o dan Lywodraeth flaenorol y DU lle nad oedd setliad ar gyfer unrhyw flwyddyn i ddod. Fel y nodwyd ar 1 Gorffennaf, rydym yn cynllunio cyllideb busnes fel arfer ar gyfer 2026-27 yr hydref hwn - cyllideb sy'n ailddatgan ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf y gyllideb sydd ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, gyda chynlluniau gwariant eleni yn cael eu cario ymlaen a'u cynyddu yn unol â chwyddiant yn unig. Bydd hyn yn rhoi adnoddau ychwanegol i'r Senedd nesaf i'w dyrannu i'w blaenoriaethau y flwyddyn nesaf, a sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio'r gyllideb ar gyfer y blynyddoedd wedi hynny.

Yn gywir,



Mark Drakeford AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0091/25

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

10 Gorffennaf 2025

Annwyl Elin,

Cyn trafodion Cam 4 ar 15 Gorffennaf, mae'n bleser gennyf roi gwybod i chi, ar ôl ymgysylltu â Llywodraeth y DU, bod cydsyniad Gweinidog y Goron wedi'i dderbyn mewn perthynas â'r darpariaethau perthnasol yn y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru).

Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 24
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Dr Chris Llewelyn

Prif Weithredwr / Chief Executive

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Welsh Local Government Association**

Un Rhodfa'r Gamlas

Heol Dumballs

Caerdydd

CF10 5BF

Ffôn: 029 2046 8600

One Canal Parade

Dumballs Road

Cardiff

CF10 5BF

Tel: 029 2046 8600

Ein Cyf / Our Ref:

Dyddiad / Date: 15th July 2025

Ebost / Email: [REDACTED]

Mr John Griffiths MS
Chair of Local Government and Housing Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay

Via email

Dear John,

Request to provide additional evidence to the Local Government and Housing Committee as part of Stage 1 scrutiny of the Homelessness and Social Housing Allocation (Wales) Bill


I recently met with Housing Cabinet Members across Wales to discuss the Homelessness and Social Housing Allocation (Wales) Bill and members shared a number of significant concerns about aspects and some specific proposals in the Bill.

Given local authorities hold the statutory duty on homelessness, and the biggest impact of the Bill in terms of implications for public sector bodies will be councils, members felt the need to seek another opportunity for local authority elected members to share their views with the Committee. We are aware that council officers provided evidence on 26th June, and we are supportive of the views and feedback they provided. However, the Committee has also received evidence from a number of other stakeholders and interested parties on the Bill, and we feel another evidence session for local government to share views at a political level, also reflecting on some of the views that have been expressed, would be helpful and reflect the critical role councils play and will play should the Bill be enacted. We would be happy to provide some additional written evidence, supported by case studies to exemplify our concerns, in advance of another session for consideration by members of the Committee.

You will be aware this is not a request that we have made before which hopefully reflects the seriousness with which members attach to this issue, and we would very much appreciate if you could consider this request positively. We appreciate it may not be possible to arrange a session prior to the summer recess but we hope that this could be arranged sometime in the Autumn, prior to the Committee finalising its scrutiny of the Bill.

I look forward to hearing from you.

Yours sincerely



Cllr Andrea Lewis

WLGA Spokesperson for Housing and Deputy Leader of Swansea Council

Cc: Jayne Bryant, Cabinet Secretary for Housing and Local Government
Chairs of Finance Committee and Legislation, Justice and Constitution Committee

**Local Government
and Housing Committee**

Cllr Andrea Lewis
WLGA Spokesperson for Housing

18 July 2025

Homelessness and Social Housing Allocation (Wales) Bill

Dear Cllr Lewis,

Thank you for your letter of 15 July, which we discussed at our meeting yesterday. Members considered your request for local authority elected members to present oral evidence on the Homelessness and Social Housing Allocation (Wales) Bill, however I'm afraid we are unable to facilitate this due to time constraints.

We have a tight timetable for undertaking our scrutiny of the Bill in order to meet the reporting deadline set by the Business Committee. As such, our final oral evidence session with the Cabinet Secretary for Housing and Local Government has been confirmed for our next meeting on 18 September. This session cannot be deferred due to the time constraints mentioned and other legislative commitments.

Members noted that you are supportive of the views expressed by the local authority representatives on 26 June but we appreciate the implications of the Bill on local authorities and, as such, we would be happy to receive written information from you. The Committee's public consultation closed on 20 June, however we will be able to accept a written response from you. Should you wish to submit written evidence, we would be grateful if this be sent to the Committee Clerk by Friday 1 August.

Yours sincerely



John Griffiths MS

Chair

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Dr Chris Llewelyn

Prif Weithredwr / Chief Executive

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Welsh Local Government Association**

Un Rhodfa'r Gamlas

Heol Dumballs

Caerdydd

CF10 5BF

Ffôn: 029 2046 8600

One Canal Parade

Dumballs Road

Cardiff

CF10 5BF

Tel: 029 2046 8600

Ein Cyf / Our Ref:

Dyddiad / Date: 1st August 2025

Gofynnwch am / Please ask for: Jim McKirdle

Llinell uniongyrchol / Direct line: [REDACTED]

Ebost / Email: [REDACTED]

Mr John Griffiths MS
Chair for Local Government & Housing Committee

Dear John

Thank you for your letter of 18th July, in response to my request for an additional evidence session for elected members to provide their views on the Homelessness and Social Housing Allocation (Wales) Bill. The Committee's inability to accommodate this was disappointing however we have taken advantage of the offer to receive further evidence from local government to feed into the Committee's deliberations.


Please find attached a paper which sets out the main concerns councils have shared with the WLGA and asked they be shared with the Committee. This paper builds on our initial response to the consultation exercise on the draft Bill and is supported by additional information, shared by councils, that aims to set out how aspects of the Bill will impact on local authorities, the additional capacity and resources required for successful implementation, as well as some real life case studies that reflect the type of individualised approach councils need to take to support homeless people and those at threat of homelessness, but this also relies on the person working with the council to be successful. We hope this additional information will exemplify the issues and concerns raised in the paper.

I would wish to stress again that local government is supportive of the aims of the Bill of increased prevention, providing good quality temporary accommodation where needed for as short a time as possible through supporting and enabling people to find, move on and sustain permanent accommodation. This is an ambition that is shared with Welsh Government, as is the need to significantly increase the supply of housing, particularly social housing to meet the increased demand for homelessness services over recent years. Councils have been undertaking tremendous work to tackle homelessness, developing

innovative approaches and transforming their services and will continue to do so, and I hope the Committee will agree our commitment in this area is clear.

If you require any further information, please do not hesitate to contact me.

Yours sincerely



Cllr Andrea Lewis
WLGA Spokesperson for Housing and Deputy Leader of Swansea Council

Cc: Jayne Bryant, Cabinet Secretary for Housing and Local Government
Chairs of Finance Committee and Legislation, Justice and Constitution Committee

Additional information provided by WLGA as referred to in its letter

Jayne Bryant AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

27 Awst 2025

Annwyl Peredur,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Mehefin yn dilyn fy nhystiolaeth lafar i sesiwn craffu'r Pwyllgor Cyllid ar Fil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru). Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth bellach y gofynnodd y Pwyllgor amdani.

Cynigiais roi nodyn technegol i'r Pwyllgor ar y model a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd gan Alma Economics a Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r dadansoddiad cost a budd ar gyfer y Bil. Fe'i gwelwch yn atodiad A ac rwyf wedi ateb eich cwestiynau isod.

Effaith y Bil ar wasanaethau iechyd

Yn eich llythyr rydych chi'n holi sut rydym wedi ystyried effaith negyddol bosibl y Bil ar wasanaethau iechyd yn ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA). Rwy'n disgwyl y bydd y Bil yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, gan gynnwys arbedion sylweddol ac osgoi costau. Mae'n bwysig, fodd bynnag, cydnabod goblygiadau ei roi ar waith a'r trawsnewidiad diwylliannol ac ymarferol sydd ei angen i gyflawni ein nodau. Bydd sawl darpariaeth yn y Bil, yn enwedig 'gofyn a gweithredu' a chydlynu achosion yn gofyn am newid y ffordd y mae unigolion sydd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o ddigartrefedd ac sydd hefyd angen gwasanaethau iechyd yn cael eu hadnabod. Mae'r RIA yn cyfri'r costau cyfle sy'n gysylltiedig â'r newid hwn (tudalen 128 a 135).

Ond wrth adnabod yr unigolion hyn yn gynt, iddynt allu cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt yn gynt ac yn fwy effeithlon, ein nod yw atal cyflyrau iechyd rhag datblygu neu ddirywio ymhellach. At hynny, bydd cydlynu gwell ar wasanaethau yn esgor ar fuddion lawer, megis canlyniadau gwell i unigolion; llai o bwysau ar wasanaethau cyhoeddus ehangach yn y pen draw; a'r gostyngiad ar gostau gwasanaethau cyhoeddus yn y tymor hwyr.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Asesu fforddiadwyedd

Fel y dywedwch, mae'r RIA yn dangos y £475 miliwn o fuddion ariannol ac nid yw'n cynnwys yr amcangyfrif o £167 miliwn o fuddion i'r sector cyhoeddus ehangach a £3.7 miliwn ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL). Yn eich llythyr rydych chi'n gofyn sut caiff y buddion hyn eu gwireddu. Disgwylir i'r Bil gael effaith ariannol bositif ar y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Nid yw RSLs yn rhan o'r asesiad fforddiadwyedd gan ei fod yn ymdrin â chyrrff sector cyhoeddus yng Nghymru yn unig. Fodd bynnag, disgwylir i'r manteision i'r sector cyhoeddus ehangach ac RSLs fod yn fuddion ariannol. Yn achos y sector cyhoeddus ehangach, maent yn cynnwys costau wedi'u hosgoi i'r gwasanaethau iechyd a'r system cyfiawnder troseddol. Ar gyfer RSLs, mae'r buddion yn ymwneud â darparu llety sefydlog.

“Gofyn a Gweithredu”:

Fel y dywedwch amcangyfrifir y bydd "gofyn a gweithredu" ar gyfer digartrefedd yn arwain at oddeutu £12.4 miliwn o gostau cyfle ar draws y cyrrff cyhoeddus penodedig sy'n dod o dan y ddyletswydd.

Mae fy swyddogion wedi bod yn trafod â'r holl adrannau perthnasol, rhai datganoledig a rhai heb eu datganoli, am y dyletswyddau dan sylw ers sawl mis a bydd y trafod hwn yn parhau trwy gydol y prosesau craffu, cyn-weithredu a gweithredu. Mae "gofyn a gweithredu" yn rhan o'n cynllun gweithredu canol tymor, er mwyn caniatáu amser ar gyfer y trafod a'r cynllunio hwn. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn datblygu hyfforddiant, deunyddiau a methodoleg atgyfeirio a'r gofynion o ran data, ar y cyd â rhanddeiliaid.

Byddwn hefyd yn dysgu o'r ddyletswydd yn Lloegr i atgyfeirio, yn enwedig o ran casglu data, ac o gyflwyno "gofyn a gweithredu" mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yng Nghymru.

Camau rhesymol

Fel y nodwch yn eich llythyr, rydym wedi amcangyfrif y bydd angen £5 miliwn ychwanegol y flwyddyn i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu "cynnig cymorth i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu drwy gymryd camau rhesymol sy'n debygol o gyflawni'r diben hwnnw".

Nod yr iaith gryfach yn y Bil yw sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn teilwra'r camau a gymerant i atal digartrefedd yn ôl profiad yr unigolyn - fel hynny, daw'r gobaith gorau posibl o atal digartrefedd.

Rydym yn rhagweld y bydd angen gwariant ataliol ychwanegol i gyflawni hyn ac er mwyn amcangyfrif y gost hon rydym wedi edrych ar y cymorth ariannol presennol ar gyfer gweithgareddau atal digartrefedd yn ôl disgrisiwn. Ers y pandemig, rydym wedi darparu £5m i'r diben hwn. Mae'r cyllid hwn wedi'i drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw eleni i gydnabod ei natur statudol. Mae'r amcangyfrif yn yr RIA felly yn rhagdybio dyblu'r cyllid ataliol presennol hwnnw.

Hawl i ofyn am adolygiad

Rydych chi'n gofyn sut rydym wedi ffurfio'r rhagdybiaeth, a ddisgrifir yn y RIA, y gall 25% o ymgeiswyr a ddaw o dan y ddyletswydd digartrefedd ofyn am adolygiad.

Ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu data am geisiadau am adolygiadau, ac nid yw'r llysoedd yn cyhoeddi ystadegau ar apelïadau i'r llysoedd sirol neu lysoedd uwch sy'n ymwneud â digartrefedd.

Gan fod y Bil yn darparu mwy o gyfleoedd i ofyn am adolygiad a bydd ymgeiswyr yn cael gofyn am fwy nag un adolygiad yn ystod eu profiad â'r gwasanaeth, rydym wedi dewis defnyddio amcangyfrif cymharol uchel o 25% fel sail ar gyfer y gost bosibl. Y rheswm dros y gor-amcangyfrif posibl hwn yw lleihau'r risg o dan-gostio'r diwygiadau. Rydym yn deall y gallai awdurdodau lleol geisio datrys pryderon y tu allan i'r broses ffurfiol, ond penderfynon ni na fyddai'n briodol tybio'r lefel hon o arfer anffurfiol. Nod cynyddu'r hawliau i ofyn am adolygiadau yw sicrhau'r ffordd symlaf bosibl o gael at gyfiawnder.

Cyllid ar gyfer y ddyletswydd newydd i gadw llety

Bydd cyllidebau'r dyfodol yn fater i Lywodraethau'r dyfodol. Er hynny, rwy'n cydnabod, fel y dywed yr RIA, bod angen buddsoddiad cychwynnol i helpu i roi'r Bil ar waith, gan gynnwys y ddyletswydd newydd i helpu i gadw llety addas. Mae helpu person i gadw ei lety yn fath pwysig o atal digartrefedd, yn enwedig mewn perthynas â digartrefedd ailadroddus. Mae'r ddyletswydd newydd yn bwysig i awdurdodau lleol wrth iddynt baratoi ymgeiswyr ar gyfer tai tymor hir a hefyd i ddarparwyr tai cymdeithasol wrth iddynt baratoi i gefnogi deiliaid contractau meddiannaeth. Mae'r RIA yn nodi bod costau'r ddyletswydd cadw yn rhai rheolaidd ac yn rhan o'r nod hirdymor i fuddsoddi mewn atal yn lle buddsoddi mewn llety dros dro.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon o gymorth ichi barhau i graffu ar y Bil a diolch i'r Pwyllgor am eich gwaith ar y Bil hwn.

Yn gywir,

**Jayne Bryant AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Nodyn technegol ar amcangyfrif costau a buddion y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)

Cyflwynir y nodyn technegol hwn i Bwyllgor Cyllid y Senedd i'w helpu i graffu ar y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru). Ei ffocws yw'r model "stoc a llif" a ddatblygwyd gan ALMA Economics sydd wedi cael ei ddefnyddio i amcangyfrif y galw am y system ddigartrefedd yng Nghymru a'i chostau, a sut y rhagwelir y bydd hyn yn newid dros amser, gan dybio na chaiff polisi na deddfwriaeth eu newid. Nod y nodyn yw disgrifio'n fanwl y dehongliad sylfaenol y mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil yn seiliedig arno.

Y model stoc a llif

Mae'r model stoc a llif yn rhannu'r system ddigartrefedd statudol yng Nghymru yn chwe cham (gweler isod), gan ddefnyddio setiau data cenedlaethol i amcangyfrif nifer yr ymgeiswyr sy'n ceisio cymorth ym mhob cam. Mae hefyd yn defnyddio llenyddiaeth adnabyddus a chanlyniadau ymchwil sylfaenol gyda rhanddeiliaid yng Nghymru i amcangyfrif costau cyfartalog, fesul aelwyd digartref, pob un o'r camau hyn (costau unedol). Mae'r model yn cyfuno'r dystiolaeth ar nifer yr achosion â'r amcangyfrif o'r costau unedol, i amcangyfrif cost digartrefedd i'r sector cyhoeddus a sut y gallai hyn newid yn y dyfodol.

Camau'r model stoc a llif

Mae'r model yn ystyried sut y mae unigolyn yn cael at gymorth ac yn "llifo" trwy'r system ddigartrefedd. Rhennir profiad yr ymgeisydd yn chwe phrofiad neu gam posibl. Gall ymgeisydd brofi un neu sawl un o'r camau hyn, gan ddibynnu ar ei gais a'i sefyllfa. Dyma'r camau:

Cam 1: Cymorth statudol o dan adran 66 o Ddeddf Tai (Cymru) (2014) i'r rheini sydd dan fygythiad o golli'u cartref.

Cam 2: Cymorth statudol cychwynnol (y ddyletswydd lliniaru) i'r rheini sy'n profi digartrefedd.

Cam 3: Y canlyniadau i'r rheini sy'n derbyn y cymorth statudol cychwynnol ac yn profi digartrefedd (y ddyletswydd lliniaru).

Cam 4: Y rhai sy'n derbyn y brif ddyletswydd tai (adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) (2014)

Cam 5: Llety dros dro

Cam 6: Llety sefydlog

Trwy fodelu'r llif, rydym yn cael gweld ble mae costau'r system digartrefedd yn digwydd a'u cyfran. Mae hefyd yn creu llinell sylfaen y gallwn ei defnyddio i amcangyfrif effaith y newidiadau sy'n cael eu cynnig, yn enwedig i ddangos ble a sut y gall gwelliannau o ran atal a lliniaru digartrefedd arwain at arbedion.

Nid yw'r model stoc a llif yn offeryn perffaith. Mae'n cynnig golwg symlach ar sut mae pobl ddigartref yn symud o un cyflwr i'r llall, gan ddefnyddio data sy'n adlewyrchu cyflwr presennol y system. Mae'r symleiddio hwn yn angenrheidiol i roi dadansoddiad ystyrlon. Mae rhagor o wybodaeth am cafeatau ac ansawdd data i'w gweld yn yr RIA.

Amcangyfrif o nifer y derbynwyr ym mhob un o gamau'r model stoc a llif**Cam y model stoc a llif****Amcangyfrif o'r nifer**

Cam 1: Cymorth statudol o dan adran 66 o Ddeddf Tai (Cymru) (2014) i'r rheini sydd dan fygythiad o golli'u cartref

Mae data StatsCymru yn dweud wrthym y cafodd 8,772 o aelwydydd gymorth yn y cam hwn yn 2023-2024. Ar sail cyfartaledd dwy flynedd o ddata awdurdodau lleol, llwyddwyd i atal 58% o ymgeiswyr rhag mynd yn ddigartref yn y cam hwn. Bydd y rhai na ellir eu hatal rhag mynd yn ddigartref yn llifo i gam 2 y model.

Cam 2: Cymorth statudol cychwynnol (y ddyletswydd lliniaru) i'r rheini sy'n profi digartrefedd

Mae data StatsCymru yn dweud wrthym i 13,539 o ymgeiswyr gael cymorth o dan adran 73 o Ddeddf Tai (Cymru) (2014) (Dyletswydd i helpu i sicrhau llety) yn 2023-24. Bydd rhai o'r ymgeiswyr hyn yn bobl sydd wedi llifo o gam 1, ond mae llawer yn ymuno â'r system yn y cam hwn. O gofio bod StatsCymru yn cofnodi nifer y bobl y mae hawl ganddynt i ddyletswyddau Adran 73 yn ôl eu canlyniadau, mae'r data yn cyfeirio at nifer y bobl sy'n llifo allan o ddigartrefedd yn hytrach na'r cyfanswm sy'n profi digartrefedd ar hyn o bryd. Sylwch nad yw hyn yn cynnwys yn benodol y rhai sy'n dod o dan ddyletswydd adran 75 (dyletswydd i sicrhau llety ar gyfer y rheini sydd ag angen blaenoriaethol), hynny am fod Adran 73 yn para am hyd at 56 diwrnod ac y byddai cyfrif dwbl sylweddol yn debygol pe bai Adran 75 yn cael ei chynnwys yn y diffiniad o ddigartrefedd.

Nid ydym yn cadw data i ddeall pam mae pobl yn ymuno â'r system yn y cam hwn. Mae'r model stoc a llif felly'n tybio bod yr ymgeiswyr sy'n cael cymorth o dan adran 73 yn cael cymorth am fod bygythiad iddynt fynd yn ddigartrefedd neu eu bod wedi gofyn am gymorth ar y pwynt y maent yn mynd yn ddigartref (yn hytrach na chyn hynny).

Rydym hefyd wedi tybio bod cyfran y bobl sy'n profi digartrefedd, a oedd hefyd dan fygythiad o fynd yn ddigartref (fel y'i diffinnir gan adran 66 o Ddeddf Tai (Cymru) (2014)), yn gyson dros amser – tua 26% dros y pum mlynedd diwethaf. Gallem fod wedi rhagweld y llif ar sail cyfartaledd cyfradd twf y pum mlynedd diwethaf. Ond mae data'r pum mlynedd diwethaf yn anwadal iawn ac ni fyddai wedi bod yn ffordd gadarn o wneud pethau.

Cam 3: Y canlyniadau i'r rheini sy'n derbyn y cymorth statudol cychwynnol ac yn profi digartrefedd (y ddyletswydd lliniaru)

Mae'r model yn tybio'r canlyniadau canlynol ar gyfer ymgeisydd sy'n cael cymorth o dan adran 73 mewn blwyddyn benodol, ar sail data cyfartalog StatsCymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf: Cafodd digartrefedd 59% o'r ymgeiswyr ei lliniaru ¹, mae 34% wedi'u cyflawni am resymau "eraill" ac ni chafodd digartrefedd y gweddill ei lliniaru.

Cam 4: Y rhai sy'n derbyn y brif

O dan y ddeddfwriaeth bresennol, dim ond y rheini sy'n perthyn i grŵp angen blaenoriaethol ac sy'n ddigartref yn anfwriadol sydd

¹ Lle diffinnir "y Cyfanswm sydd wedi cael eu lliniaru" fel swm y canlyniadau: "lliniaru llwyddiannus o dan adran 73" a "cyflawni'n gadarnhaol o dan adran 75". Y gyfradd lliniaru yw: y cyfanswm sydd wedi cael eu lliniaru" wedi'i rannu â chanlyniadau cyflawni adran 73..

ddyletswydd tai (adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) (2014)

â hawl i gymorth o dan adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) (2014). Gan ddefnyddio data cyfartaledd pedair blynedd StatsCymru, mae'r model yn tybio nad oes angen blaenoriaethol ar 6% o ymgeiswyr a/neu eu bod yn fwriadol ddigartref a bod gweddill yr ymgeiswyr sy'n llifo o gam 3 i gam 4 yn cael canlyniad ar y cam hwn.² Mae'r broses ddeddfwriaethol y mae rhan o'r model stoc a llif wedi'i seilio arni yn dod i ben yma - nid oes gan yr ymgeisydd opsiynau eraill o fewn y system. Mae camau 5 a 6 o'r model yn ymwneud ag anghenion llety'r ymgeisydd wrth iddo fynd trwy'r system ddigartrefedd.

Cam 5: Llety dros dro – Adran 68

Mae gan unigolyn digartref, sy'n perthyn neu y credir ei fod yn perthyn i grŵp angen blaenoriaethol, hawl i lety dros dro o dan adran 68 o Ddeddf Tai (Cymru) (2014) (Dyletswydd interim i sicrhau llety i ymgeiswyr digartref mewn angen blaenoriaethol).

Darperir data am y rheini a leolir mewn llety dros dro ar StatsCymru. Fodd bynnag, nid yw'r data'n cofnodi o dan ba ddyletswydd neu ddyletswyddau y mae ymgeisydd yn cael llety dros dro. Tybir felly y gellid darparu llety dros dro i unrhyw un nad yw ei ddigartrefedd wedi cael ei liniaru'n llwyddiannus o dan ddyletswydd adran 73. Mae ymgeiswyr eraill yn cael ac yn defnyddio llety dros dro. Tybir hefyd fod y gymhareb rhwng y rheini a leolir mewn llety dros dro a'r rheini sy'n dod o dan ddyletswyddau adran 73 ac nad ydynt yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus yn parhau'n gyson dros amser.

Cam 6: Llety sefydlog – lliniaru digartrefedd

Bydd ymgeiswyr sy'n derbyn cymorth o dan adran 73 a/neu adran 75 yn cael llety sefydlog os cyflawnir y ddyletswydd mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r model yn defnyddio data StatsCymru i amcangyfrif y ffigur hwn.³

Ar ôl amcangyfrif y niferoedd ym mhob cam o'r system ddigartrefedd, mae'r model nawr yn amcangyfrif costau unedol y cymorth digartrefedd a ddarperir i'r ymgeiswyr hyn.

Seilir yr amcangyfrif o'r costau hyn ar ddata arolwg awdurdodau lleol Cymru a gasglwyd yn 2024. Gwnaeth yr arolwg a'r templed costio gasglu data ar gostau blynyddol mewn perthynas â grwpiau sy'n agored i niwed, llety dros dro, llety byrdymor â chymorth, cysgu allan, tai cymdeithasol, gweinyddu a chyflawni, y galw am dai cymdeithasol a chostau cysylltiedig, gan ddarparu amcangyfrifon ar gyfer y grwpiau costau canlynol:

Cost	Cost fesul aelwyd
Llety dros dro gros: cost darparu llety dros dro i'r rhai sy'n profi digartrefedd. Mae'r costau hyn yn gostau gros ac yn	£12,540

² Cyfartaledd pedair blynedd yn hytrach na chyfartaledd pum mlynedd, gan y byddai defnyddio ffigurau eithriadol o uchel 2019/20 yn ystumio'r % a ddim yn adlewyrchu'r tueddiadau cyfredol.

³ [Pob achos lle mae'r camau cadarnhaol a gymerwyd wedi llwyddo i atal / lliniaru digartrefedd](#)

cynnwys unrhyw symiau a fyddai'n cael eu tynnu trwy lwfans tai.	
Llety â chymorth: cost darparu llety â chymorth.	£15,075
Tai cymdeithasol (ychwanegol): cost ychwanegol darparu tai cymdeithasol i berson digartref o'i gymharu â'r costau i rywun nad yw'n ddigartref, yn hytrach na chyfanswm cost darparu tai cymdeithasol. Dangosir hyn am yr ystyrir bod y stoc tai cymdeithasol yn sefydlog i raddau helaeth yn y tymor byr ac felly byddai unrhyw gynnydd yn y galw am dai cymdeithasol ymhlith pobl sy'n profi digartrefedd yn gofyn am ailddyrranu'r stoc tai cymdeithasol presennol.	£3,126
Gweinyddiaeth ALI – gweithgaredd atal	£1,320
Gweinyddiaeth ALI – gweithgaredd profi digartrefedd	£1,555
Gweinyddiaeth ALI – gweithgaredd lliniaru	£889

Amcangyfrifwyd hefyd costau unedol cyfartalog ymwneud cynyddol pobl sy'n profi digartrefedd â'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach, o'u cymharu â chostau rhywun nad yw'n ddigartref. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys y gwasanaeth iechyd, y system cyfiawnder troseddol, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Cafodd y costau hyn eu brasamcanu gan ddefnyddio ymchwil a gyhoeddwyd, gan gynnwys gan y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol (2024)⁴, Crisis (2018)⁵, Centrepoin (2024)⁶, a Choleg Prifysgol Llundain (2023)⁷.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gost ychwanegol, fesul aelwyd digartref, a ddefnyddir yn y dadansoddiad.

Gwasanaethau cyhoeddus ehangach	Cost uned, fesul aelwyd digartref
Cyfiawnder troseddol	£2,252

⁴ Ffederasiwn Tai Cenedlaethol (2024), The economic impact of building social housing, <https://www.housing.org.uk/resources/the-economic-impact-of-building-social-housing/>

⁵ Crisis (2018), Assessing the costs and benefits of Crisis' plan to end homelessness,, https://www.crisis.org.uk/media/238957/assessing_the_costs_and_benefits_of_crisis-plan_to_end_homelessness_2018.pdf

⁶ Centrepoin (2023), Human Costs and Lost Potential: Real Cost of Youth Homelessness, <https://centrepoin.org.uk/research-reports/human-costs-and-lost-potential-real-cost-youth-homelessness>

⁷ Coleg Prifysgol Llundain (2023), Design for All – A Place to Call Home UCL Report, <https://www.arc-nt.nihr.ac.uk/media/2yxfzell/ucl-report-a-place-to-call-home.pdf>

Iechyd y GIG	£1,369
Iechyd Meddwl	£667
Camddefnyddio sylweddau	£419

Costau economaidd ehangach digartrefedd

Mae ein dadansoddiad hefyd yn ystyried effeithiau economaidd ehangach sy'n gysylltiedig â digartrefedd; yn benodol yr effeithiau ar iechyd ac ar enillion gweithwyr.

Effeithiau ar iechyd (QALYs) Gwnaeth Lewer et al. (2018)⁸ amcangyfrif bod digartrefedd yn gyfystyr â cholli 0.161 blwyddyn fywyd a addaswyd yn ôl ansawdd (QALYs), sy'n fesur o ganlyniadau iechyd sydd wedi newid o ganlyniad i ymyrraeth. Mae hyn yn awgrymu y bydd atal rhywun rhag profi digartrefedd yn arwain at gynnydd o 0.161 blwyddyn o fywyd iach. Er bod amcangyfrifon eraill o QALYs ar gael, credir mai'r rhai a ddarparwyd gan Lewer et al (2018) yw'r mwyaf perthnasol o ystyried eu bod yn cymharu QALY person digartref â rhai person nad ydynt yn ddigartref - sef y gymhariaeth gywir ar gyfer y Dadansoddiad Cost a Budd, lle amcan yr ymyrraeth yw osgoi digartrefedd neu dynnu pobl ohono. Gwerth ariannol QALY yw £70,000 fesul QALY, yn ôl canllawiau Llyfr Gwyrdd yr HMT. **Error! Bookmark not defined.**

Enillion gweithwyr – mae digartrefedd, oherwydd diffyg sefydlogrwydd, yn debygol o darfu ar gyflogaeth pobl sy'n ei brofi ac ar eu henillion. Mae'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol (2024) yn amcangyfrif y daw £3,290 o fuddion blynyddol i'r farchnad lafur o gael mwy o sefydlogrwydd llety, er enghraifft wrth symud rhywun o lety dros dro i dy cymdeithasol.⁹

Nid yw'n bosibl mesur buddion eraill sy'n gysylltiedig â digartrefedd, yn enwedig yr effeithiau ar unigolion, er ei bod yn debygol iawn y bydd atal mwy o ddigartrefedd yn dod â mwy o fuddion. Mae adborth ar sail ymarfer yn awgrymu bod treulio cyfnodau hir mewn llety dros dro, yn enwedig llety o safon is, yn cael effeithiau niweidiol ar unigolion. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth ar gael i fesur effaith treulio llai o amser yn ddigartref a byw mewn llety dros dro o ran canlyniadau i unigolion neu effeithiau ehangach ar wasanaethau cyhoeddus. Mae'r dadansoddiad ar hyn o bryd yn tybio y byddai person sy'n ddigartref yn dal i brofi'r un effeithiau andwyol o ran canlyniadau iechyd ac enillion, ac yn dal i ymwneud â'r sector cyhoeddus ehangach, ni waeth faint o amser a dreulir yn ddigartref. Felly, mae'r canlyniadau yn debygol o danamcangyfrif effaith lliniaru digartrefedd yn gynt, yn enwedig mewn perthynas ag effeithiau negyddol hysbys bod mewn llety dros dro am gyfnodau hir.

Cost y diwygiadau

⁸ Lewer D, Aldridge RW, Menezes D, et al. Health-related quality of life and prevalence of six chronic diseases in homeless and housed people: a cross-sectional study in London and Birmingham, England *BMJ Open* 2019;9:e025192. doi: 10.1136/bmjopen-2018-025192

⁹ [Ffederasiwn Tai Cenedlaethol \(2024\)](https://www.housing.org.uk/resources/the-economic-impact-of-building-social-housing/). The economic impact of building social housing, <https://www.housing.org.uk/resources/the-economic-impact-of-building-social-housing/>

Fel y dywedir yn yr RIA, daw cost o wneud y diwygiadau cyn y gwelir buddion y diwygiadau ac mae'r RIA yn nodi'r costau untro ac ailadroddus sy'n gysylltiedig â'r Bil. Cafodd yr amcangyfrif o'r costau hyn eu datblygu gyda chymorth awdurdodau lleol, RSLs a chyrrff perthnasol y sector cyhoeddus ehangach, gan gydnabod bod cyfyngiadau o ran data a thystiolaeth. Ar gyfer rhai costau gweithredu mae angen datblygu tybiaethau yn absenoldeb tystiolaeth. Mae manylion pellach ar gael yn yr RIA.

Beth yw manteision y Bil?

Fel a ddisgrifir yn yr RIA, un broblem amlwg gyda modelu buddion y diwygiadau a gynnigir yw nad oes llawer o dystiolaeth nac enghreifftiau o ymyriadau tebyg y byddai dadansoddiad o'r buddion fel arfer yn seiliedig arnynt. O ganlyniad, nid oes modd modelu buddion pob diwygiad unigol. Yn hytrach, mae'r buddion yn seiliedig ar y pecyn cyffredinol o ddiwygiadau, gan roi sylw i'r newidiadau arwyddocaol i baramedrau allweddol sy'n arwain at ganlyniadau buddiol: mwy o atal, lliniaru digartrefedd mewn ffordd fwy effeithlon a llai'n cael eu rhyddhau am resymau eraill.

Atal digartrefedd – disgwylir i'r diwygiadau gynyddu cyfradd llwyddiant atal digartrefedd ymhlith pobl sydd dan fygythiad o ddigartrefedd ac sy'n dod o dan ddyletswydd Adran 66. Ar hyn o bryd mae 58% o ymgeiswyr yn cael eu hatal yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref (yn seiliedig ar ddwy flynedd ddiwethaf o ddata). Trwy gynyddu'r gyfradd honno, bydd y diwygiadau'n lleihau nifer y bobl sy'n mynd i ddigartref gan felly leihau'r holl gostau cysylltiedig, gan gynnwys costau llety dros dro a gwaith gweinyddol tymor hwy awdurdodau lleol, yn ogystal â'r effeithiau ar les a chyflogaeth yr unigolyn.

Llwyddo i liniaru digartrefedd – disgwylir i'r diwygiadau wella effeithlonrwydd y ffordd y bydd pobl sy'n profi digartrefedd (fel y'i diffinnir gan ddyletswydd Adran 73) yn cael eu hailgartrefu ac yn lliniaru eu ddigartrefedd. Ar hyn o bryd, llinierir digartrefedd 59% o'r bobl sy'n destun dyletswydd Adran 73 (lle diffinnir lliniaru fel swm y canlyniadau: "lliniaru llwyddiannus o dan adran 73" a "cyflawni'n gadarnhaol o dan adran 75". Y gyfradd lliniaru yw: y cyfanswm sydd wedi cael eu lliniaru" wedi'i rannu â chanlyniadau cyflawni adran 73. Bydd gwella'r gyfradd hon yn lleihau'r amser y bydd pobl yn ei dreulio mewn llety dros dro, gan leihau gwaith gweinyddol a rheoli achosion yn y tymor hwy.

Y ddyletswydd wedi'i chyflawni am "resymau eraill" - ar hyn o bryd, mae tua 34% o bobl sy'n dod o dan ddyletswydd Adran 73 yn gadael y system ddigartrefedd heb gael eu lliniaru oherwydd, ymhlith rhesymau eraill, diffyg cydweithrediad, colli cyswllt a thynnu cais yn ôl. Mae'r diwygiadau yn ceisio lleihau'r nifer hwn, gan gydnabod y gallai rhai pobl sy'n gadael y system am y rhesymau hyn barhau'n ddigartref ac ail ymuno â'r system yn ddiweddarach. Er y bydd hyn yn arwain at fwy o gostau yn y tymor byr, gan y bydd mwy o bobl yn gymwys i gael cymorth, disgwylir iddo arwain at fuddion tymor hwy gan y bydd lliniaru pobl yn gynnwys yn osgoi'r risg y gallai eu sefyllfa waethygu a all fod yn fwy costus i'w datrys yn nes ymlaen.

Gan nad oes llawer o dystiolaeth beth fydd maint y gwelliannau i'r paramedrau uchod, mae dadansoddiad newid wedi'i gynnal lle mae'r paramedrau yn cael eu newid o'r swm lleiaf i sicrhau y bydd y costau gweithredu yn talu am eu hunain. Pe bai dim ond angen cyfuniad bach a "rhesymol" o newidiadau i ddod â buddion net, yna byddai hyn yn awgrymu bod y diwygiadau yn debygol o sicrhau buddion net. Mae'r gwaith modelu o amgylch y paramedrau hyn wedi'u nodi isod. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y gall y diwygiadau adennill eu costau ariannol a sicrhau gwerth am arian trwy sicrhau gwelliant o 6.1% yn y

gyfradd atal a gwelliant o 0% yn y gyfradd liniaru. Pan fyddwn yn cynnwys y buddion i gymdeithas, mae'r cynnydd angenrheidiol yn y gyfradd atal yn gostwng i 3.2%. Mae'n bwysig nodi, cyn dechrau pandemig COVID-19, fod y gyfradd atal yn 67% ar gyfartaledd (cyfartaledd rhwng 2017/2018 a 2019/2020). Mae hyn yn awgrymu bod y gwelliant sydd ei angen er mwyn adennill costau'r diwygiadau hyn, yn isel ac gyflawnadwy iawn. Nid oes angen hyd yn oed dychwelyd i lefelau atal cyn y pandemig er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Senario – % y gwelliant yn y paramedrau o'u cymharu â busnes fel arfer o ganlyniad i'r diwygiadau	Cymhareb budd a chost	Cymhareb budd a chost
	(ariannol)	(cymdeithasol)
Busnes fel Arfer Cyfradd atal = +0% Cyfradd liniaru = +0%	0.0	0.0
Craidd Cyfradd atal = +10% Cyfradd liniaru = +10%	2.0	3.9
Cyfradd atal = +1% Cyfradd liniaru = +0%	-0.1	0.1
Cyfradd atal = +5% Cyfradd liniaru = +0%	0.8	1.7
Cyfradd atal = +6.1% Cyfradd liniaru = +0%	1.0 (adennill costau)	2.2
Cyfradd atal = +3.2% Cyfradd liniaru = +0%	0.4	1.0 (adennill costau)
Cyfradd atal = +0% Cyfradd liniaru = +5%	-0.2	-0.2
Cyfradd atal = +0% Cyfradd liniaru = +15%	-0.1	-0.1

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

18 Gorffennaf 2025

Annwyl Peredur

Yn ein llythyr dyddiedig **24 Mawrth 2025**, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymateb y Comisiwn i argymhellion y Pwyllgor Cyllid a wnaed yn yr **Adroddiad ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2025-2026**, gwnaethom ymrwmo i roi rhagor o wybodaeth am yr argymhellion yn unol â'n llythyr ymateb cychwynol dyddiedig **5 Tachwedd 2024**.

Fel y gofynnwyd yn eich llythyr dyddiedig 3 Mehefin 2025, rydym yn cyflwyno ein hymatebion i'r argymhellion sy'n weddill yn Atodiad 1, cyn sesiwn graffu'r hydref ar Gyllideb Ddrafft 2026-2027, fel a ganlyn:

- Argymhelliad 2 – Paratodau cyllideb y Comisiwn ac ymgysylltu ag Aelodau
- Argymhelliad 3 – gwelliannau i brosesau ac arbedion
- Argymhelliad 6 – costau Diwygio'r Senedd
- Argymhellion 7 ac 8 – prosiect Bae Caerdydd 2032
- Argymhelliad 11 – prosiect adolygu'r Pierhead
- Argymhelliad 15 – llesiant staff
- Argymhelliad 17 – y wybodaeth ddiweddaraf ar gynlluniau prosiectau hirdymor - **Atodiad 2**

Cytunwyd ar y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod 2025-26 i 2027-28 gan y Comisiwn yn ei gyfarfod ym mis Mehefin ac fe'i gyflwynir fel **Atodiad 3 (Senedd-Cyfyngedig)**.

Mae argymhellion eich Pwyllgor ynghylch mentrau lleihau ynni yn swyddfeydd etholaethol yr Aelodau hefyd wedi'u trafod yn yr Atodiad sydd ynghlwm, ac rydym yn rhoi dolen i'r **Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol 2024-25** a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar.



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ Sulafa.Thomas@senedd.cymru
☎ 0300 200 6227

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ Sulafa.Thomas@senedd.wales
☎ 0300 200 6227

Mae'r Comisiwn yn parhau i geisio bod yn gwbl dryloyw gyda'r Pwyllgor. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y wybodaeth a ddarparwyd, byddwn yn hapus i ymateb.

Yn gywir,



Hefin David AS

copi at Gomisiynwyr y Senedd, Manon Antoniazzi, Ed Williams

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English



Atodiad 1 - Argymhellion y Pwyllgor Cyllid

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn cynnal sesiynau craffu rheolaidd gyda'r Pwyllgor i drafod sut mae paratodau cyllideb y Comisiwn yn datblygu ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27.

Gofynnodd llythyr y Pwyllgor dyddiedig 3 Mehefin 2025 ymhellach am y canlynol:

'darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae paratodau cyllidebol y Comisiwn yn datblygu ar gyfer y flwyddyn nesaf, fel y gallwn ddeall sut olwg fydd ar gyllideb sefydlog cyson y tu hwnt i'r etholiad ym mis Mai 2026; ac

amlinellu'r cynlluniau ar gyfer y gwaith ymgysylltu y byddwch yn ei wneud â'r Aelodau cyn cyhoeddi cyllideb ddrafft y Comisiwn.'

(Mae'r ymateb hwn hefyd yn cwmpasu Argymhelliad 5 o adroddiad y Pwyllgor: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn ystyried ymgysylltu ag Aelodau'r Senedd a Grwpiau Plaid mewn ffordd fwy ffurfiol cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer cylchoedd cyllidebol yn y dyfodol a bod digon o amser yn cael ei roi i sicrhau bod canlyniadau'r ymgysylltu hwn yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau cyllidebol).

Cytunodd y Comisiwn i gymryd rhan mewn sesiynau craffu gyda'r Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am baratoi'r gyllideb ar gyfer 2026-27 a chynnydd gyda gwaith caffael Bae32.

Roedd swyddogion y Comisiwn a chynrychiolydd o Avison Young yn bresennol mewn sesiwn graffu gyda'r Pwyllgor ym mis Medi 2024 a mis Mawrth 2025 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Bae32.

Roedd Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu a swyddogion y Comisiwn yn bresennol yng nghyfarfodydd grwpiau'r pleidiau ym mis Mehefin i esbonio'r materion allweddol sy'n codi yn y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig a'r rhagdybiaethau y bwriedir iddynt fod yn sail i gyflwyniad cyllidebol 2026-27, a ddisgwylir gerbron y Pwyllgor ym mis Hydref.

Bydd y gwaith manwl ar gyfer y gyllideb yn cael ei wneud dros gyfnod gwyliau'r haf. Bwriad ac ymrwymiad y Comisiwn yw pennu cyllideb sy'n ddarvoudus wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion craidd y Comisiwn. Fodd bynnag, gan y bydd cyllideb 2026-27 yn adlewyrchu cost lawn Diwygio'r Senedd a 36 Aelod ychwanegol, mae'n anochel y bydd yn dangos cynnydd sylweddol mewn cost o'i gymharu â 2025-26. Nid yw hyn yn annisgwyl ac mae'r Comisiwn wedi defnyddio'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol fel meincnod i reoli costau yn ei erbyn wrth gynnal y cyfrifiadau cyllidebol rhagarweiniol hyn.

Bydd cyllideb 2026-27 hefyd yn cynnwys arian i dalu'r costau sy'n codi o ganlyniad i'r etholiad ei hun, gan gynnwys: taliadau dirwyn i ben, grantiau ymaddasu i Aelodau, taliadau dileu swyddi ar gyfer Staff Cymorth, dyraniad offer TGCh i'r holl Aelodau sy'n dychwelyd, ymgysylltu cyn yr etholiad a'r agoriad swyddogol. Bydd y gyllideb hon yn cael ei neilltuo a bydd unrhyw warged yn cael ei ddychwelyd i'r grant bloc Cymru.



2026-27 fydd y flwyddyn olaf y bydd y gyllideb ar gyfer Diwygio'r Senedd yn cael ei neilltuo. Ar ôl y cyfnod hwn bydd yn dod yn rhan o'r gyllideb weithredol a'r broses arferol o bennu cyllideb, gan gyfeirio at y datchwyddwr Cynnyrch Mewnwladol Crynswth fel mesur o ddarbodusrwydd.

Mae'r gyllideb weithredol o dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn a'r bwriad yw dychwelyd y gyllideb cyflwr sefydlog i un sy'n adlewyrchu cyd-destun ehangach y sector cyhoeddus. Byddwn yn parhau i herio prosesau a cheisio cronni arbedion effeithlonrwydd a fydd yn cael ei adlewyrchu yn y llinell sylfaen. Fodd bynnag, gallai'r gyllideb gyffredinol wyro oddi wrth y datchwyddwr lle gwneir penderfyniadau gyda chanlyniad gwahanol; er enghraifft, y gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol.

Bydd prosiect Bae 32 hefyd yn effeithio ar geisiadau cyllidebol yn y dyfodol. Mae'n debygol y bydd angen i'r Comisiwn ailbriso'r ased Hawl Defnyddio ar gyfer Tŷ Hywel yn 2026-27 a dychwelyd swm sylweddol o gyfalaf i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o hyn ac wedi cynghori'r Comisiwn i beidio ag adlewyrchu hyn yn y gyllideb gychwynnol a gyflwynir ar gyfer 2026-27 ond i addasu drwy gyllid atodol pan fydd contractau ar waith. Mae Llywodraeth Cymru yn rhanddeiliad allweddol yn y prosiect hwn ac mae'n mynychu Bwrdd Sicrwydd ar y Cyd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd. Ni fydd unrhyw gostau'n gysylltiedig â gwaith adeiladu yng nghyllideb 2026-27; bydd cyllideb Bae 32 wedi'i chynllunio i gefnogi costau'r prosiect yn unig.

Argymhelliad 3 - Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Senedd, yn unol â'r Datganiad o Egwyddorion, yn esbonio:

- sut mae'n ceisio gwella prosesau a sicrhau arbedion;**
- sut mae prosesau i sicrhau arbedion wedi newid yng ngoleuni'r newidiadau i gyllideb y Comisiwn a achosir gan Ddiwygio'r Senedd;**
- sut y bydd y dull hwn yn datblygu y tu hwnt i flwyddyn ariannol 2025-26;**

a bod cynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Cyllid ar y materion hyn cyn gosod y gyllideb ddrafft ar gyfer 2026-27.

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gyllidebu darbodus a sicrhau gwerth am arian o'i gyllideb ddirprwyedig.

Mae'r Comisiwn wedi sefydlu Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig er mwyn pennu dull strategol clir ar gyfer datblygu ceisiadau cyllideb y Comisiwn i'r Senedd sy'n cydbwysu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau'r Comisiwn â chyllidebu tryloyw a darbodus, sy'n cynnwys defnyddio offer fel y datchwyddwr cynnyrch mewnwladol crynswth a lefel darged ar gyfer y gweithlu (ffiniau y mae'r Comisiwn yn ymdrechu i aros oddi mewn iddynt, drwy gynllunio manwl, bob blwyddyn).



Mae Cynllun Corfforaethol y Comisiwn yn nodi blaenoriaethau corfforaethol a ddefnyddir i lywio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig; yna mae'r cynlluniau strategol hynny'n llywio'r cynlluniau gwasanaeth blynyddol manwl, ar gyfer pob maes o weithgarwch y Comisiwn, a'r gyllideb flynyddol, sy'n alinio adnoddau i'r ddarpariaeth bob blwyddyn.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae Prif Swyddog Cyllid y Comisiwn wedi bod yn arwain ymarfer corfforaethol parhaus i nodi enillion effeithlonrwydd sy'n cael eu cronni ar draws y sefydliad; bydd hyn yn arwain at adrodd blynyddol penodol ar effeithlonrwydd yn y dyfodol, o fewn y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig, yn unol â gofynion Fframwaith Effeithlonrwydd Llywodraeth y DU.

Wrth i ni symud i gefnogi Senedd fwy o faint, rydym wedi dechrau ystyried modelau darparu a chraffu ar y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i Aelodau, er mwyn rhoi sicrwydd bod y gwasanaethau a ddarparwn yn briodol, yn effeithlon ac yn effeithiol ac yn gyson â'n hymrwymiad i beidio ag allosod adnoddau yn unol â'r Senedd estynedig. I'r perwyl hwnnw rydym yn gweithio i ddatblygu catalog gwasanaethau a model gweithredu targed ar gyfer y Seithfed Senedd. Bydd y gwaith hwn, unwaith eto, yn llywio ein gwaith cynllunio adnoddau drwy'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig a'r cylch cyllideb blynyddol.

Argymhelliad 6 – Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Senedd yn parhau i ddangos bod cyllidebau wedi'u clustnodi ar wahân ac yn nodi yn nogfennau'r gyllideb sut mae costau Diwygio'r Senedd yn cymharu ag amcangyfrifon yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yng nghyllidebau'r dyfodol.

Dull y Comisiwn fu defnyddio cyllidebau wedi'u neilltuo lle bo'n briodol i gynorthwyo tryloywder ac yn enwedig lle mae ansicrwydd ariannol.

Hyd yn hyn, mae'r gyllideb ar gyfer Diwygio'r Senedd wedi'i neilltuo ac mae hyn wedi hwyluso rheolaeth dros wariant a thryloywder o ran y costau. Mae'r gofyniad cyllidebol ar gyfer 2026-27 yn dal i fod yn amodol ar benderfyniadau na fydd yn cael eu gwneud tan ar ôl yr etholiad. Rydym yn parhau, felly, i fod wedi ymrwymo i neilltuo'r gyllideb am flwyddyn arall. Mae gwneud hynny'n golygu y gall y Comisiwn reoli ei gyllideb yn ddeinamig wrth i strwythur y Seithfed Senedd ddod i'r amlwg.

Unwaith y bydd y Seithfed Senedd wedi'i sefydlu, er y gallwn adrodd ar lefel y gyllideb sydd wedi'i dyrannu ar gyfer y cynnydd, bydd yn llawer anoddach cofnodi'r costau sy'n codi o ganlyniad i Ddiwygio'r Senedd. Er enghraifft, er y bydd y Penderfyniad yn adlewyrchu cyflog a lwfansau 96 o Aelodau, ni fydd yn bosibl mwyach, bryd hynny, adrodd yn gywir ar yr elfen benodol o gostau Aelodau y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol i gael 36 o Aelodau ychwanegol.

O ran Bae 32, mae hwn yn brosiect lle bydd costau bob amser ar wahân ac y bydd modd eu nodi. Unwaith y bydd y prosiect wedi dod i ben, ni fydd angen darpariaeth gyllidebol barhaus. Mae'n synhwyrol, felly, cadw hwn fel swm wedi'i neilltuo ar gyfer hyd y prosiect.



Argymhelliad 7 – Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Senedd yn mynychu sesiynau tystiolaeth cyhoeddus mewn perthynas â phrosiect Bae Caerdydd 2032, gyda'r sesiwn gyntaf yn digwydd yn fuan ar ôl cytuno ar yr achos busnes amlinellol.

Mae'r Comisiwn wedi cynnal dwy sesiwn 'wyneb yn wyneb' gyda'r Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ar y prosiect, gan gynnwys un sesiwn gyhoeddus. Rhoddir y diweddariad nesaf ar garreg filltir briodol yn y broses gaffael gan nodi y bydd yr Achos Busnes Amlinellol yn cael ei ddiwygio ymhellach. Mae'r Comisiwn yn parhau i fod yn awyddus i ymgysylltu â'r Pwyllgor a bydd yn ymateb yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol i unrhyw geisiadau am wybodaeth a/neu ymgysylltu pellach.

Argymhelliad 8 – Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi gwybodaeth am sut y bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â phrosiect Bae Caerdydd 2032 yn cael eu gwneud, gan gynnwys pryd y bydd Aelodau'r Senedd yn cymryd rhan mewn penderfyniadau o'r fath a'r amserlnni cysylltiedig.

Bydd penderfyniadau allweddol ym mhrosiect Bae 32 yn cael eu gwneud gan y Comisiwn yn seiliedig ar gyngor swyddogion. Y penderfyniad allweddol nesaf fydd dewis yr ateb a ffefrir. Gwneir hyn:

- Pan fydd y broses ddeialog gystadleuol bresennol yn dod i ben (disgwylir iddi bara tan fis Hydref 2025);
- Pan fydd achosion busnes cadarn wedi'u paratoi, yn unol â'r model 5 achos gan ddefnyddio'r methodolegau arfarnu a nodir yn y Llyfr Gwyrdd; a
- Adolygiadau OGC Gateway allanol llawn ar bwyntiau penderfynu allweddol a fydd yn rhoi asesiad o barodrwydd y prosiectau i symud i'r cam nesaf ac yn rhoi sicrwydd i'r Comisiwn wrth wneud ei benderfyniadau.

Mae anghenion Aelodau wrth wraidd prosiect Bay 32. Felly, ymgynghorwyd ag Aelodau ynghylch y gofynion cychwynnol, sydd wedi llywio penderfyniadau'r Comisiwn yn uniongyrchol hyd yma. Mae'r rhain wedi'u hadlewyrchu yn y cynigion a gafwyd hyd yn hyn gan y farchnad a byddant yn cael eu hadlewyrchu yn y gwahoddiad i gyflwyno cynigion terfynol.

Mae'r prosiect ar hyn o bryd yn ei gyfnod caffael, a rhaid ei reoli'n ofalus yn unol â chyfraith caffael er mwyn sicrhau cystadleuaeth deg. Ar ôl cyflwyno'r cynigion terfynol, bydd yr Aelodau'n cymryd gwneud cyfraniad pellach y cyfnod dylunio manwl drwy fecanweithiau addas, megis Grŵp Cyfeirio Aelodau neu ddulliau eraill yn ôl cyngor arbenigwyr cynllunio. Bydd yr ymgysylltu hwn yn ategu'r gwaith ymgysylltu ychwanegol ag Aelodau a Grwpiau drwy gydol y broses gyllidebol, a bydd yn llywio ystyriaeth fanwl y Comisiwn o faterion perthnasol drwy gydol yr hydref, a disgwylir ar hyn o bryd y bydd hyn yn arwain at benderfyniad ar ganlyniad a ffefrir erbyn y gaeaf hwn.

Argymhelliad 11 – Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi rhagor o wybodaeth am Brosiect Adolygu'r Pierhead o fewn tri mis ar ôl i'r adolygiad ddod i ben.



Bydd cynigion ar gyfer y camau nesaf ar brosiect y Pierhead, wedi'u llywio gan gyngor proffesiynol allanol, yn cael eu hystyried gan Fwrdd Gweithredol y Comisiwn y mis hwn. Byddwn, wrth gwrs, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor unwaith y bydd y gweithgarwch adolygu hwn wedi dod i unrhyw gasgliad.

Argymhelliad 15 – Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Senedd yn parhau i fonitro newidiadau yn llesiant staff drwy arolygon staff ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau'r arolygon hynny a'r camau a gymerwyd i liniaru'r pwysau ar staff cyn yr etholiad yn 2026.

Cynhaliwyd yr arolwg Llesiant diweddaraf ym mis Mai 2025, gyda chyfradd ymateb o 74%, sy'n cynrychioli 375 o ymatebion gan staff y Comisiwn. Mae hyn yn parhau i fod yn gyfradd ymateb uchel ac yn dangos ymgysylltu cadarnhaol gan staff. Cynhaliwyd yr arolwg Llesiant diwethaf yng ngwanwyn 2024.

Mae'r canfyddiadau'n gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r metrigau'n symud i'r cyfeiriad dymunol o'i gymharu â'r arolwg blaenorol yng ngwanwyn 2024:

Nodau'r Strategaeth Llesiant 2022-25:

- Mae 79% yn cytuno bod y sefydliad yn gwneud yn dda i wreiddio llesiant yn niwylliant y gweithle. Mae hyn wedi cynyddu 3% ers gwanwyn 2024.
- Mae ychydig dros 4 o bob 5 o'r ymatebwyr (82%) yn cytuno eu bod yn gallu 'dod â'ch holl hunan i'r gwaith' - sef bod yn nhw eu hunain yn y gwaith heb gael eu barnu. Mae hyn wedi gostwng ychydig ers gwanwyn 2024 (84%)

Iechyd corfforol

- Fel gydag iechyd meddwl, cynyddodd sgôr yr ymatebwyr ar gyfer eu hiechyd corfforol o 3.49 yn arolwg gwanwyn 2024 i 3.56 yn arolwg gwanwyn 2025.
- Mae canran yr ymatebwyr sy'n dweud eu bod wedi gweithio tra'n sâl wedi gostwng yn sylweddol o 47% yn arolwg gwanwyn 2024 i 39%.

Iechyd meddwl

- Ers gwanwyn 2024, bu cynnydd amlwg yn sgôr iechyd meddwl staff – gan gynyddu o 3.31 yn arolwg gwanwyn 2024 i 3.35 yn arolwg gwanwyn 2025.
- Bu gostyngiad yn nifer y staff sy'n dweud eu bod wedi profi straen sy'n gysylltiedig â gwaith dros y chwe mis diwethaf; ar 47% erbyn hyn, o'i gymharu â 50% yn y ddwy flynedd flaenorol.
- Mae barn staff ar lwyth gwaith yr un fath ag arolwg gwanwyn 2025, gyda 77% o staff yn dweud bod eu llwyth gwaith yn addas ar gyfer eu horiau. Dywedodd 19% o'r ymatebwyr fod ganddynt ormod o waith a dywedodd 4% o'r ymatebwyr nad oes ganddynt ddigon o waith ar gyfer eu horiau cytundebol.



- Y tri phrif ffactor sy'n achosi straen sy'n gysylltiedig â gwaith yw o'r canlynol o hyd: llwyth gwaith, gofynion/terfynau amser munud olaf a chyflenwi ar gyfer rôl, fodd bynnag mae canran yr ymatebwyr sy'n nodi'r rhain fel ffactorau sy'n cyfrannu wedi lleihau.

Cysylltiad cymdeithasol

- Mae'r mwyafrif helaeth yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod wedi'u cysylltu â'u tîm, ac yn cytuno bod eu llesiant o bwys i'w rheolwr llinell (94% a 95% yn y drefn honno). Mae'r rhain yn gymharol â'r arolwg blaenorol.
- Mae 94% yn teimlo bod eu rheolwr llinell yn cyfathrebu'n dda.
- Mae 89% yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu tîm rheoli (y canlyniad uchaf ers i'r cwestiwn gael ei ofyn gyntaf yn 2020).

Trefniadau gwaith a chefnogaeth gyffredinol i staff

- Roedd 91% o'r ymatebwyr yn fodlon neu'n fodlon iawn â'u trefniadau gwaith ac nid oedd gan y mwyafrif (86%) unrhyw bryderon presennol am eu hiechyd, eu diogelwch na'u llesiant o ran mynd i'r safle i weithio.
- Mae lefel sylweddol o ymwybyddiaeth ynghylch y mecanweithiau cymorth llesiant sydd ar gael, gyda saith allan o'r wyth mecanwaith a arolygwyd yn cyflawni cyfradd ymwybyddiaeth o 80% neu uwch.

Llesiant ariannol

Yn ogystal, yn Argymhelliad 12, ymrwymodd y Comisiwn i: werthuso effaith dyfarniad cyflog ar staff y Comisiwn drwy'r Arolwg Llesiant nesaf a gynhelir ym mis Mawrth - bydd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor erbyn diwedd tymor yr haf.

Cynhaliwyd yr arolwg Llesiant ym mis Mai 2025 yn hytrach na mis Mawrth. Roedd hyn oherwydd y ffaith, gan fod dyfarniad cyflog 2025-26 wedi'i gymhwyso i gyflog staff o 1 Ebrill 2025 (a dalwyd mewn gwirionedd yn ystod rhediad cyflog 30 Ebrill), na fyddai wedi bod yn bosibl gofyn cwestiynau am effaith y dyfarniad cyflog cyn mis Mai.

Y cwestiynau a ofynnwyd er mwyn gwerthuso effaith y dyfarniad cyflog oedd:

1. Ar raddfa o 1 i 10, gyda 10 yn cytuno'n llwyr ac 1 yn anghytuno'n llwyr, i ba raddau ydych chi'n cytuno eich bod chi'n cael eich talu'n deg?

Ar draws yr holl ymatebion, y nifer gyfartalog oedd 7.5/10. Mae hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl yn cytuno ar y cyfan eu bod yn cael eu talu'n deg. O fewn y graddau a gynrychiolwyd uchaf, sef HEO (92 ymateb) ac SEO (54 ymateb), y nifer gyfartalog oedd 7.7 a 7.9 yn y drefn honno.

2. O fis Ebrill 2025, dyfarnwyd cynnydd o 5% i staff y Comisiwn mewn cyflog sylfaenol. Pa mor fodlon oeddech chi â'r dyfarniad cyflog hwn? I ba raddau yr ydych yn cytuno bod y cynnydd o 5% mewn cyflog wedi gwella eich llesiant ariannol neu y bydd yn gwella eich llesiant



ariannol?

Roedd 87% o'r ymatebwyr yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r cytundeb cyflog ar gyfer 2025-26. Mae hyn yn awgrymu bod y cytundeb cyflog wedi cael ymateb cadarnhaol iawn gan staff. Roedd 73% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y cytundeb cyflog wedi gwella eu llesiant ariannol. Ar draws y ddau gwestiwn, gradd EO oedd fwyaf cadarnhaol am y cytundeb cyflog, gyda 90% o'r rhai ar y radd hon yn fodlon neu'n fodlon iawn, a 79% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'n gwella eu llesiant ariannol. Staff ar radd SEO oedd leiaf bodlon, gyda 81% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn fodlon â'r cytundeb cyflog. Wrth ystyried ymatebion testun rhydd gan staff am y cytundeb cyflog, y rheswm posibl dros hynny oedd, i staff ar bwynt uchaf gradd SEO, fod y cynnydd wedi'u gwthio i'r lefel nesaf o gyfraniadau pensiwn, felly efallai nad oedd y cynnydd gwirioneddol i'w cyflog gymaint ag yr oedd rhai yn ei ddisgwyl (er bod ymatebion testun rhydd hefyd yn dangos bod staff yn gwerthfawrogi bod hyn o fudd i'w pot pensiwn yn y tymor hir).

3. Pa mor fodlon oeddech chi â'r codiad ôl-ddyddiedig mewn cyflog? I ba raddau yr ydych yn cytuno bod y codiad ôl-ddyddiedig mewn cyflog wedi gwella eich llesiant ariannol?

* Gofynnwyd i staff ar raddau Cymorth Tîm (TS), EO, a phwyntiau cyflog 1-3 o radd HEO yn unig, sef y rheini a gafodd godiad cyflog ôl-ddyddiedig.

Ar draws yr holl ymatebion, roedd 95% yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r cynnydd ôl-ddyddiedig. Mae hyn yn hynod gadarnhaol. Cytunodd 77% o'r holl ymatebwyr y byddai'r cynnydd ôl-ddyddiedig yn gwella eu llesiant ariannol.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr: 'Yn eich geiriau eich hun, sut mae'r dyfarniad tâl (cynnydd o 5% / cynnydd ôl-ddyddiedig neu'r ddau) wedi effeithio arnoch chi? A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym, neu ei ofyn, am gyflog a gwobrwyon?'

Cafwyd 95 o ymatebion. Y themâu mwyaf cyffredin oedd:

Roedd y cytundeb cyflog yn deg / wedi cael effaith gadarnhaol.	37
Bydd y cynnydd mewn cyflog yn cael ei amsugno gan y cynnydd yng nghostau byw neu'n llai na'r cynnydd hwnnw.	34
Gallai/dylai cynnydd ôl-ddyddiedig mewn cyflog ar gyfer rolau TS, EO a rhai rolau HEO fod wedi'i gyflwyno i bawb, neu i'r rhai ym mhwynt 4 o HEO / SEO.	9
Yn rhoi mwy o dawelwch meddwl am y dyfodol.	6
Mae'r cytundeb cyflog / codiad cyflog yn golygu y gallaf nawr gynilo arian.	5
Mae wedi golygu fy mod i wedi gallu prynu rhywbeth roeddwn i eisïau.	4
Fe wnaeth ein cymryd ni i'r lefel nesaf o gyfraniadau pensiwn, felly nid oedd y cynnydd cymaint ag yr oeddwn yn ei ddisgwyl.	4



Fe wnaeth fy ngalluogi i glirio dyled.	3
Dylid adolygu cyflogau diogelwch oherwydd trefniadau gwaith gwahanol.	3
Mae wedi gwella'r cydbwysedd rhwng graddau lle roedd graddau is yn teimlo eu bod wedi'u gadael ar ôl.	3

Argymhelliad 17 – Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi manylion i'r Pwyllgor ynghylch ei gynlluniau prosiect hirdymor hyd at 2032, gan gynnwys amcangyfrif o gostau prosiectau unigol, os ydynt yn hysbys.

Mae'r Comisiwn yn cynnal piblinell tair blynedd ar gyfer prosiectau, ochr yn ochr â'i bortffolio o brosiectau newid blaenoriaeth strategol (Bae 32, Siambr 26, Tŷ Hywel 26 a'r Pierhead).

Mae'r biblinell prosiectau yn cynnwys yn bennaf eitemau yn ymwneud ag ystadau a seilwaith TGCh sy'n deillio o'u blaenraglen waith 5 mlynedd ar gyfer TGCh a'u blaenraglen waith 10 mlynedd ar gyfer Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau, ac eitemau eraill lle bydd angen adnewyddu ased yn unol ag Amserlen Contractau'r Comisiwn. Cyflawnir y biblinell hon drwy bortffolios blynyddol – mae portffolio 2025-26 fel y'i cynlluniwyd ar hyn o bryd wedi'i nodi yn **Atodiad 2**

Mae blaenraglen waith Ystadau yn cynnwys cymysgedd o eitemau arwyddocaol megis ailosod planhigion, eitemau sy'n gysylltiedig â strategaeth Carbon y Comisiwn, a phrosiectau eraill i sicrhau bod yr ystâd yn cael ei rheoli'n effeithiol.

Mae blaenraglen waith TGCh yn cynnwys rhaglenni treigl o adnewyddu seilwaith darlledu wrth i eitemau fel camerâu ac offer arall gyrraedd diwedd eu hoes, ochr yn ochr â rhaglenni treigl i adnewyddu a gwneud ein seilwaith TGCh yn fwy effeithlon ac i sicrhau bod ein seiberddiogelwch yn gadarn ac yn unol ag archwaeth risg y Comisiwn.

Mae rhagolwg presennol y Comisiwn yn dangos mai cost gyfanredol amcangyfrifedig y biblinell 3 blynedd yw £7.1 miliwn. Mae'n debyg iawn y bydd hyn gryn dipyn yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael dros y cyfnod, sy'n golygu bod yn rhaid i'r Comisiwn gynnal ymarferion blaenoriaethu blynyddol.

O ran y prosiectau newid blaenoriaeth strategol sy'n weddill, bydd Siambr 26 a Tŷ Hywel 26 yn cael eu cwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26. Mae prosiect y Pierhead yn ei gyfnod cwmpasu ac ar hyn o bryd nid oes ganddo gyllideb sylweddol – mae'r prosiect hwn yn ceisio dod o hyd i ffordd o weithredu'r Pierhead ar sail fasnachol ac felly mae'n edrych i leihau costau i'r pwrs cyhoeddus.

Mae prosiect Bae 32 yn fenter fawr, hirdymor sydd yn y cyfnod caffael ar hyn o bryd. Bydd yn mynd i'r cyfnod dylunio manwl y flwyddyn nesaf ar ôl dewis ateb a ffeirir ar gyfer llety i'r Senedd. Mae cyllideb 2025-26 yn dyrannu £2.055 miliwn ar gyfer caffael a gwaith dylunio cynnar. Disgwylir i gostau blynyddol yn y dyfodol cyn i'r gwaith ddechrau fod fwy neu lai yn unol â'r gyllideb hon, yn amodol ar gynnydd o ran y ddeialog gystadleuol a chynnydd pellach yn natblygiad cyllideb reolaidd y



Comisiwn. Bydd costau hirdymor terfynol yn cael eu pennu ar ôl cynigion y cynigwyr a diweddariadau i'r achos busnes. Mae'r Comisiwn yn gwerthuso amrywiaeth o opsiynau masnachol i sicrhau'r gwerth gorau am arian, gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Fawrhydi.

Mentrau i leihau ynni mewn perthynas â swyddfeydd etholaethol yr Aelodau, gyda'r nod o sicrhau gwell gwerth am arian

Mae'r Comisiwn, drwy'r timau Cynaliadwyedd a Chymorth Busnes i'r Aelodau, wrthi'n datblygu gwybodaeth fydd ar gael i'r Aelodau i'w cynorthwyo i leihau'r defnydd o ynni mewn swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol. Disgwylir y bydd y canllawiau wedi'u cwblhau cyn dechrau toriad yr haf. Bydd y canllawiau'n adeiladu ar wybodaeth a ddarparwyd i Aelodau mewn perthynas â mesurau effeithlonrwydd ynni y gellir eu cymryd gartref.

Gan edrych ymlaen at y Seithfed Senedd, a chan gydnabod bod cyfle i Aelodau ystyried effeithlonrwydd ynni wrth ddod o hyd i swyddfeydd etholaethol, bydd y Comisiwn yn cynnwys canllawiau priodol ar ystyriaethau effeithlonrwydd ynni fel rhan o'i gefnogaeth Croeso yn dilyn Etholiad Cyffredinol Cymru 2026.

Yn olaf, er nad mesur lleihau ynni yw hwn, mae'r Comisiwn wedi lansio cynllun peilot i archwilio hyfywedd trefniant lle byddai Aelodau yn defnyddio contract ynni'r Comisiwn, gyda'r nod o asesu a allai hyn gynnig gwerth da am arian i Aelodau o ran biliau ynni.



Rhestr Prosiectau Rheoli Portffolios – Mehefin 2025

Cyfran	Enw'r Prosiect	Cost yn 25-26	Cost Gronnus	Colofn 1
1	Adnewyddu Platfform Zscaler (meddalwedd sy'n cynnig mynediad diogel i'r rhyngwrwd)	£57,400	£57,400	
1	Meddalwedd Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ac Offer Ymgysylltu Ar-lein.	£158,157	£215,557	
1	Cynllun Peilot Dellusrwydd Artiffisial Microsoft (Co-Pilot)	£48,000	£263,557	Disgwylir yr achos busnes erbyn mis Tachwedd
1	Datblygu gwasanaethau (gan gynnwys achos busnes ar gyfer crèche)	£47,000	£310,557	
1	Cam 1 y prosiect i ddisodli'r System Rheoli Deddfwriaeth (Cam darganfod)	£87,500	£398,057	
1	Uwchraddio Seilwaith Darlledu - Cam 5: Prif System Rheoli ac Offer 'Porth' IP	£240,000	£638,057	
1	System Rheoli Busnes y Senedd	£125,000	£763,057	
1	Seilwaith TGCh - Disodli Rheolydd LAN Di-wifr Cisco	£27,000	£790,057	
1	Cyfarpar teledu cylch cyfyng - Caledwedd newydd	£50,000	£840,057	
1	Darlledu a Chlyweledol - Cam 6: System Sain a Meicroffonau ar gyfer Ystafelloedd Pwyllgora'r Senedd	£190,000	£1,030,057	
1	Pobl a Thaliadau - Meddalwedd Adnoddau Dynol a Chyflogres - Cam 2	£44,500	£1,074,557	
1	Darlledu a Chlyweledol - Prosiect Disodli Senedd TV	£125,000	£1,199,557	
1	Seilwaith TGCh - Disodli Switsh Craidd Cisco	£65,000	£1,264,557	
1	Prosiect Disodli System Rheoli Adeiladau y Senedd	£750,000	£2,014,557	
1	Gwella Hygyrchedd Tŷ Hywel a'r Senedd	£45,000	£2,059,557	
1	Seilwaith TGCh - Disodli Meddalwedd Hypervisor	£100,000	£2,159,557	
1	Seilwaith TGCh - Prosiect Disodli'r Wal Dân Fewnol	£20,000	£2,179,557	
1	Cam II Prosiect i ddisodli'r System Rheoli Deddfwriaeth (Cam gweithredu)	£130,000	£2,309,557	
	Buddsoddi i Arbed	£50,000	£2,359,557	
	LLINELL FFORDDIADWYEDD			
2	Offeryn Rheoli Gwasanaethau TG	£9,000	£2,368,557	
2	Rhaglen Cadwraeth ac Atgyweiriadau i'r Pierhead	£50,000	£2,418,557	
2	Seilwaith TGCh - Aseiad Seiberddiogelwch Blynyddol - Profi Treiddiad	£20,000	£2,438,557	
2	Rhaglen Disodli Offer TGCh y Comisiwn - Adnewyddu 25/26	£99,820	£2,538,377	
2	Darlledu a Chlyweledol - Cam 7: Gweinyddion Mewnbynnu	£90,000	£2,628,377	
2	Rhaglen Dreigl i ddisodli'r goleuadau yn y Pierhead i ddefnyddio bylbiau LED	£50,000	£2,678,377	
2	Rhaglen Dreigl i ddisodli'r goleuadau yn y Senedd i ddefnyddio bylbiau LED	£150,000	£2,828,377	

FIN(6)-19-25 PTN 12

2	Clyweledol a'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi - System Cyfieithu ar y Pryd Symudol Newydd	£45,000	£2,873,377	
2	Darlledu a Chlyweledol - Sgriniau ar gyfer Oriol Gyhoeddus y Siambr	£165,000	£3,038,377	
2	Seilwaith TGCh - Prosiect Segmentu'r Rhwydwaith	£50,000	£3,088,377	
2	Astudiaeth Ddichonoldeb System Rheoli Goleuadau'r Senedd	£60,000	£3,148,377	
2	Uned Trin Aer Tŷ Hywel a Llunio Manyleb ar gyfer disodli'r Oerydd	£30,000	£3,178,377	
2	Seilwaith TGCh: Diwrnodau Ymgynghori Prosiect	£20,000	£3,198,377	
2	Disodli Goleuadau LED Allanol y Pierhead	£60,000	£3,258,377	
2	Disodli Falfiau'r Rheiddiaduron yn Nhŷ Hywel	£135,000	£3,393,377	
2	Uwchraddio Liff Rhif 3 yn y Senedd (Liff cyhoeddus o'r Neuadd i'r Oriol)	£164,000	£3,557,377	
2	Stribedi rwmban newydd yn y Senedd	£60,000	£3,617,377	
2	Drysau Allanol newydd yn Nhŷ Hywel (4ydd llawr, maes parcio a'r is-orsaf)	£25,000	£3,642,377	
2	Larwm Llais Adeilad y Senedd a System Sain yn Nhŷ Hywel	£180,000	£3,822,377	
I2S	Gwella dadansoddiad o ymatebion i ymgynghoriadau	£30,000	£3,852,377	
I2S	Mynediad digidol at bapurau newydd	£20,000	£3,872,377	
I2S	Disodli dtSearch (meddalwedd chwilio manwl ar gyfer testun a data)	£ -	£3,872,377	

Mr Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru

Cyfeirnod: AC510/caf

Dyddiad cyhoeddi: 21 Gorffennaf 2025

Annwyl Peredur

Hysbysiad ar y sefyllfa o ran dyddiad cau archwiliad

Ysgrifennaf ymhellach at eich llythyr 17 Gorffennaf 2023 ynghylch argymhelliad y Pwyllgor i roi gwybod i chi o ran pan na fydd modd i mi gwblhau archwiliad cyrff penodedig o fewn yr amserlen y cytunwyd arno.

Rwyf bellach yn eich hysbysu o'r archwiliad canlynol nad yw wedi cwrdd â'i ddyddiad cau.

Enw'r corff	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Blwyddyn archwilio	2024-25
'Dyddiad cau' cychwynnol	30 Mehefin 2025 (sef targed gweinyddol Llywodraeth Cymru).
Sylwebaeth ar oedi	Nododd yr archwiliad lefelau uchel o wallau mewn cydbwysedd gofal iechyd parhaus. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno i gynnal adolygiad manwl o'r

	balans i nodi unrhyw wallau pellach cyn cwblhau ein harchwiliad.
Dyddiad cwblhau archwiliad disgwyliedig	Amcangyfrif cychwynnol ddiwedd mis Gorffennaf, yn amodol ar y gwaith cynlluniedig i'r Bwrdd lechyd.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Mark Isherwood AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Yr eiddoch yn gywir



ADRIAN CROMPTON
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mark Drakeford AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh LanguageLlywodraeth Cymru
Welsh GovernmentPeredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru

4 Awst 2025

Annwyl Peredur,

Yn ddiweddar, gwnaeth Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig argymhellion i lywodraeth y DU ynghylch ystadegau poblogaeth a mudo yn y dyfodol ar gyfer Cymru a Lloegr.

Mae llywodraeth y DU bellach wedi ymateb yn swyddogol i argymhellion yr Awdurdod ac wedi cadarnhau eu bod yn [comisiynu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol \(y SYG\) i gynnal cyfrifiad gorfodol sy'n seiliedig ar holiadur o holl boblogaeth Cymru a Lloegr yn 2031](#).

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio'n agos gyda'r SYG wrth gynllunio Cyfrifiad 2031 gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o Gyfrifiad 2021. Mae'n rhaid sicrhau bod y cyfrifiad yn cwrdd â gofynion defnyddwyr yng Nghymru am ystadegau poblogaeth amserol, cynhwysol ac o ansawdd uchel a caiff eu defnyddio i lywio polisi, dyrannu adnoddau a chefnogi darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda'r llywodraethau datganoledig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon wrth iddynt gynnal cyfrifiadau eu hunain yn 2031.

Wrth i baratodau'r cyfrifiad ddatblygu, efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno clywed gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn y dyfodol i graffu ar eu cynlluniau.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol ar y mater hwn.

Yn gywir,

Mark Drakeford AS/MSYsgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh LanguageCanolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SNCorrespondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 56
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mark Drakeford AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5 Awst 2025

Annwyl Peredur,

Rwy'n ysgrifennu i roi manylion i'r Pwyllgor am symiau canlyniadol fformiwla Barnett i Lywodraeth Cymru yn sgil Adolygiad Gwariant y DU a gyhoeddwyd ar 11 Mehefin 2025.

Mae'r wybodaeth a nodir yn Atodiad A yn dangos dyraniadau adnoddau ar gyfer blynyddoedd ariannol 2026-27, 2027-28 a 2028-29; dyraniadau cyfalaf cyffredinol a dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2026-27 i 2029-30. Dim ond ar sail symiau canlyniadol sy'n ymwneud â'r dyraniadau'n gyffredinol ar lefel adrannau Llywodraeth y DU y mae'r wybodaeth ar gael.

Rwyf wedi ymrwmo o hyd i barhau i gyflwyno ein gwybodaeth gyllidebol mewn modd agored a thryloyw i gynorthwyo gwaith craffu'r Pwyllgor.

Yn gywir,

Mark Drakeford AS
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad A**Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU – symiau canlyniadol Fformiwla Barnett**

Mae'r tri thabl isod yn crynhoi symiau canlyniadol fformiwla Barnett i Lywodraeth Cymru yn sgil Adolygiad Gwariant diweddar y DU.

Mae'r tablau yn ymdrin â chyllid adnoddau cyllidol, cyfalaf cyffredinol, a chyfalaf trafodiadau ariannol. Mae'r holl ffigurau yn newidiadau o'u cymharu â llinell sylfaen 2025-26.

Symiau Canlyniadol Fformiwla Barnett o ran Adnoddau (£m)

	2026- 27	2027- 28	2028- 29
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	518	1,109	1,720
Addysg	242	347	425
Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol	23	37	49
Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon	2	4	22
Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg	2	2	2
Trafnidiaeth	-3	-12	-15
Yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig	-2	-3	-7
Arall	4	4	2
Ardrethi busnes ¹	-113	-121	-139
Cyfanswm	673	1,367	2,059

1. Yn dileu symiau canlyniadol a ariennir gan gynnydd mewn incwm ardrethi annomestig yn Lloegr

Symiau Canlyniadol Fformiwla Barnett o ran Cyfalaf Cyffredinol (£m)

	2026- 27	2027- 28	2028- 29	2029- 30
Addysg	84	52	52	52
Trafnidiaeth	45	50	42	65
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	24	-4	67	59
Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg	4	9	10	13
Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol	9	-9	-24	-32
Diogeledd Ynni a Sero Net	-15	-10	-18	-24
Yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig	-2	-2	-4	-5
Arall	0	-2	-3	-5
Cyfanswm	149	84	121	124

Symiau Canlyniadol Fformiwla Barnett o ran Cyfalaf Trafodiadau Ariannol (£m)				
	2026-	2027-	2028-	2029-
	27	28	29	30
Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol	36	30	45	65
Diogeledd Ynni a Sero Net	2	12	31	43
Yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig	4	5	6	5
Addysg	3	3	3	3
Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg	1	1	2	2
Arall	0	1	1	1
Cyfanswm	47	52	87	118

Mark Drakeford AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/MDWL/1868/25

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

18 Awst 2025

Annwyl Peredur,

Diolch ichi am waith craffu'ch pwyllgor ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2025-26 ac am yr adroddiad a gafwyd wedi hynny.

Atodaf ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru gan obeithio y bydd yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

Mark Drakeford AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2025-26.

Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

18/03/2025

Ym mis Gorffennaf 2025, cyflwynodd y Pwyllgor Cyllid ei adroddiad ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Mae saith o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru yn yr adroddiad. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	3
2. Ymatebion i'r 6 argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru ...	4
Argymhelliad 1	4
Argymhelliad 2	5
Argymhelliad 3	5
Argymhelliad 4.....	6
Argymhelliad 5.....	7
Argymhelliad 6.....	7
Argymhelliad 7	8

1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd ein Cyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2025-26 ym mis Mehefin 2025. Mae'r Gyllideb Atodol yn adlewyrchu'r newidiadau cyllidebol ers Cyllideb Derfynol 2025-26, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror ac a gymeradwywyd gan y Senedd ar 4 Mawrth 2025. Mae'n rheoleiddio dyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt, a throsglwyddiadau o fewn portffolios a rhyngddynt. Mae hefyd yn cynnwys addasiadau i gyllideb Cymru i adlewyrchu effaith digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cyllid am eu hadroddiad ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru a oedd yn cynnwys wyth argymhelliad ac un casgliad; o'r rhain, roedd saith argymhelliad wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Rwyf wedi amlinellu fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

2. Ymatebion i'r 6 argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu gwybodaeth yn amserol gyda'r Senedd am symiau canlyniadol Barnett yn ystod y flwyddyn, a hynny cyn gynted â phosibl yn dilyn pob digwyddiad cyllidol yn y DU.

Ymateb: Derbynn

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth hon i'r Senedd cyn gynted â phosibl ar ôl pob digwyddiad cyllidol yn y DU. Er hynny, mae ein gallu i wneud hynny yn dibynnu ar wybodaeth amserol gan Lywodraeth y DU.

Bu tri digwyddiad cyllideb Llywodraeth y DU yn ddiweddar, sef y Prif Amcangyfrifon, Datganiad Gwanwyn y DU ac Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU. Ysgrifennais at y Pwyllgor Cyllid ar 23 Mehefin gyda gwybodaeth yn ymwneud â chanlyniadau sy'n deillio o'r Prif Amcangyfrifon a Datganiad y Gwanwyn ar gyfer 2025-26.

Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth am y canlyniadau a ddarperir ar gyfer 2025-26 yn Adolygiad Gwariant y DU:

	£m	£m
	Refeniw	Cyfalaf
Y Gronfa Trawsnewid:		
Addysg	4.153	
Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) Llywodraeth Leol	1.037	
Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG)	0.031	
Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg	0.529	
Diogeledd Ynni a Sero Net	0.024	
Busnes a Masnach	0.034	
Gwaith a Phensiynau	0.008	
Y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau	0.009	
Cymorth Datblygu Swyddogol:		
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	-0.109	-0.734
Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon	-0.009	
Yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig	-0.474	-0.259
Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg		-0.035
Cyfanswm*	5.231	-1.028

*Efallai na fydd y cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymgorffori gwybodaeth am symiau canlyniadol fformiwla Barnett, tebyg i'r hyn a gynhwysir yn yr atodiad i ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet a gyhoeddwyd ar 24 Mehefin 2025, yn y Nodiadau Esboniadol ar gyfer Cyllidebau Atodol yn y dyfodol.

Ymateb: Derbyn

Lle bo modd, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth hon i'r Pwyllgor Cyllid yn dilyn digwyddiadau cyllidol mawr Llywodraeth y DU yn y dyfodol. Er hynny, mae ein gallu i wneud hynny yn dibynnu ar amseriad digwyddiadau Llywodraeth y DU ac amseriad ein cyllidebau atodol ein hunain.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio gyda Llywodraeth y DU i ddod i gasgliad ar faterion yn ymwneud â'r Fframwaith Cyllidol, yn enwedig o ran uwchraddio benthyca a therfynau ar Gronfa Wrth Gefn Cymru yn unol â chwyddiant, a chael gwared ar y terfyn tynnu i lawr blynyddol o Gronfa Wrth Gefn Cymru, ac yn gofyn i'r rhain gael eu datrys cyn diwedd y Senedd, gyda diweddariad yn cael ei roi i'r Pwyllgor ar gynnydd erbyn i Gyllideb Ddrafft 2026-27 gael ei chyhoeddi.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ers tro mai ei nod o hyd yw system ariannu gydlynol sy'n seiliedig ar anghenion sy'n gweithredu'n gyson ledled y DU. Mae'r Prif Weinidog a minnau wedi cael trafodaethau ar y cyd â Gweinidogion y DU, gan gynnwys Canghellor y Trysorlys, lle'r ydym yn parhau i bwysu am fwy o hyblygrwydd cyllidol. Rydym wedi gofyn am gytundeb i ddiweddarau terfynau benthyca a chadw Llywodraeth Cymru o brisiau 2018-19 i 2024-25, yn unol â datchwyddwyr GDP diweddaraf y Gyllideb i'w adfer i'w gwir werth, ac i fynegeio'r rhain i chwyddiant wedi hynny. Rydym wedi gofyn hefyd i derfyn tynnu i lawr Llywodraeth Cymru ar gronfeydd wrth gefn cael ei ddiddymu yn barhaol.

Codais y mater hwn yn fwyaf diweddar gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yn ein cyfarfod dwyochrog ar 26 Mehefin ac rwyf yn disgwyl i hyn gael ei ystyried fel rhan o Gyllideb Hydref y DU. Yn ogystal â'r newidiadau hyn, mae dadl gref

hefyd dros gynyddu eto'r terfynau blynyddol a chyfunol ar fynediad at fenthycy cyfalaf, er mwyn iddynt gyd-fynd â chwyddiant o leiaf, gyda'r nod o roi digon o hyblygrwydd i'w gwneud yn bosibl i'r gyllideb gael ei rheoli'n ddoeth o un flwyddyn ariannol i'r llall, er mwyn sicrhau bod cymaint o gyllid â phosibl ar gael i Lywodraeth Cymru.

Codais y mater ehangach o ddyraniadau hwyr gan Lywodraeth y DU a hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn y gyllideb, ochr yn ochr â Gweinidogion Cyllid yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid (F:ISC) ar 26 Chwefror. Caiff hyn ei ystyried ymhellach fel eitem neilltuol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

Mae gan Lywodraeth y DU gyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau yn y maes hwn a byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor Cyllid am gynnydd, cyn cyhoeddi ein Cyllideb Ddrafft yn nhymor yr hydref.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet bwysu ar Drysorlys EF am system fwy cytbwys o ddatrys anghydfodau, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd cyn i Gyllideb Ddrafft 2026-27 gael ei chyhoeddi.

Ymateb: Derbynn

Gwnaeth trefniadau'r Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol (IGR) a gyflwynwyd yn 2022 ffurfioli'r broses datrys anghydfod a chyflwyno elfen annibynnol am y tro cyntaf. Mae'n rhan o system llawer ehangach o gysylltiadau rhynglywodraethol gweithredol a rheoli anghydfodau a phroses dewis olaf ydyw.

Mae ffocws yr Adolygiad IGR ar *osgoi* - fel llywodraethau aeddfed, dylem allu gweithio gyda'n gilydd i gydweithio er budd gorau ein dinasyddion, ac yn unol â'r setliadau datganoli a chonfensiwn cyfansoddiadol.

Rydym yn barod, er hynny, i ddefnyddio'r broses datrys anghydfod os nad ydym yn cael canlyniadau boddhaol mewn meysydd sy'n peri pryder a lle'r ydym yn credu bod y mecanwaith anghydfodau yn debygol o gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

O ran trefniadau cyllido'r DU, mae Llywodraeth Cymru wedi pwysu'n gyson am sefydlu system ariannu gydlynol sy'n seiliedig ar anghenion sy'n gweithredu'n gyson ledled y DU. Rhan annatod o hyn yw sefydlu corff annibynnol gyda goruchwyliaeth o drefniadau cyllido'r DU i sicrhau bod y rheolau y mae Barnett yn gweithredu o'u mewn yn cael eu cymhwysu'n deg ac yn gyson a bod elfen annibynnol gryfach ar gyfer datrys anghydfodau. Byddwn yn parhau i wneud yr achos hwn a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd cyn y Gyllideb Ddrafft.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet barhau i bwysu am gyllid llawn gan Lywodraeth y DU fel bod y trefniadau'n cyd-fynd â'r trefniadau ar gyfer sefydliadau perthnasol eraill yn y sector cyhoeddus yn Lloegr, er mwyn cau'r diffyg mewn cyllid i gwmpasu effaith y cynnydd yng Nghyfraniad Yswiriant Gwladol y cyflogwr ar sefydliadau cyfatebol yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth y DU wedi darparu cyllid o £185m i Gymru yn dilyn ei phenderfyniad i gynyddu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr (NICs) yng Nghyllideb Hydref y DU. Mae hyn yn llawer llai na'r £257m y mae ei angen ar gyflogwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru i dalu'r cynnydd mewn costau cyfraniadau Yswiriant Gwladol y maent yn ei wynebu.

Mae'r diffyg hwn, o fwy na £70m, yn deillio o benderfyniad Llywodraeth y DU y dylai Cymru gael swm canlyniadol Barnett o'r costau ychwanegol i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yn Lloegr, yn hytrach na'r costau gwirioneddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi trosglwyddo'r £185m yn llawn i gyflogwyr datganoledig yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae wedi darparu £36m ychwanegol o Gronfa Wrth Gefn Cymru. Mae hyn yn creu pecyn gwerth cyfanswm o £220 miliwn i helpu ein gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys addysg bellach, gyda'r cynnydd mewn costau cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Mae pennu cyfradd cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn fater a gedwir yn ôl, a chyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw. Byddwn yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i ariannu'n llawn y costau sy'n gysylltiedig â'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gynnal asesiad manwl i fesur effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar y trydydd sector a gwasanaethau a gomisiynir, er mwyn deall effaith hirdymor y diffyg hwn.

Ymateb: Gwrthod

Roedd hwn yn benderfyniad a wnaed gan Lywodraeth y DU, felly mater iddi hi fydd cynnal asesiad mor fanwl.

O gofio natur amrywiol y sector elusennol a'r newidynnau uchod, nid oes modd darparu effaith ddiffiniadol ar y sector. Er hynny, mae'r Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol wedi amcangyfrif y gallai cost newidiadau Llywodraeth y DU i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr fod cymaint â £1.4bn i'r sector gwirfoddol.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn parhau i graffu'n drylwyr ar gyllid y gwasanaeth iechyd a'i fonitro'n fanwl i sicrhau ei fod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd, gan gynnwys sut y mae'r cyllid yn cael ei adolygu a'i addasu yn seiliedig ar berfformiad a chanlyniadau.

Ymateb: Derbyn

Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol gynllun manwl, gyda cherrig milltir a chanlyniadau clir, o sut yn union y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio eleni i leihau amseroedd aros ar gyfer gofal a gynlluniwyd.

Mae'r cynllun yn ceisio cyflawni cerrig milltir allweddol y cabinet ar gyfer gofal wedi'i gynllunio yn 2025-26 drwy:

- Leihau 200,000 o lwybrau ar faint cyffredinol y rhestr aros,
- Cynnal/Gwella'r sefyllfa aros 104 wythnos
- Darparu 350,000 neu fwy o driniaethau

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol a minnau wedi trafod sut y caiff y cyllid ychwanegol hwn ei fonitro yn ystod y flwyddyn, ac rwyf yn parhau i gael cyfarfodydd teirochrog rheolaidd â'r Ysgrifennydd lechyd a'r Gweinidog Cyflawni lle y trafodir cynnydd ar leihau amseroedd aros, gan ddefnyddio'r cyllid hwn, yn fanwl. Mae hyn yn ychwanegol at y monitro ariannol a pherfformiad rheolaidd ar GIG Cymru, a gyflawnir gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol a'i swyddogion.

Mark Drakeford AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Awst 2025

Annwyl Peredur,

YSTADEGAU ALLDRO CYFRADDAU TRETH INCWM CYMRU 2023-24

Cyhoeddodd Cyllid a Thollau EF ystadegau alldro blynyddol ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru yn 2022-24 ar 10 Gorffennaf 2025. Bydd y Pwyllgor am fod yn ymwybodol bod effaith yr alldro hwn ar gyllideb Llywodraeth Cymru drwy gysoni, bellach wedi cael ei chytuno ar y cyd â Thrysorlys EF. Nodir hyn mewn nodyn technegol ar y cyd a gyhoeddwyd ar 21 Awst 2025.

Mae'r ystadegau alldro yn dangos bod cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) yn 2023-24 wedi cynhyrchu £2,968 miliwn, i fyny £350 miliwn neu 13.4% ers 2022-23. Cynyddodd Refeniw Treth Incwm cyfatebol o 10 ceiniog yn y bunt ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon hefyd yn 2023-24 gan arwain at Addasiad i'r Grant Bloc (BGA) o £2,782m. Mae hyn yn golygu bod effaith gyllidebol net CTIC yn +£187m yn 2023-24.

Roedd alldro CTIC £173 miliwn (6%) yn uwch na'r hyn a ragwelwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn yr Hydref 2022 ac fe'i defnyddiwyd yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Roedd yr alldro ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon hefyd yn uwch na'r hyn a ddefnyddiwyd yn y BGA cysylltiedig yng Nghyllideb 2023-24. O ganlyniad roedd y BGA £49 miliwn yn uwch.

Y gwahaniaeth rhwng y refeniw treth incwm a'r addasiadau i'r grant bloc a ddefnyddir yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 a'r alldro terfynol yw +£124 miliwn. Caiff hyn ei gymhwyso i gyllideb 2026-27 fel swm cysoni.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r ystadegau alldro ar gael yma:

[Ystadegau Alldro Treth Incwm Cymru - 2023 i 2024 \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

Gellir gweld y nodyn technegol ar y cyd yma:

<https://www.llyw.cymru/cysoni-cyfraddau-treth-incwm-cymru-2023-i-2024-nodyn-technegol-ar-y-cyd-gan-lywodraeth-cymru-a-thrysorlys-ei-mawrhydi>

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive style and is centered within a white rectangular box.

Mark Drakeford AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Additional information from National Energy Action relating to fuel poverty in Wales - 7 August 2025

Following on from the Bangor Stakeholder Event and our previous email to you outlining some details related to fuel poverty in Wales and the Warm Homes Plan consequential, please find some additional information below following new official fuel poverty estimates from Welsh government.

The new official estimates published today reveal **that one quarter of all households in Wales (340,000) were in fuel poverty in October 2024**. These are households unable to keep their home warm at any reasonable cost, needing to spend more than 10% of their income to adequately heat their home. In addition to this, 63,000 households were estimated to be living in severe fuel poverty, equivalent to 5% of households.

In 2024/25, the average household energy bill based on standard energy consumption was estimated to be £1,850. This is 37% higher than 2021/22, when the average household bill was £1,360. The Welsh government will publish detailed analysis in October (including comparisons with other UK nations, trends over time, fuel poverty by household and dwelling characteristics, and a more detailed discussion on the factors that drive fuel poverty).

In response, National Energy Action Head of Wales Ben Saltmarsh says, *'Fuel poverty has deepened dramatically in recent years. Too many are living in cold homes, rationing essentials, and mired in debt – with grave physical and mental health consequences. Children are growing up in conditions that can damage their life chances for decades.*

'Paying over £1,700 a year for a basic utility isn't normal – and in many parts of Wales it's even higher, since north Wales faces the highest energy costs in GB and south Wales is not far behind. With some of the oldest and least efficient housing in northern Europe, keeping warm at home is simply unaffordable for hundreds of thousands.

'Ahead of the 2026 Senedd election, today's figures lay bare the scale of the challenge – but also the opportunity. With significant expected consequential funding from the UK government's Warm Homes Plan, all political parties in Wales must commit to considerably increasing investment in energy efficiency should they form the next Welsh government. We can – and must – make the homes of those most in need warmer, greener, and healthier places to live.'

National Energy Action also recommends:

- The next Welsh government maintains the provision of emergency crisis support, including help to top up prepayment meters and purchase off-gas fuel such as oil and LPG.
- The UK government provides deeper energy bill support in future for people who cannot afford a warm and healthy home.
- The energy regulator, Ofgem, supports low-income and vulnerable households to help repay their energy debt. Much of this debt was accrued during the height of the energy crisis and has no realistic chance of being repaid without support.

The full press release can be found [here](#).

If you have any questions or would like to discuss this further, please do get in touch.

Cofion cynnes,

Maisie Chatfield

Policy & Campaigns Officer (Wales)
Swyddog Polisi & Ymgyrchoedd
National Energy Action (NEA)



**Northern Ireland
Assembly**

Committee for Finance

Peredur Owen Griffiths MS
Chair
Finance Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

Issued via email to; SeneddFinance@senedd.wales

22 July 2025

Our Ref.: 2025/078

Dear Peredur,

The NI Assembly Committee for Finance would like to hear your views on the Northern Ireland Fiscal Council Bill.

The Bill was introduced by the Finance Minister; John O'Dowd MLA on 23 June 2025. The Northern Ireland Fiscal Council was established on a non-statutory basis in March 2021 following a commitment made in the New Decade New Approach. The Northern Ireland Fiscal Council Bill establishes the Council on a statutory basis and provides a legislative framework to underpin its work. The Bill sets out the functions of the Council, and deals with operational matters regarding annual reports, membership, finance and staffing.

Further information on the Bill can be found below:

- A copy of the [Bill](#) and Explanatory and [Financial Memorandum](#).
- The [Hansard report](#) of the Second Stage Assembly debate on the principles of the Bill that took place on 1 July 2025.
- A copy of the [New Decade New Approach agreement](#).
- A research paper prepared by the Assembly's Research and Information Service on the Bill. (available when published)

How to submit your views

Your submission should be structured to address specific clauses of the Bill. If appropriate, it should include any amendments you wish to propose to the text of the Bill.

FIN(6)-19-25 PTN 19

Written submissions should be sent electronically in Word format (not PDF) to: nifiscalcouncilbill@niassembly.gov.uk. If you cannot submit electronically you may send in a hard copy written submission to: The Finance Committee Clerk, Room 382, Parliament Buildings, Ballymiscaw, Stormont, Belfast, BT4 3XX.

Organisations or individuals responding to this call for views should note that their written submission (either in whole or part) may be published on the Committee webpage and may be quoted in the Committee's report or referred to in Committee meetings (which are public and are broadcast).

The Committee recognises that in some circumstances people may prefer for their evidence to be treated as confidential, or published anonymously. If you wish to do this, please make this clear when submitting your evidence.

Before sending us your views please read the [Northern Ireland Assembly Privacy Notice](#). This tells you how we process your personal data.

If you have any queries or require any further information about the call for evidence or the Committee Stage of the Northern Ireland Fiscal Council Bill the Committee Clerk, Peter Hall can be contacted via email:

nifiscalcouncilbill@niassembly.gov.uk or by phone: 028 9052 1799.

A response would be very much appreciated by **Friday 26th September 2025**.

Yours sincerely,

Matthew O'Toole MLA

Chairperson

Committee for Finance

Matthew O'Toole MLA
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Gogledd Iwerddon
Dros e-bost

8 Medi 2025

Annwyl Matthew,

Bil Cyngor Cyllidol Gogledd Iwerddon

Diolch yn fawr am eich llythyr yn gofyn am farn y Pwyllgor ar Fil Cyngor Cyllidol Gogledd Iwerddon (y Bil).

Nodaf fod y Cyngor Cyllidol wedi bod yn gweithredu ar sail anstatudol ers nifer o flynyddoedd a bod y Bil hwn yn ffurfioli'r trefniadau hynny i bob pwrpas.

Fel Pwyllgor, rydym yn ystyried goblygiadau ariannol pob Bil a gyflwynir yn y Senedd fel mater o drefn. Er na fyddai'n briodol i ni ystyried goblygiadau ariannol y Bil hwn yn fanwl, mae'n galonogol bod Memorandwm Ariannol wedi'i lunio a bod ei gostau rhedeg ar gyfer 2024-25 wedi'u darparu. Mae hefyd yn ddefnyddiol bod swyddogaethau a threfniadau llywodraethu'r Cyngor Cyllidol yn cael eu gwneud yn dryloyw drwy'r ddeddfwriaeth hon.

Yn gyffredinol, rydym hefyd yn gefnogol i rôl y Cyngor Cyllidol ac yn ddiolchgar i gael gwybod am y datblygiad diweddaraf hwn. Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer corff cyllidol tebyg yng Nghymru, er bod gennym ddiddordeb naturiol yn y ffordd y mae'r Cyngor yn datblygu yng



Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys sut y bydd y Cynulliad yn ei ddwyn i gyfrif o ran ei swyddogaethau a'i berfformiad.

Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i ymgysylltu â chi ar y mater hwn a hoffwn glywed mwy am eich ystyriaeth o'r Bil hwn a datblygiad y Cyngor Cyllidol yng nghyfarfod nesaf Fforwm y Pwyllgor Cyllid Rhyngseneddol maes o law.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Rebecca Evans AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and PlanningLlywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: RE/PO/428/2025

Mike Hedges AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

02 Medi 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Busnes a Diwydiant, a'r cyfarfod a gynhelir ar 9 Medi 2025.

Bydd y Grŵp Rhyngweinidogol yn cael ei gadeirio gan Weinidog Busnes a Chyflogaeth Llywodraeth yr Alban, Richard Lochhead ASA. Bydd Liz Lalley, Cyfarwyddwr Strategaeth Economaidd a Thwf Gwyrdd, yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod gan y byddaf i'n mynychu digwyddiad Gweinidogol arall.

Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar weithredu Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU ac yn gyfle i drafod sgiliau a chyflwyniad gan Skills England.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

Rebecca Evans ASYsgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and PlanningCanolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SNCorrespondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 77

Eitem 2.22

Rebecca Evans AS/MS
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: RE/PO/439/2025

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

10 Medi 2025

Annwyl Mike,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 2 Medi ac yn unol â'r cytundeb perthynas rhyng-sefydliadol, ysgrifennaf i roi gwybod i chi fod y Grŵp Rhyng-Weinidogol ar gyfer Busnes a Diwydiant a oedd i fod i gael ei gynnal ar 9 Medi wedi'i ohirio.

Byddaf yn eich hysbysu unwaith y bydd dyddiad newydd wedi'i gadarnhau.

Rwyf wedi copïo'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 78

Ken Skates AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-KSNWT-2000-25

Y Cadeirydd Peredur Owen Griffiths AS
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

8 Medi 2025

Annwyl Peredur

Diolch am eich adroddiad ar Fil Gwasanaethau Bysiau (Cymru). Gweler isod fy ymatebion i'r argymhellion a'r casgliadau a nodir yn eich adroddiad.

Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn amlinellu sut y bydd cyfranogiad mentrau bach a chanolig a'r ffocws ar werth cymdeithasol yn cael eu hymgorffori, eu monitro a'u gwerthuso fel rhan o weithredu'r darpariaethau masnachfrait bysiau yn y Bil.

Ymateb – Derbyn

Rwyf wedi bod yn glir ein bod am weld gwasanaethau bysiau yn cael eu darparu gan ystod o weithredwyr, ac mae busnesau bach a chanolig yn rhan allweddol o hyn. Gwyddom mai busnesau bach a chanolig yw'r unig ddarparwyr mewn rhai rhannau o Gymru, felly mae sicrhau eu cyfranogiad unwaith y bydd rhyddfrefinio yn cael ei gyflwyno yn hynod bwysig. Bydd caffael masnachfrefinio yn cael ei gynnal mewn ffordd y bydd cymesuredd maint y gweithredwr yn cael ei ystyried yn gadarn ar gyfer pecynnau gwaith, ffurflenni contract a phrosesau tendro sydd i'w cynnal, gan ganiatáu i fusnesau bach a chanolig gynnig lle mae pecynnau yn ddeniadol iddynt.

Bydd ymgysylltu â'r farchnad i esbonio strwythur tendrau a chyfeirio i gefnogi partion â diddordeb ar gael. Bydd gwerth, cyfleoedd a risg cymdeithasol yn cael eu mapio yn erbyn canlyniadau a ddymunir o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gallu masnachfrefinio bysiau i ddylanwadu ar werth cymdeithasol trwy'r broses gaffael sydd i'w chynnal. Bydd mesur effeithiolrwydd yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau a gofynion y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi eglurder ynghylch y costau ychwanegol a amcangyfrifir er mwyn cyflawni rhwydwaith dyheadol Trafnidiaeth Cymru, a chynnwys y wybodaeth honno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, ar ôl Cam 2.

Ymateb – Derbyn

Rwy'n hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ôl Cam 2. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i sefydlu'r costau hyn.

Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn egluro sut y pennwyd yr amcangyfrif cost £187.2 miliwn ar gyfer caffael depos bysiau, gan gynnwys manylion y rhagdybiaethau a wnaed, a chynnwys y wybodaeth honno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, ar ôl Cam 2.

Ymateb – Derbyn

Mae TfW yn nodi'r lleoliadau depo strategol ym mhob rhanbarth a'r gofynion ar gyfer perchnogaeth depos TfW. Yna bydd caffael neu adeiladu depos yn cael eu cynllunio a'u gweithredu yn unol â gofynion y rhanbarth a'r gyllideb sydd ar gael i gefnogi hyn.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys cost caffael depo bysiau ar gyfanswm gwerth o £178.3m. Rwy'n hapus i ddarparu manylion am y gost hon fel rhan o Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ôl Cam 2.

Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn diwygio'r amcangyfrifon cost a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dilyn y penderfyniad i fwrw ymlaen â phedwar parth masnachfaint, neu fel arall gadarnhau nad oes effaith ar gostau, a chynnwys y wybodaeth honno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, ar ôl Cam 2.

Ymateb – Derbyn

Rwy'n cydnabod, yn dilyn y penderfyniad i symud i bedwar parth masnachfreinio yn hytrach na'r 9 parth gwreiddiol a ragwelir ac a adlewyrchir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio, bod yn rhaid i ni ailystyried yr elfen hon o gostau staff. Fel yr ymrwymais yn ystod fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor ym mis Mai, rydym yn ystyried hyn fel rhan o'r diwygiadau rydyn ni'n eu gwneud i'r RIA ar ôl Cam 2.

Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn egluro pam y gwnaed rhagdybiaeth i brydlesu'r fflyd bysiau di-allyriadau newydd, gan gynnwys sut yr amcangyfrifwyd y costau, a chynnwys y wybodaeth honno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, ar ôl Cam 2.

Ymateb – Derbyn

Fel y mae adran 8.39 o'r RIA yn nodi, tybiwyd wrth ymgymryd â'r RIA y byddai costau prynu bysiau yn cael eu amorteiddio ar draws oes y cerbyd ac felly mae costau wedi'u modelu fel rhan o gostau gweithredol. Ers i'r RIA gael ei lunio, mae cynllunio mewnol wedi canolbwyntio ar brynu bysiau o gyllidebau cyfalaf, yn eiddo i TfW a'u prydlesu i weithredwyr. Fodd bynnag, fel y mae adran 8.17 yn nodi, ar wahân i'r gwahaniaeth yn y cyfnod pontio, byddai'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal bysiau allyriadau sero yn fras yn niwtral ac ni ellir eu priodoli i ddiwygio bysiau na phartneriaethau statudol gan y byddai y targedau

datgarboneiddio yn berthnasol hefyd i bartneriaethau statudol neu o dan busnes fel arfer. Byddwn yn ystyried goblygiadau'r newid hwn fel rhan o'r diwygiadau rydyn ni'n eu gwneud i'r RIA ar ôl Cam 2.

Casgliad 1: Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil fel y'i nodir yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau ac argymhellion yn yr adroddiad hwn. Os bydd newidiadau sylweddol i'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol o ganlyniad i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, gall y Pwyllgor ystyried y newidiadau hyn yn fwy manwl.

Rwy'n falch o glywed eich bod yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil. Fel y nodwyd uchod, ac yn unol â'r weithdrefn safonol, bydd yr RIA yn cael ei ddiweddararu ar ddiwedd Cam 2.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am eu hamser ac os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, rhowch wybod imi.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken Skates', with a stylized flourish extending to the right.

Ken Skates AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales

Eitem 3



Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25

Paratowyd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Fe'i gosodir gerbron y Senedd yn unol ag Atodlen 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac mae'n cynnwys materion fel y cyfarwyddir gan Drysorlys EF.

Paratowyd y Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol ag Atodlen 1 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac ar ffurf a gyfarwyddwyd gan Drysorlys EF.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau y mae angen manylder cyfreithiol ynddynt.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

Ffôn 02920 320 500

E-bost post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Twitter @WalesAudit

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to a delay.

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cipolwg ar y flwyddyn



Cyflwynwyd dros

800

a o farnau archwilio ar gyfrifon cyrff cyhoeddus



Cyhoeddwyd

16

o allbynnau adroddiadau cenedlaethol o wahanol fathau



Cyhoeddwyd dros

150

o adroddiadau archwilio perfformiad lleol



Cynlluniau grant

ardystiedig gwerth bron i

£1.5 biliwn



Wedi cyflawni neu bron â chyflawni

10 o 18

o'r targedau Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA)

Ebrill

Cwblhawyd ein [hadolygiad o drefniadau llywodraethu ar draws y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru](#).

Cynhaliwyd cynhadledd i staff cyfan, 'Paratoi ar gyfer ein Dyfodol' lle gwnaethom fyfyrion ar sut mae ein gwaith a'n gweithle wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn edrych ymlaen at rai o'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau.

Mai

Cyflwyno [dadansoddiad o ddata dosbarthu fferylliaeth gymunedol](#) i roi mewnwelediad i GIG Cymru ar feysydd o gost uchel a thwyll posibl.

Mehefin

Darparu [diweddariad ar statws prosiect A465 Rhan 2](#) a chrynhof datblygiadau allweddol dros y pedair blynedd flaenorol.

Fel rhan o'n cyfres o bolisiau gweithio craffach, lansiodd cynllun treialu oriau cywasgedig, gyda'r bwriad o wella hyblygrwydd a chynhyrchiant a chefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i staff.

Gorffennaf

Ysgrifennwyd at Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd gyda diweddariad ffeithiol [ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer TVR Automotive Ltd.](#)

Cyhoeddi adolygiad i ganfod a yw'r [wybodaeth a ddarperir ar gyfer uwch arweinwyr mewn llywodraeth leol yn eu helpu i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau gweithgareddau cynghorau.](#)

Awst

Cwblhawyd ein [hadolygiad o drefniadau llywodraethu ar draws y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru](#).

Ar ôl cwblhau ein gwaith archwilio cyfrifon yn amserol, adroddwyd [bod pob un o'r saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru wedi methu â chyflawni eu dyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd](#), wrth i bwysau ariannol waethgu.

Medi

Adroddwyd na fydd y targed o adeiladu [20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd yn cael ei gyrraedd heb wariant ychwanegol sylweddol](#).

Amlinellwyd, er gwaethaf mwy o wariant, [bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod ymhell o gyflawni'r newid sylweddol mewn teithio llesol y bwriadwyd ei ysgogi](#).

Hydref

Adroddwyd bod twyll a gwallau talu o £7.1 miliwn wedi'u nodi gan ymarfer diweddaraf y [Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru](#), £0.6 miliwn yn fwy na'r ymarfer blaenorol.

Roeddem yn falch o gyflawni sgôr mynegai ymgysylltu cyffredinol o 71% yn ein harolwg staff cyfan, saith pwynt canran yn uwch na'r flwyddyn flaenorol a meincnod canolrifol y Gwasanaeth Sifil.

Tachwedd

[Lansiwyd ymgynghoriad ar ddiweddariadau arfaethedig i'n Cod Ymarfer Archwilio](#) sy'n cryfhau'r pwyslais ar gymesuredd, annibyniaeth, a'r angen am amheuaeth broffesiynol.

Cwblhawyd archwiliadau o holl gyfrifon llywodraeth leol 2023-24 erbyn y dyddiad cau targed o 30 Tachwedd, pan dderbyniwyd cyfrifon ar amser.

Rhagfyr

Myfyrio ar yr [heriau ariannol sy'n wynebu cynghorau a sut y gellid cryfhau eu cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol](#).

Ionawr

Adroddwyd bod angen arweinyddiaeth genedlaethol gryfach ar frys i ysgogi gwelliant mewn [amseroldeb a chynaliadwyedd diagnosis a thriniaeth canser](#).

Darparwyd ymateb i'r ymgynghoriad ar strategaeth arfaethedig ar gyfer ailwampio'r system archwilio leol yn Lloegr, a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Chwefror

Nodwyd ein canfyddiadau o [astudiaeth o drefniadau cynllunio gweithlu'r GIG](#), ynghyd ag argymhellion i gefnogi gwelliant pellach.

Cyhoeddwyd [canllaw poced ar gyfer Pwyllgorau Archwilio](#) sy'n crynhoi arferion effeithiol a sut i gael effaith gadarnhaol.

Mawrth

Daethpwyd i'r casgliad nad yw'r argyfwng natur yn flaenoriaeth ddigon uchel ac [mae llawer o awdurdodau cyhoeddus wedi methu â chydymffurfio â gofynion bioamrywiaeth allweddol](#).

Nodwyd [materion llywodraethu a rheoli ariannol parhaus yn y sector Cynghorau Cymunedol a](#) [pwyllgorau](#) ymdriniwyd â nhw'n briodol.

Cynnwys a chanllaw i ddarllenwyr

Adroddiad Perfformiad

Adolygiad o'n gwaith yn 2024-25, gan gynnwys dadansoddiad o'n darpariaeth a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

Trosolwg ar y perfformiad

Crynodeb o bwy ydym ni, yr hyn a wnawn a'n sefyllfa strategol, ochr yn ochr ag ystyriaethau a gwybodaeth allweddol am sut y gwnaethom berfformio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Pwy ydym ni a'r hyn a wnawn	8
Ein gweledigaeth strategol a'n meysydd pwyslais	11
Datganiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd ar ein perfformiad yn 2024-25	12
Dangosyddion perfformiad allweddol	16

Dadansoddi perfformiad

Asesiad o'r graddau y cyflawnwyd y blaenoriaethau a'r rhaglenni gwaith a nodir yn ein Cynllun Blynyddol 2024-25.

Sylwadau ynghylch cyflawni ein rhaglenni gwaith archwilio	20
Y cynnydd a wnaed yn ein meysydd pwyslais ar gyfer gwella busnes	28
Enghreifftiau o astudiaeth achos o ddarnau o waith effeithiol	39
Crynodeb o'n defnydd o adnoddau yn ystod y cyfnod adrodd	47

Adroddiad Atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth â llywodraethu corfforaethol da.

Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Esboniad o gyfansoddiad a threfniadaeth ein strwythurau llywodraethu a sut maent yn ein cefnogi i gyflawni ein hamcanion.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr	58
Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	60
Datganiad llywodraethu	61

Adroddiad taliadau cydnabyddiaeth staff

Ein polisi taliadau cydnabyddiaeth, manylion am daliadau cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn aelodau'r Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, ein datgeliad cyflog teg, ac adroddiad ynghylch ein staffio.

Adroddiad taliadau cydnabyddiaeth	80
Adroddiad staff	88

Alldro adnoddau ac adroddiad yr archwilydd

Ein crynodeb o'r alldro adnoddau, trosolwg ar dueddiadau yn ein gwariant hirdymor, ac adroddiad yr archwilydd annibynnol, gan gynnwys ei farn ar y datganiadau ariannol, rheoleidd-dra a materion eraill.

Crynodeb o alldro adnoddau a nodiadau cysylltiedig	95
Adroddiad yr archwilydd annibynnol i'r Senedd	100

Datganiadau Ariannol

Datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â nodiadau ategol ac esboniadol.

Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr	107
Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol	108
Datganiad Llifoedd Arian Parod	110
Datganiad o'r Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr	111
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	112
Rhestr termau	132

Atodiadau

1	Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch Datgelu Gwybodaeth	133
---	---	-----



Adroddiad Perfformiad

Adolygiad o'n gwaith yn 2024-25, gan gynnwys
dadansoddiad o'n darpariaeth a'n perfformiad,
a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu

26 Mehefin 2025

01

Tudalen y pecyn 88

Trosolwg ar y perfformiad

Pwy ydym ni a'r hyn a wnawn

- 1 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw'r archwilydd allanol statudol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am archwilio mwyafrif yr arian cyhoeddus a warir yng Nghymru.
- 2 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu adnoddau, megis staff, er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac mae'n monitro ac yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Ar hyn o bryd mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi oddeutu 300 o aelodau staff.
- 3 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio oddeutu £28 biliwn o incwm a gwariant.

Ein diben yw:



Rhoi sicrwydd i bobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda



Esbonio sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario



Ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella

Rydym yn ymgymryd â gwaith archwilio lleol a chenedlaethol ar draws amrywiaeth o gyrff cyhoeddus

- 4 Mae ein Cynllun Blynyddol diweddaraf yn rhoi mwy o fanylion am yr amrywiaeth o gyrff yr ydym yn eu harchwilio a sut yr ydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru. Mae ein gwaith archwilio yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, sy'n craffu ar sut mae adnoddau yn cael eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae ein gwaith hefyd yn llywio gwaith pwyllgorau eraill y Senedd, y mae eu cyloedd gwaith ehangach yn cynnwys craffu ar bolisiau Llywodraeth Cymru, dal Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig.
- 5 Drwy gydol y flwyddyn, rydym yn mynychu cyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn rheolaidd i ddarparu sesiynau briffio ac adrodd ar ein gwaith archwilio.

- 6 Mae ein rhaglenni gwaith arfaethedig yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn ymateb i amgylchiadau a blaenoriaethau sy'n newid, a materion newydd sy'n peri pryder cyhoeddus neu seneddol.
- 7 Rydym yn nodi arferion da ar draws ehangder llawn ein gwaith archwilio ac yn lledaenu hyn drwy amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys adroddiadau, blogiau, podlediadau a seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd.
- 8 Un elfen â phwyslais ein gwaith arferion da yw hwyluso sgysiau rhwng darparwyr gwasanaeth lle rhennir yr hyn a ddysgir o'n gwaith archwilio ac o'u profiadau cymharol. Yn gynyddol rydym yn dod â safbwyntiau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau ac arbenigwyr byd-eang i'r sgysiau hyn.

Ein gwaith craidd



Gwneud gwaith archwilio lleol mewn dros 800 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys:

- Archwiliadau o gyfrifon
- Gwaith archwilio perfformiad lleol
- Archwiliadau'r egwyddor datblygu cynaliadwy



Cyflwyno rhaglen o astudiaethau cenedlaethol



Ardystio cynlluniau grant gwerth bron i £1.5 biliwn



Cefnogi gwaith craffu effeithiol gan gynnwys gwaith pwyllgorau'r Senedd



Rhannu arfer da a'r hyn rydym yn ei ddysgu drwy archwilio i gefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir



Hwyluso'r gwaith o ganfod twyll a gwall drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol



Cymeradwyo tua £2 biliwn o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis

Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar y llywodraeth

- 9 Yr Archwilydd Cyffredinol ac ein Bwrdd sy'n gyfrifol am bennu a goruchwylio cyfeiriad strategol y sefydliad.
- 10 Mae'r Bwrdd yn dwyn yr Archwilydd Cyffredinol i gyfrif yn ei swyddogaeth fel Prif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru ac yn ei gefnogi i gyflawni ei swyddogaeth fel Swyddog Cyfrifyddu. Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr yn atebol yn bersonol i Bwyllgor Cyllid y Senedd ar faterion megis cydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.
- 11 Mae ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu.
- 12 Mae ein Cynllun Cyhoeddiadau yn cynnwys diagram sy'n dangos ein strwythur sefydliadol. Ceir gwybodaeth fanylach am ein trefniadau llywodraethu yn adran Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yr Adroddiad hwn.

Ein gweledigaeth strategol a'n meysydd pwyslais

Ein gweledigaeth yw cynyddu ein heffaith drwy:

Manteisio'n llawn ar ein safbwynt, ein harbenigedd a'n dyfnder unigryw ar fewnwelediad

Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol

Cynyddu ein hamlygrwydd, dylanwad, a pherthnasedd

Bod yn sefydliad sy'n esiampl ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

- 13 Yn ein Strategaeth ar gyfer 2022 i 2027, rydym wedi nodi tri maes pwyslais lle byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu er mwyn helpu Archwilio Cymru i gyflawni ei weledigaeth gyffredinol.

Ein meysydd pwyslais



Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel



Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu



Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

- 14 Mae ein Cynllun Blynyddol diweddaraf yn rhoi mwy o fanylion am:
- yr hyn yr ydym yn ei ystyried yn elfennau pwysig o'n hamgylchedd gweithredu presennol, gan gynnwys amrywiaeth o ffactorau a all ddylanwadu ar y broses o gyflawni ein gwaith i raddau amrywiol;
 - y meysydd allweddol lle gall risgiau godi a bygwth cyflawni ein gwaith yn llwyddiannus; a
 - sut rydym yn mesur ac yn adrodd ar ein perfformiad.
- 15 Ceir rhagor o wybodaeth am ein proffil risg yn ystod 2024-25 a sut cafodd y risgiau hynny eu newid a'u lliniaru yn adran Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yr Adroddiad hwn a thrwy ein cofnodion Bwrdd cyhoeddedig.

Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ein perfformiad yn 2024-25

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2024-25.

We are pleased to present our Annual Report and Accounts for 2024-25

Ochr yn ochr â'n datganiadau ariannol ac atebolrwydd, mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hwn yn rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaed gennym wrth gyflawni'r rhaglenni gwaith archwilio a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024-25. Mae'n bleser gennyf gyflwyno detholiad o astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn i roi blas ar y gwaith a wnaed gennym eleni a'r effaith y mae'r gwaith hwnnw wedi'i chael.

Mae maes mwyaf ein gwaith yn cynnwys archwilio cyfrifon dros 800 o gyrrff cyhoeddus ledled Cymru. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol wrth ddarparu asesiad annibynnol parhaus i'r Senedd, cyrff archwiliedig a'r cyhoedd ehangach o reolaeth ariannol a chydnerthedd ar draws y sector cyhoeddus. Gan weithio gyda'n cyrff archwiliedig, rydym yn dod â'r rhaglen fawr honno o waith yn ôl i amserlenni mwy optimaidd a oedd gennym cyn y pandemig. Rwy'n falch iawn o adrodd ein bod wedi gwneud cynnydd rhagorol i gyflawni hynny yn 2024-25. Erbyn 2026, gan weithio gyda'n cydweithwyr corff archwiliedig, rydym yn bwriadu cyflawni dyddiadau cau sef 30 Mehefin ar gyfer sector y GIG a 30 Medi ar gyfer llywodraeth leol yn gyson.

Gyda'r llinynnau pwrs cyhoeddus mor dynn, mae'n bwysicach nag erioed sicrhau gwerth am arian o bob punt o wariant cyhoeddus. O ganlyniad, yn ein rhaglenni archwilio perfformiad lleol a chenedlaethol yn 2024-25, gwnaethom roi pwyslais trwm ar archwilio effeithiolrwydd arweinyddiaeth y llywodraeth ac ar adrodd ar arbedion posibl a nodwyd gan ein gwaith. Fe wnaethom hefyd gyflwyno dull mwy systematig o ddilyn ein hargymhellion archwilio a chynyddu ein lefelau ymgysylltu ag ystod ehangach o bwyllgorau'r Senedd i helpu i sicrhau'r cyrhaeddiad ac effaith mwyaf yn sgil ein gwaith.

Yn ystod y cyfnod adrodd, fel rhan o ddatblygiad ein gwefan wedi'i hadnewyddu, gwnaethom gyhoeddi fersiwn ar-lein fyw o'n rhaglen flaengar o astudiaethau cenedlaethol, sy'n darparu gwybodaeth gryno am astudiaethau unigol unwaith y bydd eu cynlluniau wedi'u cadarnhau a'r sefyllfa gyffredol o ran yr amserlen ar gyfer cwblhau. Rydym hefyd wedi gweithio gydag arbenigwyr allanol i adolygu ein hadroddiadau archwilio ysgrifenedig, gyda'r nod o'u gwneud yn fwy effeithiol ac yn fwy addas i anghenion ein cynulleidfaoedd a gofynion ansawdd newydd.

Datblygiad pwysig pellach yn ystod y 12 mis diwethaf oedd pwyslais o'r newydd ar gydweithio â swyddfeydd archwilio tramor, a oedd wedi lleihau yn dilyn effaith y pandemig byd-eang.

Wrth i ni nawr symud i bedwaredd flwyddyn ein strategaeth bum mlynedd bresennol, rydym wedi dechrau gwneud paratodau ar gyfer y tymor strategol nesaf a phenodi Archwilydd Cyffredinol nesaf Cymru yn 2026. Rydym wedi nodi ac yn archwilio themâu yr ydym yn eu hystyried yn hanfodol wrth lunio diwylliant a model gweithredu Archwilio Cymru yn y dyfodol, a sicrhau ein bod yn parhau i fod yn swyddfa archwilio fodern sy'n datblygu'n gyfochrog â datblygiadau yn y proffesiwn archwilio ehangach.

Fel bob amser, rwy'n ddyledus i holl staff Archwilio Cymru am eu proffesiynoldeb, eu gwaith caled a'u hymroddiad i wasanaeth cyhoeddus dros y 12 mis diwethaf. Hebbyd nhw, ni fyddai unrhyw dim o hyn yn bosibl.



Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Datganiad gan Gadeirydd y Bwrdd ar ein perfformiad yn 2024-25

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i wynebu galw sylweddol am arian, a phwysau ar y gweithlu. Rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i reoli ein costau gweithredu ein hunain a'r ffioedd rydym yn eu codi, gan sicrhau nad yw ansawdd, sicrwydd a mewnwleidiad y gwaith archwilio yn cael eu peryglu. Yn 2024-25, fe wnaethom ragori ar ein targed cynilion di-dâl uchelgeisiol o £400,000. Yn ogystal â hyn, nododd adolygiad cynaliadwyedd ariannol cynhwysfawr gyfleoedd pellach i wella effeithlonrwydd yn y dyfodol.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi llwyddo i adleoli pob un o'n tair swyddfa i adeiladau llai, mwy modern gyda pherfformiad amgylcheddol gwell. Cwblhawyd yr olaf o'r symudiadau hyn ar gyfer ein swyddfa yng ngorllewin Cymru ym mis Ebrill 2025. Gellir gweld effaith y symudiadau hyn yn glir yn yr adroddiad hwn trwy ostyngiadau sylweddol mewn costau cysylltiedig a gwelliannau yn ein mesurau cynaliadwyedd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ochr yn ochr ag adborth cadarnhaol gan staff ar yr amgylchedd gwaith swyddfa wedi'i adnewyddu. Mae'r symudiadau swyddfa a chynllun treialu gweithio oriau cywasgedig llwyddiannus hefyd wedi chwarae rhan allweddol wrth gefnogi ein gwaith ar symud i fodel gweithio hybrid gorau posibl gyda chymysgedd priodol o weithio wyneb yn wyneb ac ar-lein.

Ym mis Hydref 2024, gwnaethom gynnal ein harolwg staff blynyddol i gael mewnwleidiad diweddar i lefelau ymgysylltu staff a phrofiad gweithwyr yn Archwilio Cymru. Mae canlyniadau'r arolwg hwnnw yn cael eu hystyried gan y Bwrdd yn hynod galonogol, gyda sgoriau wedi gwella'n sylweddol ar draws y rhan fwyaf o feysydd thematig. Mae ein sgôr mynegai ymgysylltu cyffredinol bellach yn 71% - y sgôr uchaf yr ydym wedi'i chyflawni yn yr wyth mlynedd yr ydym wedi bod yn defnyddio'r metrig hwn, ac yn sylweddol uwch na meinod canolrifol cyfatebol y Gwasanaeth Sifil. Fodd bynnag, rhoddodd staff adborth defnyddiol hefyd yn yr arolwg o sawl maes lle mae lle i wella pellach, a ddefnyddiwyd i lywio ein cynllunio busnes ar gyfer 2025-26.

Wrth lansio Strategaeth y Gweithlu ar gyfer y sefydliad cyfan ym mis Medi 2024, roeddem yn cyflwyno gweledigaeth gyfannol yn y tymor hwy ar gyfer sicrhau a datblygu adnoddau pobl angenrheidiol Archwilio Cymru, gan gynnwys sgiliau a galluoedd. Ym mlwyddyn gyntaf y Strategaeth, fe wnaethom ganolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth gan gynnwys sgiliau digidol, cydnerthedd a chynllunio olyniaeth, a sefydlu ystod o fesurau perfformiad i benderfynu a yw'r cynlluniau busnes sy'n deillio o'r Strategaeth yn cyflawni fel y bwriadwyd.

Fe wnaethom hefyd gynnal ymgyrch recriwtio helaeth ar gyfer y rownd ddiweddaraf o hyfforddeion a phrentisiaid graddedig a chawsom lefel ardderchog o ddiddordeb. Fe wnaethom lwyddo i benodi'r nifer a ddymunir o ymgeiswyr ond gan gydnabod bod gennym waith i'w wneud o hyd i wneud yn siŵr ein bod yn estyn allan at ymgeiswyr o bob rhan o'r gymdeithas.

Yn ystod y flwyddyn, rheolwyd risgiau strategol yn dda, ac roedd y Bwrdd yn fodlon ag ansawdd yr wybodaeth reoli a dderbyniodd, a gafodd ei ategu gan ddata a gyflwynwyd mewn dangosfwrdd rhyngweithiol a ddatblygwyd yn ddiweddar. Ar y cyfan, mae gennym sefydliad cryf i barhau i adeiladu arno yn 2025-26 ac rwy'n talu teyrnged i staff Swyddfa Archwilio Cymru am eu holl waith caled a'u hymroddiad drwy gydol y flwyddyn.



Dr Ian Rees
Cadeirydd Swyddfa
Archwilio Cymru

Dangosyddion perfformiad allweddol

- Roedd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024-25 yn cynnwys fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau cysylltiedig.
- Yn ein Hadroddiad Interim, gwnaethom ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghanol y flwyddyn ar y cynnydd a wnaed dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2024 tuag at gyflawni'r targedau hyn.
- Dengys yr arddangosyn canlynol y sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024-25. Nid yw'r data dangosyddion perfformiad allweddol wedi bod yn destun archwiliad. Yn yr arddangosyn, mae rhai rhifau wedi'u talgrynnu i'w gwneud yn haws eu darllen a'u cymharu, ac mae'r dangosyddion perfformiad allweddol yn gydnaws â'r meysydd pwyslais strategol y maent yn ymwneud â nhw. Yn gyffredinol, yn 2024-25 gwnaethom gyflawni neu roeddem yn agos at gyflawni ein targedau ar gyfer 10 o'r 18 dangosydd perfformiad allweddol (DPA).
- Mae rhannau perthnasol o'r adran Dadansoddi Perfformiad o'r Adroddiad hwn yn darparu sylwadau pellach ar ein perfformiad yn erbyn ein dangosyddion perfformiad allweddol.

Y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer ein dangosyddion perfformiad allweddol yn 2024-25

Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed 2024-25	Perfformiad 2023-24	Perfformiad 2024-25
1	Terfynau amser statudol	Y gyfran o gynhyrchion ¹ archwilio a gyflawnwyd o'u cymharu â'r terfyn amser statudol neu y cytunwyd arno.	100%	85%	99%
2	Yn brydlon	Y gyfran o gynhyrchion archwilio allweddol eraill a gyflawnir yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol.	90%	76%	81%
3	Ansawdd	Nifer yr archwiliadau a adolygwyd a ddarperir yn unol â <u>safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol</u> .	Mae'r holl archwiliadau a samplwyd yn y ddau gategori ansawdd archwilio uchaf	7 allan o 7	6 allan o 8

- Cyrhaeddodd ein targed neu roeddem yn agos at ei gyrraedd ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

1 Barnau archwilio cyfrifon, lle mae cyfrifon yn cael eu derbyn ar amser ac nad oes angen adroddiad er budd y cyhoedd.

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed 2024-25	Perfformiad 2023-24	Perfformiad 2024-25
4	Hygrededd	Cyfran y rhanddeiliaid ² sy'n ein hystyried yn adroddwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraeth a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus.	O leiaf 90%	92%	76%
5	Darparu mewnwelediad	Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, drwy ein gwaith wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi ei gael fel arall.	O leiaf 80%	64%	78%
6	Sbarduno gwelliant	Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau i'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus.	O leiaf 80%	76%	62%
7	Yr arbedion a nodwyd	Gwerth arbedion posibl, enillion cynhyrchiant a buddion ariannol eraill a nodwyd trwy ein gwaith.	O leiaf £30 miliwn yn ystod 2023-2026	£700,000	£16 miliwn ³

- Cyrhaeddodd ein targed neu roeddem yn agos at ei gyrraedd ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

2 Mae data perfformiad 2024-25 ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol 4-6 yn deillio o ymarfer ymchwil rhanddeiliaid annibynnol a gynhaliwyd yn gynnar yn 2025. O sampl gychwynnol o 210, gan gynnwys Prif Swyddogion Gweithredol, Cyfarwyddwyr Cyllid, Arweinwyr y Cyngor, Cadeiryddion Bwrdd, Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio ac Aelodau'r Senedd, derbyniwyd ymatebion gan 45 o unigolion. Oherwydd y nifer fach o ymatebwyr, mae'r ffin cyfeiliornad yn y canlyniadau yn uchel (+/- 12 i 14 pwynt canran ar gyfer y tri DPA ac felly gall ymddiriedaeth fod yn gyfyngedig o ran cymharu blwyddyn ar ôl blwyddyn. Byddwn yn ymgymryd â gwaith gyda sectorau penodol yn 2025-26 i groeswiro a deall canlyniadau'r arolwg yn well.

3 Dylai gwaith archwilio penodol sydd ar y gweill ar hyn o bryd ein galluogi i gyrraedd ein targed o £30 miliwn o leiaf erbyn 2026. Rhofwr rhagor o wybodaeth yn astudiaeth achos 3 yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Dull wedi'i dargeddu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed 2024-25	Perfformiad 2023-24	Perfformiad 2024-25
8	Allbynnau arfer da	Cyfran y rhanddeiliaid sy'n graddio allbynnau ein digwyddiadau arfer da yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.	O leiaf 90%	100%	100%
9	Ymweliadau â'n gwefan	Nifer yr ymweliadau â'n gwefan pan fo o leiaf un weithred yn cael ei chyflawni, e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo.	48,000 yr un blwyddyn	59,100	81,000
10	Cyfyngau cymdeithasol	Nifer yr ymgysylltiadau ar gyfyngau cymdeithasol h.y. rhyngweithio â'n postiadau megis eu hoffi, drwy wneud sylw, neu drwy ail-drydar/rhannu.	4,000 bob blwyddyn	4,000	3,500 ⁴
11	Rhannu'r hyn a ddysgir o archwilio	Nifer yr achosion lle rydym yn cyflwyno'r hyn a ddysgwyd o archwilio i weithgorau polisi allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol.	50 bob blwyddyn	45	53 ⁵

● Cyrhaeddodd ein targed neu roeddem yn agos at ei gyrraedd

● Angen gwelliant

● Angen gwelliant sylweddol

4 Mae dirywiad cyffredinol mewn ymgysylltiad ar lwyfannau cyfyngau cymdeithasol wedi cael ei brofi ar draws y sector cyhoeddus ac mae'n bennaf oherwydd newidiadau yn yr algorithmau a ddefnyddir gan lwyfannau fel X (Twitter) a Facebook sy'n blaenoriaethu ymgysylltu â chynnwys y telir amdano dros bostiadau organig (am ddim). Rydym yn mynd i'r afael â hyn trwy drosoli fformatau newydd fel fideo ac animeiddio bychain wrth gynyddu nifer y cynnwys ar lwyfannau amgen fel LinkedIn.

5 Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd fel rhan o'n busnes archwilio arferol. Pryd rydym wedi mynychu grwpiau penodol yn rheolaidd mewn perthynas ag un pwnc, rydym wedi cyfrif y rhain gyda'i gilydd fel un digwyddiad.

Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed 2024-25	Perfformiad 2023-24	Perfformiad 2024-25
12	Ymgysylltu â chyflogeion	Canran cadarnhaol sgôr mynegai ymgysylltu arolwg staff blynyddol.	O leiaf y sgôr meincnod canolrifol ar gyfer arolwg diweddaraf y <u>Gwasanaeth Sifil</u>	64%	71% ⁶
13	Trosiant	Cyfran y cyflogeion sy'n gadael Archwilio Cymru yn wirfoddol fesul blwyddyn.	Rhwng 5% a 10%	12.3%	5.8%
14	Absenoldeb oherwydd salwch	Cyfran o gyfanswm yr amser a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch.	Llai na 4%	3.3%	3.9%
15	Balans ariannol	Amrywiant y tanwariant net ar incwm a gwariant o'i gymharu â'r hyn a nodir yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol	Llai na 2% o'r gyllideb gwariant gros	1.1%	3.2% ⁷
16	Arbedion costau	Gwerth arbedion costau yn ystod y flwyddyn a gyflawnwyd ar draws y busnes.	£400,000 fel y nodir yn ein Hamcangyfrif 2024-25	Cyflawni targed cynilion di-dâl o £500,000	Wedi rhagori ar darged cynilion di-dâl o £400,000.
17	Allyriadau nwyon tŷ gwyr	Cyfanswm yr allyriadau sy'n cyfateb â CO ₂ .	Gostyngiad o 40% ar linell sylfaen 2019-20 (581 tonnelli) ⁸	280 tonnelli	380 tonnelli ⁹
18	Y gyfradd llwyddiant ar gyfer hyfforddeion	Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo am y tro cyntaf yn eu harholiadau Proffesiynol lefel broffesiynol a lefel uwch gyda Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr.	O leiaf 90%	82%	85%

● Cyrhaeddodd ein targed neu roeddem yn agos at ei gyrraedd

● Angen gwelliant

● Angen gwelliant sylweddol

6 Meincnod Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (CSPS) ym mis Hydref 2024 oedd 64%.

7 Yn 2024-25, fe wnaethom danwario £864,000 a oedd yn cynrychioli 3.2% o'n cyllideb gwariant gros. O ganlyniad, ni chyrrhaeddwyd ein targed DPA o amrywiad o 2% ar gyfer y flwyddyn. Y prif reswm am hyn oedd tanwariant sylweddol (£1.1m) mewn costau staff oherwydd swyddi gwag yn hanner cyntaf y flwyddyn ariannol. Gan fod y mwyafrif o'r swyddi gwag hyn yn swyddi lle na thelir ffioedd a hyfforddeion, roeddem yn dal i allu cyflawni ein huchelgais i leihau'r ôl-groniad o waith archwilio a arweiniodd at incwm ffioedd dros ben o £961,000, fel yr adroddwyd yn ein Datganiad o Alldro Adnoddau.

8 Heb gynnwys amcangyfrifon allyriadau cadwyn gyflenwi yr adroddir arnynt ar wahân yn ein Hadroddiad Cynaliadwyedd blynyddol.

9 Ffigur uwch yn 2024-25 oherwydd lefelau cynyddol o bresenoldeb staff yn ein swyddfeydd a'n safleoedd cyrff archwiliedig, fel rhan o'n gwaith ar symud i fodel gweithio hybrid ôl-COVID gorau posibl gyda chymysgedd priodol o weithio wyneb yn wyneb ac ar-lein.

Dadansoddi perfformiad

- 20 Mae'r adran hon yn nodi golwg fanylach o berfformiad Archwilio Cymru yn 2024-25. Mae'n darparu:
- sylwadau ynghylch cyflawni ein rhaglenni gwaith archwilio.
 - manylion am y cynnydd a wnaed yn y meysydd pwyslais a nodir yn ein Cynllun Blynyddol.
 - enghreifftiau o astudiaethau achos o brosiectau sy'n enwedig o effeithiol.
 - crynodeb o'n defnydd o adnoddau yn y cyfnod adrodd, sy'n gweithredu fel ein Hadroddiad Cynaliadwyedd.

Sylwadau ynghylch cyflawni ein rhaglenni gwaith archwilio

- 21 Ein busnes craidd yw cynnal rhaglen eang o waith archwilio i gyflawni pwerau a dyletswyddau statudol yr Archwilydd Cyffredinol.
- 22 Trwy gydol 2024-25 gwnaethom ymgymryd â gwaith archwilio lleol a chenedlaethol ar draws amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus. Mae ein Cynllun Blynyddol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn darparu rhestr gynhwysfawr o'r gyrff cyhoeddus yr ydym yn eu harchwilio, a'r mathau o waith archwilio lleol a wneir yn y gyrff hynny.

Elfennau allweddol o'n gwaith archwilio



Rhoi barn ynghylch a yw cyfrifon y sector cyhoeddus wedi'u paratoi'n briodol a rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ariannol



Ystyried a yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy



Archwilio pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y mae cyrff cyhoeddus wedi defnyddio eu hadnoddau (gwerth am arian)



Dod i gasgliadau ynghylch a yw cyrff cyhoeddus wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth arfer eu swyddogaethau



Ystyried a yw busnes cyhoeddus yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n bodloni disgwyliadau a safonau penodol



Cynnal archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy

Gwaith archwilio lleol

- 23 Mae'r maes mwyaf ein gwaith lleol yn cynnwys archwilio cyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru. Mae ein gwaith archwilio cyfrifon yn darparu asesiad annibynnol ac arbenigol parhaus i'r Senedd, cyrff archwiliedig a'r cyhoedd ehangach ynghylch rheolaeth a chydnerthedd ariannol ar draws y sector cyhoeddus.
- 24 Dirywiodd amseroldeb cyflawni ein gwaith archwilio cyfrifon drwy gyfnod pandemig COVID. Mae'n cymryd sawl blwyddyn i ddod â'n rhaglen fawr o waith yn ôl at yr amserlenni a oedd yn bodoli cyn y pandemig, ond rydym yn gwneud cynnydd da wrth wneud hynny. Darperir rhagor o wybodaeth am hyn yn Astudiaeth Achos 1 yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

- 25 Yn gyffredinol, yn 2024-25, cyflwynwyd 99% o'n barn archwilio cyfrifon erbyn y terfyn amser statudol neu y cytunwyd arno pan dderbyniwyd cyfrifon drafft ar amser (DPA 1) – cynnydd o 14% ar ein perfformiad yn 2023-24.
- 26 Cwblhawyd ein harchwiliadau o gyfrifon 2023-24 y GIG a chyrrff llywodraeth ganolog yn unol â'n cynllun cyflawni. Er bod cyflwyno'r archwiliadau o gyfrifon sector llywodraeth leol erbyn y terfyn amser ar 30 Tachwedd yn parhau i fod yn her, roedd yr holl gyfrifon llywodraeth leol a baratowyd ar amser wedi'u hardystio erbyn y terfyn amser.
- 27 Yn ystod 2025-26, ein nod yw parhau â'r cynnydd a wnaed i ddod â'r terfynau amser ar gyfer adrodd ymlaen ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon. Ein targed yw, erbyn i ni archwilio cyfrifon 2025-26 y byddwn wedi dychwelyd i amserlenni mwy traddodiadol sef 15 Mehefin ar gyfer sector y GIG a 30 Medi ar gyfer y sector llywodraeth leol.
- 28 Oherwydd bod y pwrs cyhoeddus mor dynn, mae hefyd yn bwysicach nag erioed sicrhau gwerth am arian o bob punt o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i lunio ein gwaith archwilio perfformiad lleol i fynd i'r afael â'r heriau datblygol sy'n wynebu ein cyrrff archwiliedig, a phan fo hynny'n berthnasol ac yn ymarferol, helpu i gyflawni dyletswyddau archwilio datblygu cynaliadwy yr Archwilydd Cyffredinol¹⁰.
- 29 Eleni, roedd ein rhaglen yn cynnwys:
- mewn llywodraeth leol: cwblhau ein hasesiad sicrwydd a risg blynyddol, ochr yn ochr ag asesiadau o gynaliadwyedd ariannol cynghorau, bwrw ymlaen â gwaith newydd ar drefniadau comisiynu cynghorau, ac adolygiadau lleol pwrpasol ar ystod eang o bynciau eraill.
 - yn y GIG: cwblhau ein gwaith asesu strwythuredig blynyddol, ochr yn ochr â gwaith ar draws y sector ar drefniadau arbed costau, parhau i weithio ar wahanol agweddau ar ofal brys ac argyfwng, a datblygu gwaith ar wasanaethau gofal a gynlluniwyd byrddau iechyd. Unwaith eto, roedd y prosiectau hyn yn eistedd ochr yn ochr ag adolygiadau lleol mwy pwrpasol eraill a oedd yn cynnwys, er enghraifft, y gwaith mewn tri bwrdd iechyd ar wasanaethau gofal llygaid.
- 30 Yn ogystal â'r uchod, ac er ei fod wedi'i gynllunio a'i ariannu'n wahanol, gwnaethom hefyd gynnal gwaith archwilio mewn gwahanol gyrrff llywodraeth ganolog o dan ddyletswyddau archwilio cynaliadwy yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, adolygiadau o gynaliadwyedd ariannol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, ac Amgueddfa Cymru.

10 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gan gynnwys archwiliadau sy'n edrych ar gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant neu wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny. Rydym wedi ceisio integreiddio'r archwiliadau hyn o fewn y rhaglen waith bresennol a'n bwrdd a phosibl.

- 31 Yn gyffredinol, cynyddodd cyfanswm nifer yr adroddiadau archwilio perfformiad lleol o 142 yn 2023-24 i 156 yn 2024-25. Dylid nodi bod nifer yr adroddiadau yn adlewyrchu i raddau helaeth sut mae rhaglenni lleol yn cael eu llunio yn ystod y cyfnod adrodd ac ni fyddem o reidrwydd yn disgwyl i'r ffigur fod yr un peth flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- 32 Fel yr adroddwyd y llynedd, effeithiodd gwaddol y pandemig, trosiant ac absenoldeb staff, a'n heriau adnoddau ehangach ar gyflawni rhywfaint o'n gwaith archwilio perfformiad, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae ein timau archwilio perfformiad wedi parhau i reoli effeithiau trosiant ac absenoldeb staff yn ystod 2024-25. Er gwaethaf hyn, cynyddodd cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill a ddarparwyd yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol o 76% i 81% (DPA 2). Darperir rhagor o fanylion yn adran nesaf yr adroddiad hwn ar y camau yr ydym wedi bod yn eu cymryd i fynd i'r afael â'n sefyllfa o ran cyflawni archwiliad perfformiad ehangach a symud tuag at gyrraedd ein targed DPA 2 sef 90%.

Astudiaethau cenedlaethol

- 33 Mae blaenraglen astudiaethau cenedlaethol ddangosol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2023-2026 yn canolbwyntio ar bedair prif thema:
- a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb;
 - b ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur;
 - c cadernid gwasanaethau a'r gallu i'w defnyddio; a
 - ch gwasanaethau cyhoeddus a reolir yn dda.
- 34 Mae'r tabl isod yn rhestru 16 o allbynnau adroddiadau cenedlaethol o'r gwahanol fathau a gyflawnwyd gennym yn 2024-25. Mae ein Ciplun o'r Flwyddyn ar flaen yr Adroddiad hwn yn cynnwys nifer o'r allbynnau hyn.
- 35 Mae graddfa'r gwahanol ddarnau o waith yn amrywio ac, fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Interim, rydym wedi bod yn rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r ôl-groniad yn ein rhaglen archwilio lleol wrth reoli'r effaith ar waith arall. Mae'r ffigur hwn o 16 allbwn yr un fath ag ar gyfer 2023-24. Yn gyffredinol, rydym wedi parhau i weld yr allbwn hwn yn cael cryn sylw yn y cyfryngau a diddordeb ehangach gan randdeiliaid perthnasol.
- 36 Mae astudiaethau wedi'u rhestru'n fras yn nhrefn eu dyddiad cwblhau, gydag arwydd o aliniad cryf â themâu penodol. Yn ymarferol, mae ein holl waith fel arfer yn cynnwys sy'n berthnasol i 'wasanaethau cyhoeddus a reolir yn dda'.

Allbynnau adroddiadau cenedlaethol a gwblhawyd yn 2024-25



Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb



Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur



Cydnherthedd y gwasanaeth a mynediad



Gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu rheoli'n dda

Allbwn yr adroddiad cenedlaethol

Allbwn yr adroddiad cenedlaethol	Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb	Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur	Cydnherthedd y gwasanaeth a mynediad	Gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu rheoli'n dda
Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol			✓	✓
Canfyddiadau o waith paru data fferylliaeth gymunedol y GIG a chofrestru cleifion meddygon teulu				✓
Statws prosiect gwella ffordd yr A465 Rhan 2				✓
Cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer TVR Automotive Ltd				✓
Defnyddio gwybodaeth am berfformiad mewn llywodraeth leol i ddeall safbwyntiau defnyddwyr	✓			✓
Strategaeth ddigidol llywodraeth leol			✓	✓
Diweddariad cyllid ac offeryn data y GIG			✓	✓
Trefniadau i gyflawni'r targed tai fforddiadwy a gwireddu manteision ehangach	✓	✓		✓
Llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub			✓	✓
Cyflawni amcanion teithio llesol a rheoli'r cyllid cysylltiedig	✓	✓	✓	✓
Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2022-23				✓
Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol, gan gynnwys ein hofferyn data wedi'i ddiweddarau			✓	✓
Gwasanaethau canser yng Nghymru	✓		✓	✓
Mynd i'r afael â heriau o ran y gweithlu yn GIG Cymru			✓	✓
Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnherthedd Ecosystemau		✓		✓
Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol – Gwersi o Waith Archwilio i Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru				✓

37 Mae ein [Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025-26](#) yn rhestru'r holl astudiaethau gweithredol a chynlluniedig ar gyfer 2025-26 ar 31 Mawrth 2025. Rydym wedi sicrhau bod rhagor o wybodaeth am ein rhaglen waith ar gael ar ein gwefan.

Cefnogi gwaith craffu effeithiol

Cefnogi gwaith pwyllgorau'r Senedd

- 38 Yn ystod y cyfnod adrodd, parhaodd ein gwaith i chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd wrth iddo ystyried sut mae adnoddau yn cael eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Cefnogodd yr allbynnau o'n gwaith 19 o gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor. Roedd hyn yn cynnwys y Pwyllgor yn ystyried allbynnau adroddiad amrywiol a gwblhawyd yn ystod y cyfnod adrodd. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol a'n staff gyngor a chymorth ychwanegol i'r Pwyllgor yn ôl yr angen hefyd, gan gynnwys paratoi deunydd briffio ar gyfer sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor.
- 39 Gall ein gwaith lywio gwaith pwyllgorau eraill y Senedd hefyd. Yn 2024-25, bu sawl enghraifft nodedig. Mae astudiaeth achos 4 yn rhoi rhagor o fanylion, ochr yn ochr â hynny rydym yn parhau i ymgysylltu â thimau clericio pwyllgorau i rannu gwybodaeth am ein rhaglen waith yn fwy cyffredinol.

Cefnogi gwaith y pwyllgorau archwilio a chraffu ar gyrff cyhoeddus

- 40 Trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, buom yn mynychu cyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn rheolaidd er mwyn darparu sesiynau briffio ac adrodd ar ein gwaith.
- 41 Hefyd gwnaethom barhau â'n sesiynau briffio rheolaidd ar faterion sy'n ymwneud ag archwilio i'r canlynol:
- cadeiryddion Pwyllgor Archwilio y GIG a Chyfarwyddwyr grwpiau Cyllid;
 - grŵp Cymdeithas Trysoryddion Cymru llywodraeth leol; a
 - grŵp Cadeiryddion Pwyllgor Archwilio y Llywodraeth Ganolog.

Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig

- 42 Rydym yn cael gohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig ac eraill sy'n codi pryderon posibl ynghylch defnyddio arian cyhoeddus. Yn ystod 2024-25, fe wnaethom ymdrin â 140 o eitemau gohebiaeth o'r math hwn a gwnaethom sicrhau ein bod yn ymateb i'r pryderon hynny mewn modd teg, cymesur a phroffesiynol.

- 43 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn Berson Rhagnodedig ar gyfer derbyn datgeliadau oddi wrth chwythwyr chwiban ynghylch cynnal busnes cyhoeddus yn briodol, gwerth am arian, twyll a llygredd mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau cyhoeddus. Cysylltodd 29 o unigolion â ni rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 gan nodi eu bod yn dymuno gwneud datgeliad chwythu'r chwiban i'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Ddatgelu Gwybodaeth ar gyfer 2024-25¹¹ wedi'i gynnwys fel Atodiad i'r Adroddiad hwn.
- 44 O'r cyfanswm o ohebiaeth ac achosion o ddatgeliadau chwythu'r chwiban, canfuwyd nad oedd 38 yn berthnasol i gylch gwaith deddfwriaethol yr Archwilydd Cyffredinol neu nad oeddent yn gyfystyr â materion sylweddol y byddai angen i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd arnynt neu gymryd camau eraill. Cofnodwyd y 102 achos sy'n weddill i'w hystyried naill ai fel rhan o waith archwilio parhaus neu gynlluniedig, neu fel rhan o waith archwilio cynllunio yn y dyfodol.

Gwaith arferion da a rhannu dysg archwilio

- 45 Mae allbynnau Arferion Da a gynhyrchwyd dros y 12 mis diwethaf wedi cynnwys:
- Nifer o ddigwyddiadau dysgu a rennir yn trafod pynciau fel:
 - Pwyllgorau Archwilio: Arferion effeithiol ac effaith gadarnhaol
 - Ailddiffinio Ein Bywydau: Tuag at Ddealltwriaeth Gymdeithasol o Niwroamrywiaeth
 - Cost methiant mewn llywodraethu a rheolaeth ariannol
 - Cyfres o flogiau sy'n rhannu enghreifftiau o wahanol fentrau ledled Cymru
- 46 Rydym yn parhau i ddatblygu ein sianel podlediadau a fydd yn cael ei hail-lansio ym mis Medi 2025. Mae podlediadau blaenorol ar gael ar ein sianel.
- 47 Gellir cael gafael ar yr holl ddeunydd a rannwyd yn 2024-25 drwy adrannau Arfer Da a Blogiau ein gwefan. Yn gyffredinol, roedd 100% o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'n holiadur adborth ar ôl mynychu digwyddiadau yn 2024-25 yn ystyried ein hallbynnau arferion da yn rhai defnyddiol neu ddefnyddiol iawn (DPA 8).

11 Fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ar Ddatgelu Gwybodaeth) 2017.

- 48 Yn ogystal, fe wnaethom ragori ar ein targed o 50 ar gyfer nifer yr achosion lle gwnaethom gyflwyno dysg archwilio i weithgorau polisi allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol (DPA 11). Eleni roedd 53 o achosion o'r fath, 8 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Ymhlith pethau eraill, roedd y rhain yn cynnwys enghreifftiau o'n mewnbwn i waith pwyllgorau'r Senedd (gweler Astudiaeth Achos 4 am ragor o wybodaeth) a'n gwaith yn croesawu ymweliad dirprwyaethau o asiantaethau archwilio rhyngwladol eraill (gweler Astudiaeth Achos 5 am ragor o wybodaeth). Mae ein cyfrif hefyd yn cynnwys cyflwyniadau mewn cynadleddau ar gyfer cynulleidfaoedd o Gymru, cynulleidfaoedd ehangach y DU a rhyngwladol ar bynciau amrywiol.

Ansawdd archwilio

- 49 Rydym yn gwneud ein gwaith yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (yn y DU) a safonau cydnabyddedig eraill.
- 50 Mae ein rhaglen monitro ansawdd 2025 wedi'i chwblhau: cyflawnodd chwech o'r wyth archwiliad a samplwyd ein targed o gael eu cyflawni yn unol â'r ddau gategori ansawdd archwilio uchaf (DPA 3). Mae'r materion sy'n gyfrifol am fethiant y ddau archwiliad i gyflawni ein targed yn benodol i'r archwiliadau hynny. Ein dull mewn amgylchiadau o'r fath yw ymgymryd ag ymarfer i ddeall pam y cafwyd y materion hyn ac i ganiatáu i'r sefydliad ddysgu gyda'i gilydd a symud ymlaen gyda'i gilydd. Cyflawnodd dau o'r wyth archwiliad a samplwyd y sgôr uchaf, sy'n welliant ar y blynyddoedd blaenorol.
- 51 Mae ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio diweddaraf yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn ein trefniadau ansawdd archwilio a chanlyniadau gweithgarwch monitro yn 2024. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad ansawdd archwilio nesaf yn Hydref 2025.

Y cynnydd a wnaed yn ein meysydd pwyslais ar gyfer gwella busnes

- 52 Yn ein Strategaeth ar gyfer 2022 i 2027, gwnaethom nodi tri maes pwyslais lle byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu er mwyn helpu Archwilio Cymru i gyflawni ei weledigaeth gyffredinol.



Rhaglen
archwilio
strategol,
ddeinamig o
ansawdd uchel



Dull wedi'i
dargeddu ac sy'n
cael effaith ar
gyfathrebu a
dylanwadu



Diwylliant
a model
gweithredu sy'n
ein galluogi
i ffynnu

- 53 Yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024-25, gwnaethom ymrwymo i weithredu ar draws 11 blaenoriaeth cynllunio busnes allweddol. Mae'r tablau isod yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaed gennym o'i gymharu a'r blaenoriaethau hyn yn y cyfnod adrodd ac maent wedi'u grwpio fesul maes pwyslais strategol y mae'r blaenoriaethau'n berthnasol iddynt. Er mwyn symleiddio ac osgoi dyblygu, pan gynhwysir manylion am y cynnydd a wnaed mewn manau eraill yn yr Adroddiad hwn, cyfeirir at yr adran briodol.



Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

Blaenoriaeth

Dod â'r amserlen ymlaen ar gyfer cyflawni gwaith archwilio cyfrifon yn unol â terfynau amser Llywodraeth Cymru (15 Gorffennaf ar gyfer y GIG a 30 Tachwedd ar gyfer llywodraeth leol).

Cynnydd a wnaed

Statws: Ar y gweill

Sylwadau:

Ardystiwyd holl gyfrifon y GIG a bron pob cyfrif llywodraeth ganolog 2023-24 ar amser. Mae'r un eithriad yn ymwneud ag archwiliad lle darparwyd ymwadiad barn archwilio yn ymwneud â materion a gododd yn ystod yr archwiliad.

Er bod cyflawni'r archwiliadau o gyfrifon sector llywodraeth leol erbyn y terfyn amser, sef 30 Tachwedd yn parhau i fod yn her, roedd yr holl gyfrifon llywodraeth leol a baratowyd ar amser wedi'u hardystio erbyn y terfyn amser.

Rydym hefyd wedi rhoi cynlluniau clir ar waith i ddal i fyny â'r ôl-groniad yn ein gwaith llywodraeth leol a'r GIG er mwyn ein galluogi i ddod a'r amserlenni ymlaen ar gyfer cyflawni dros dair blynedd.

Yn 2024-25 gwnaethom y canlynol:

- cytuno ar fanylion cynllun adfer i fynd â ni drwodd i 2026;
- gweithio gyda thrysoryddion llywodraeth leol i sefydlu cynllun tair blynedd clir i baratoi cyfrifon erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn ac iddynt gael eu harchwilio erbyn 30 Tachwedd 2024 (cyfrifon 2023-24), 31 Hydref 2025 (cyfrifon 2024-25) a 30 Medi 2026 (cyfrifon 2025-26);
- gweithio'n agos gyda'r sector llywodraeth leol i geisio gwella prydlondeb ac ansawdd y cyfrifon drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio, er bod hyn yn parhau i fod yn her i rai cyrff llywodraeth leol; a
- gwneud gwaith i sicrhau bod ein prosesau recriwtio a dethol mor effeithlon â phosibl er mwyn llenwi swyddi gwag yn amserol.

Blaenoriaeth**Cynnydd a wnaed**

Dod a'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith perfformiad lleol fel y cwblheir y mwyafrif yn ystod y flwyddyn.

Statws: Ar y gweill ond mae angen rhywfaint o welliant pellach

Sylwadau:

Ar y cyfan, rydym wedi gwneud cynnydd rhesymol wrth fynd i'r afael â'n sefyllfa ôl-groniad trwy gamau gweithredu a nodir isod, er bod gennym fwy i'w wneud o ran ein rhaglen GIG na'r hyn sydd i'w wneud ar gyfer llywodraeth leol. Rydym hefyd yn dal i reoli rhai heriau adnoddau parhaus a allai effeithio ar gyflawni yn 2025-26. Mae ein hôl-groniad bellach yn ymwneud yn bennaf â gwaith o raglenni 2024-25 sydd eto i'w cwblhau ochr yn ochr â gwaith newydd 2025-26.

Yn y cyfnod adrodd gwnaethom y canlynol:

- rhoi cynlluniau clir ar waith i ailbroffilio ein rhaglenni archwilio lleol yn y GIG a llywodraeth leol i fynd i'r afael â chyfran sylweddol o ôl-groniad a chyfleu'r newidiadau hynny i gyrff archwiliedig;
- sicrhau bod ein trefniadau adnoddau yn rhoi blaenoriaeth i leihau'r ôl-groniad yn ein rhaglenni archwilio lleol, gan reoli'r effaith ar waith arall;
- symud ymlaen i recriwtio allanol ar gyfer swyddi gwag a chyflwyno staff newydd i ddod â ni yn ôl yn agosach at ein sefydliad;
- defnyddio ein cronfa contractwyr i sicrhau adnoddau tymor byr ychwanegol i gefnogi gwaith prosiect; a
- datblygu gwaith prosiect a fydd yn gwella gwybodaeth reoli am gyflawni ein prosiectau a'n rhaglenni archwilio.

Blaenoriaeth**Cynnydd a wnaed**

Ymgorffori safonau archwilio a safonau eraill newydd a gyflwynwyd yn ddiweddar yn llawn, gan nodi pwyntiau dysgu allweddol a phosibiliadau ar gyfer effeithlonrwydd.

Statws: Ar y gweill

Sylwadau:

Mae archwiliadau gan Adran Sicrhau Ansawdd yr ICAEW yn dangos nad yw cyflwyno'r Safon Archwilio newydd (ISA 315) a gweithredu safonau archwilio perfformiad INTOSAI wedi effeithio'n negyddol ar ansawdd ein gwaith. Nodwyd rhai pwyntiau dysgu a darparwyd hyfforddiant dilynol priodol i staff.

Yn 2024-25, blwyddyn dau o weithredu'r Safon newydd, gwnaethom gyflawni effeithlonrwydd diriaethol o weithredu'r dull archwilio diwygiedig ar gyfer cyrff y GIG sy'n rhoi ad-daliadau cymedrol i'n harchwiliadau GIG 2023-24.

Yn 2024-25, gwnaethom y canlynol hefyd:

- darparu hyfforddiant diweddarau ISA 315 wrth baratoi ar gyfer archwiliadau 2024-25;
- ymgymryd â rhaglen sylweddol o waith i weithredu safon archwilio ISA 600 (Archwilio Grwpiau) ar gyfer ein harchwiliadau 2024-25;
- ystyried y posibiliadau ar gyfer awtomeiddio ein platfform archwilio cyfrifon ymhellach; a
- gwneud diwygiadau i'n llawlyfr cyflawni archwiliad perfformiad, cwblhau adolygiad gwireddu buddion, a chanolbwyntio ar ddatblygu proses llif gwaith newydd yn ein platfform archwilio perfformiad.

Rydym hefyd yn y broses o ddiweddarau ein Cod Ymarfer Archwilio i ystyried Safon Foesebol 2024 a datblygiadau eraill.

Blaenoriaeth

Cyflwyno dull mwy systematig ar gyfer gwaith dilynol a thracio gweithredu argymhellion archwilio gan gyrff cyhoeddus.

Cynnydd a wnaed

Statws: Ar y gweill

Sylwadau:

Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom ymgorffori prosesau archwilio perfformiad newydd er mwyn casglu ymatebion rheolwyr mewn cyrff archwiliedig i'n hargymhellion yn systematig ac yn gyson. Cefnogwyd hyn gan y gwaith parhaol yn datblygu cronfa ddata argymhellion i dracio gweithredu yn well (pan gaiff ei derbyn gan gyrff archwiliedig) a helpu i flaenoriaethu unrhyw waith archwilio dilynol arall wedi'i dargedu. Roedd y gwaith cychwynol ar y gronfa ddata honno wedi'i gwblhau i raddau helaeth ar ddiwedd 2024-25 ac rydym yn disgwyl ei chyflwyno yn ystod haf 2025-26.

Mae ein gwaith ar y flaenoriaeth hon yn adeiladu ar hyfforddiant staff perthnasol a ddarparwyd yn 2023-24, a fydd yn cael ei ymgorffori ymhellach trwy newidiadau i'n templedi adrodd a'n canllawiau cyflawni archwilio i'w cyflwyno yn 2025-26 a hyfforddiant parhaus.

Mae cynllunio ar gyfer ein rhaglenni gwaith lleol a chenedlaethol yn 2025-26 yn caniatáu ar gyfer gwaith dilynol.

Blaenoriaeth**Cynnydd a wnaed**

Mwy o bwyslais ar werth am arian trwy ddadansoddiad ariannol a chanlyniadau cryfach yn ein gwaith archwilio perfformiad.

Statws: Ar y gweill

Sylwadau:

Yn ystod 2024-25, dechreuom weld y pwyslais cryfach hwn yn cael ei adlewyrchu ar draws prosiectau byw a gwaith a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan gynnwys ein hastudiaethau ar [Dai Fforddiadwy a Theithio Llesol](#), [Cynllun Peilot Paru Data Fferylliaeth Gymunedol a'n hadroddiadau diweddar ar ganlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol](#), [Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol](#), a [Gwasanaethau Canser yng Nghymru](#).

Mae gwerth cronol arbedion posibl, cynnydd mewn cynhyrchiant a manteision ariannol eraill a nodwyd trwy ein gwaith ers 2023 (DPA 7) bellach wedi cynyddu i £16 miliwn, ac mae gennym waith archwilio ar y gweill i'n helpu i gyrraedd ein targed o £30 miliwn o leiaf erbyn 2026. Darperir rhagor o wybodaeth yn Astudiaeth Achos 3.

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaethom hefyd:

- ymwreiddio dadansoddiad ariannol a chanlyniadau yn gryfach ac yn gynharach yn y cam cynllunio prosiect ar gyfer gwaith newydd; a
- archwilio'r opsiynau sydd ar gael a chostau hyfforddiant i gefnogi datblygiad sgiliau cysylltiedig, gan gynnwys gweithio gyda CIPFA i gefnogi eu datblygiad o gymhwyster archwilio perfformiad newydd a threialu hyfforddiant sylfaenol arall ar gyfer staff archwilio perfformiad newydd.

Bydd ein templed adroddiad archwilio perfformiad newydd (gweler isod) hefyd yn annog archwilwyr i gasglu ffeithiau a ffigurau ariannol a rhai sy'n gysylltiedig â chanlyniadau allweddol.



Dull wedi'i dargeddu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu

Blaenoriaeth

Defnyddio ein gwefan wedi'i hadnewyddu i ymestyn ein cyrhaeddiad a gwella mynediad i'n gwaith archwilio cyhoeddus, byw a sydd ar ddod.

Cynnydd a wnaed

Statws: Ar y gweill

Sylwadau:

Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom barhau i ddatblygu ein gwefan wedi'i hadnewyddu, gan adeiladu ar y gwaith paratoi a gwblhawyd yn 2023-24. Elfen allweddol o'r gwaith hwn oedd paratoi fersiwn ar-lein fyw o'n [Blaenraglen waith](#) o astudiaethau cenedlaethol, sy'n darparu gwybodaeth gryno am astudiaethau unigol unwaith y bydd eu cynlluniau wedi'u cadarnhau a sefyllfa gyfredol ar yr amserlen ar gyfer eu cwblhau.

Fe wnaethom hefyd dreialu'r defnydd o grynodedau rhyngweithiol o'n prif adroddiadau, gan ddechrau gyda chyhoeddiadau corfforaethol allweddol fel ein [Cynllun Blynyddol](#), gyda'r bwriad o ddefnyddio'r dull hwn yn ehangach yn y tymor hwy. Mae cynnydd dros y flwyddyn wedi gweld datblygu templedi a'r platfform i'n galluogi i gyhoeddi dogfennau rhyngweithiol. Yn ogystal, buom yn gweithio gyda chontractwyr i adolygu ein trefniadau ar gyfer paratoi a dylunio adroddiadau archwilio, gan gynnwys y trefniadau hyfforddi cysylltiedig ar gyfer staff. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys treialu'r defnydd o adroddiadau archwilio byrrach ar gyfer llywodraeth leol a monitro effaith y newidiadau trwy gasglu adborth gan staff a chynghorwyr. Nod cyffredinol y prosiect hwn yw gwneud ein hadroddiadau yn fyrrach ac yn haws eu darllen, fel eu bod yn diwallu anghenion ein cynulleidfa a gofynion ansawdd newydd yn well.

Yn gyffredinol, roedd nifer yr ymweliadau â'n gwefan pan fo o leiaf un weithred yn cael ei pherfformio, e.e., lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo (DPA 9) yn rhagori ar ein targed yn sylweddol trwy gynyddu dros draean o 59,100 i 81,000. Roeddem eisoes wedi ymrwmo i darged a oedd yn ymestyn yn fwy ar gyfer y DPA hwn yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025-26, ond o ystyried perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn, rydym yn bwriadu adolygu'r targed ymhellach a chyhoeddi unrhyw ddiwygiadau dilynol yn ein Hadroddiad Interim sydd ar ddod. Mewn cyferbyniad, gostyngodd nifer yr ymgysylltiadau cyfryngau cymdeithasol h.y. rhyngweithio â'n postiadau fel hoffi, sylwadau, neu aildrydar/rhannu (DPA 10) o'n targed o 4,000 yn 2023-24 i 3,500 yn 2024-25. Mae'r dirywiad hwn mewn ymgysylltiad ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol wedi cael ei brofi ar draws y sector cyhoeddus ac mae'n bennaf oherwydd newidiadau yn yr algorithmau a ddefnyddir gan lwyfannau fel X (Twitter) a Facebook sy'n blaenoriaethu ymgysylltu â chynnwys y telir amdano dros bostiadau organig (am ddim). Rydym yn mynd i'r afael â hyn trwy drosoli fformatau newydd fel fideos ac animeiddio bychain wrth gynyddu nifer y cynnwys ar lwyfannau amgen fel LinkedIn.

Blaenoriaeth

Cynyddu mynediad ac ymgysylltu ag arferion da a mewnwelediadau yn ystod ac ar ôl cwblhau ein gwaith archwilio.

Cynnydd a wnaed

Statws: Ar y gweill

Sylwadau:

Dros y cyfnod adrodd roedd sylw cryf yn y cyfryngau ar y mewnwelediadau a gynhwysir mewn sawl un o'n hadroddiadau cyhoeddedig. Roedd hyn yn cynnwys sylw eang gan y BBC, ITV, y cyfryngau lleol a chyhoeddiadau arbenigol o'n hadroddiadau ar [Dai Fforddiadwy](#), [Llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub](#), a [Theithio Llesol](#).

Fe wnaethom hefyd gynnal digwyddiad arferion da ym mis Mai 2024 o'r enw [Pwyllgorau Archwilio: arferion effeithiol ac effaith gadarnhaol](#) a roddodd gyfle i rannu dysg a phrofiadau archwilio ymhlith cynrychiolwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Er mwyn cynyddu gwelededd dysg allweddol o'n gwaith archwilio, rydym ar hyn o bryd yn y broses o ailddatblygu'r ardal o'n gwefan lle rydym yn hyrwyddo enghreifftiau o arferion da. Bydd hyn yn cynnwys rhannu mewnwelediadau mewn modd a fformat sy'n ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfres o flogiau a fideos.



Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

Blaenoriaeth

Cynnydd a wnaed

Datblygu a gweithredu rhaglen monitro ansawdd tair blynedd i gefnogi ein dull sefydliad cyfan o reoli'r risg i ansawdd archwilio.

Statws: Ar y gweill

Sylwadau:

Ym mis Mehefin 2024, cadarnhaodd Adran Sicrhau Ansawdd yr ICAEW eu bod o'r farn bod ein dull o ddatblygu rhaglen monitro ansawdd yn briodol o ystyried ein maint a'n graddfa.

Rydym yn gwneud cynnydd sylweddol wrth ymgorffori safon monitro ansawdd newydd, ac rydym yn gweithio ar draws Archwilio Cymru i wella ein trefniadau rheoli risg a sicrhau pwyslais cryfach ar ansawdd yn ein cofrestrau risg corfforaethol.

Yn ystod 2025-26, byddwn yn gweithredu ein prosesau monitro wedi'u diweddarau i gryfhau ein trefniadau rheoli ansawdd ymhellach ac rydym wedi buddsoddi i ddarparu adnoddau ychwanegol i gefnogi'r gwaith hwn.

Cyflawni cynllun gweithlu sefydliad cyfan wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion staffio presennol yn well a chynllunio ar gyfer anghenion staffio yn y dyfodol.

Statws: Ar y gweill

Sylwadau:

Fe wnaethom lansio Strategaeth y Gweithlu sefydliad cyfan ym mis Medi 2024, sy'n nodi gweledigaeth tymor hwy ar gyfer sicrhau a datblygu adnoddau pobl angenrheidiol Archwilio Cymru, gan gynnwys sgiliau a galluoedd.

Ym mlwyddyn gyntaf y Strategaeth, fe wnaethom ganolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth:

- Rheoli talent a chynllunio olyniaeth
- Datblygu sgiliau
- Mynd i'r afael â'r ôl-groniad archwilio – recriwtio, cadw a chapasiti
- Dyluniad sefydliadol, swyddogaethau ac adnoddau

Fe wnaethom sefydlu ystod o fesurau perfformiad i benderfynu a yw'r camau cynllunio busnes sy'n deillio o'r Strategaeth yn cyflawni fel y bwriadwyd. Mae'r mesurau hyn yn cael eu monitro'n rheolaidd gan ein Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, a Phwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac AD y Bwrdd, ac maent yn dangos ein bod wedi gwneud cynnydd da dros y chwe mis diwethaf. Rydym bellach yn datblygu ein camau gweithredu cynllunio busnes ar gyfer 2025-26 a fydd yn canolbwyntio ar reoli ein llwyth gwaith a'n sefydliad ar ôl clirio'r ôl-groniad, ein rhaglen gorwelion archwilio gan gynnwys yr angen i gryfhau sgiliau digidol, a chynllunio olyniaeth.

Blaenoriaeth

Buddsoddi ymhellach yn ein cynlluniau hyfforddeion a phrentisiaethau i gryfhau'r dewis o ymgeiswyr a rhoi gwell sylw i waith archwilio perfformiad.

Cynnydd a wnaed

Statws: Wedi'i gwblhau

Sylwadau:

Yn ystod y cyfnod adrodd fe wnaethom gynnal ymgyrch recriwtio helaeth ar gyfer y rownd ddiweddaraf o dderbyn hyfforddeion a phrentisiaid graddedig a gwelsom ddiddordeb sylweddol. Fe wnaethom benodi'r nifer a ddymunir o ymgeiswyr yn llwyddiannus. Rydym yn parhau i archwilio ffyrdd y gallwn gynyddu ymhellach nifer y ceisiadau a dderbyniwn gan ymgeiswyr o gymunedau mwy difreintiedig.

Fe wnaethom hefyd ddatblygu a chyflwyno'r elfen sgiliau archwilio perfformiad o hyfforddiant ar gyfer hyfforddeion, sy'n cael ei ategu gan brofiad gwaith ymarferol. Mae adborth gan y garfan gyntaf wedi bod yn gadarnhaol iawn a byddwn yn adeiladu ar hyn trwy gydol gweddill eu contract hyfforddi. Yn ogystal â darparu profiad hyfforddi mwy cynhwysfawr i hyfforddeion, mae amlygu ein hyfforddeion i bob maes o'n gwaith yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ni wrth gynllunio'n gweithlu sy'n flaenoriaeth sefydliadol allweddol.

Yn ystod 2024-25, cyflawnodd ein hyfforddeion gyfradd lwyddo y tro cyntaf o 85% yn eu harholiadau lefel Broffesiynol ac Uwch gyda Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (DPA 18). Roedd hyn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol (82%) ond yn dal i fod yn is na'n targed o 90% o leiaf.

Blaenoriaeth**Cynnydd a wnaed**

Annog mwy o weithio wyneb yn wyneb o fewn ein model gweithio hybrid, i sicrhau amgylchedd cynhyrchiol, cydweithredol a diddorol ar gyfer cyflawni gwaith o ansawdd uchel.

Statws: Wedi'i gwblhau

Sylwadau:

Ein pwyslais ar gyfer y flaenoriaeth hon yw sicrhau gweithle o ansawdd uchel ond cost-effeithiol gyda mewnbwn gan staff er mwyn diwallu eu hanghenion orau, er mwyn helpu i annog a chefnogi mwy o weithio wyneb yn wyneb i wireddu'r manteision busnes a llesiant cysylltiedig. Fe wnaethom gyflawni rhan olaf ein strategaeth ystadau yn dilyn symud i swyddfeydd eraill yn llwyddiannus yng Nghaerdydd a gogledd Cymru yn 2023, a symud i swyddfa newydd yng ngorllewin Cymru ym mis Ebrill 2025.

Parhaodd ein timau corfforaethol i weithio gyda'i gilydd yn rheolaidd yn ein prif swyddfa yng Nghaerdydd, gan ystyried y galw am eu gwasanaethau yn ogystal ag anghenion y timau priodol. O fewn y Gwasanaethau Archwilio, parhaodd y gwaith i sicrhau cymysgedd priodol o weithio wyneb yn wyneb ac ar-lein, gyda staff archwilio cyfrifon fel arfer yn gweithio o'r swyddfa 2-3 diwrnod yr wythnos tra bod staff archwilio perfformiad yn cael cyfarfodydd tîm personol wedi'u trefnu yn rheolaidd ochr yn ochr â gwaith personol ar gyfer gweithgareddau prosiect a chorfforaethol penodol.

Yn ystod y cyfnod adrodd fe wnaethom hefyd lansio cynllun treialu oriau cywasgedig bob pythefnos i gefnogi mwy o gynhyrchiant trwy gynnig mwy o hyblygrwydd o fewn ein model gweithio hybrid. Darperir rhagor o wybodaeth yn Astudiaeth Achos 6.

Parhaodd ein timau TG ac Ystad i roi pwyslais ar gynnal yr amodau ar gyfer gweithio hybrid gwych gan sicrhau bod offer a systemau ar gael, ac rydym yn parhau i ymateb i adborth gan staff.

Enghreiffiau o astudiaethau achos o ddarnau o waith effeithiol

54 Yn yr adran hon, rydym yn darparu enghreifftiau o astudiaethau achos o'r gwaith a gyflawnwyd gennym yn ystod 2024-25 a'r effaith y mae'r gwaith hwnnw wedi'i chael. Mae ein henghreiffiau o astudiaethau achos wedi'u grwpio gyda'i gilydd gan ddibynnu ar eu haliniad â'r meysydd pwyslais yn ein strategaeth pum mlynedd.



Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

Astudiaeth achos 1: Cynnydd a wnaed ar gael gwaith archwilio cyfrifon lleol yn ôl ar y trywydd iawn

Rydym yn parhau i fod â phwyslais cryf ar ddychwelyd ein hamserlen cyflwyno archwiliadau cyfrifon i amserlenni mwy traddodiadol. Llithrodd yr amserlen ar gyfer paratoi ac archwilio cyfrifon yn ystod y pandemig ac yn syth ar ei ôl.

Mae'r pwyslais hwnnw wedi cynnwys y canlynol:

- cymryd golwg tair blynedd ar yr her a blaenoriaethu yn unol â hynny;
- modelu manwl o'n sefyllfa cyflenwad a galw staff i ragweld ac ymateb mewn ffordd ystyth i amrywiadau mewn adnoddau;
- mesurau recriwtio a chadw gweithredol i gynnal ein sefydliad staff mewn marchnad lafur heriol iawn;
- gor-recriwtio i gyflymu ein rhaglen archwilio; a
- gweithio mewn partneriaeth â'n cyrff archwiliedig, ac arweinwyr systemau eraill, i gymryd agwedd gydweithredol at her a rennir: mae hyn wedi cynnwys gweithdai a gynhelir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ar gyfer Trysoryddion y Cyngor, ac ar gyfer Prif Gyfrifyddion.

Rydym wedi gwneud cynnydd rhagorol wrth ddychwelyd i amserlenni traddodiadol yn y sectorau GIG a llywodraeth ganolog. Derbyniwyd ac archwiliwyd holl gyfrifon 2023-24 yn y sectorau hyn ar amser, ac eithrio un achos lle cododd mater archwilio sylweddol.

Roedd y sefyllfa ar draws y sector llywodraeth leol yn fwy cymysg. Pan oedd cyfrifon ar gael erbyn y dyddiad cau ar 30 Mehefin, fe wnaethom ddarparu tystysgrifau archwilio ar gyfer pob archwiliad erbyn y terfyn amser, sef 30 Tachwedd (ac eithrio un achos lle roeddem yn aros am ragor o wybodaeth). Fodd bynnag, cawsom nifer o gyfrifon drafft ar ôl y terfyn amser, ac mewn nifer fach o achosion, nid yw cyfrifon drafft wedi'u derbyn eto. Rydym yn gweithio gyda'r cyrff hyn i'w cefnogi i 'fynd yn ôl ar y trywydd cywir'.

Y tu hwnt i effaith y pandemig, ac ar lefel y DU, mae cydnabyddiaeth eang bod problemau sylweddol gyda chyfrifon llywodraeth leol sy'n rhwystro'r gwaith o baratoi ac archwilio cyfrifon yn y sector hwnnw. Rydym yn ymgysylltu'n weithredol ag ystod o bartneriaid i ddod o hyd i atebion parhaol i'r materion hyn.

Gall offer dadansoddeg data wella prosesau adrodd ac archwilio ariannol. Fodd bynnag, mae'r offer hynny'n dibynnu'n llwyr ar ansawdd y data sydd ar gael, sy'n amrywiol iawn ar draws sector cyhoeddus Cymru. Byddwn yn gweithio gyda chyrrff archwiliedig i archwilio sut y gellid gwella ansawdd y data hwnnw er mwyn hwyluso'r defnydd o ddadansoddeg data.

Rydym hefyd yn bwriadu lansio cyfres o ddogwyddiadau arferion da 'cau'n gyflymach' i gefnogi ein cyrrff archwiliedig i wella eu prosesau adrodd. Mae'r cyntaf o'r rhain wedi'i drefnu ar gyfer Rhagfyr 2025.

Astudiaeth achos 2: Adrodd ar arweinyddiaeth y llywodraeth



Tai fforddiadwy

Roedd ein hadroddiad ym mis Medi 2024 yn ystyried y cynnydd a wnaed tuag at darged Llywodraeth Cymru o adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd erbyn mis Mawrth 2026. Nodwyd bod chwyddiant prisiau wedi taro'r rhaglen tai fforddiadwy yn galed a bod Llywodraeth Cymru yn wynebu dewisiadau anodd ynglŷn â'i blaenoriaethau ariannu a'i dull os yw'n parhau i fod yn ymrwymedig i gyrraedd y targed neu fod yn agos ato. Gwnaethom argymhellion ynghylch datblygu dull tymor hwy o fforddiadwy y tu hwnt i gyfnod y targed – a dderbyniodd gefnogaeth ar y pryd gan [Gartrefi Cymunedol Cymru](#). Ond gwnaethom hefyd argymhellion ynghylch cynllunio senarios ar gyfer y cyllid sydd ei angen ar gyfer cynlluniau allweddol yn y tymor byrrach ac i gefnogi tryloywder a gwaith chraffu ar gynnydd o'i gymharu â'r targed. Cyfeiriodd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd at ein gwaith yn ei [adroddiad](#) ei hun yn ddiweddarach y mis hwnnw ar gyflenwad tai cymdeithasol.



Mae darparu sicrwydd a goresgyn cyfyngiadau cyflawni yn hanfodol i ddatgloi'r rhwystrau presennol – felly rydym yn cefnogi argymhellion yr adroddiad i ddatblygu dull hirdymor o ariannu a darparu tai cymdeithasol

Cartrefi Cymunedol Cymru

Tudalen y pecyn 121



Teithio Llesol

Hefyd ym mis Medi 2024, fe wnaethom adrodd, er gwaethaf cynnydd mewn gwariant drwy ei Gronfa Teithio Llesol a chynllun cyflawni newydd, eang, fod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod ymhell o gyflawni'r newid mawr mewn teithio llesol a fwriedir drwy Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Nid oedd dulliau o fonitro a gwerthuso yn mynd yn ddigon pell i alluogi tracio cadarn o gynnydd neu asesiad cyffredinol o werth am arian. Fel y nodwyd yn Astudiaeth Achos 4, mae'r gwaith hwn wedi cefnogi gwaith craffu pellach ar bwyllgor y Senedd.



Gwasanaethau canser

Canolbwyntiodd ein hadroddiad Ionawr 2025 ar y dull strategol cyffredinol o wella prydlondeb diagnosis a thriniaeth. Canfuom fod angen arweinyddiaeth genedlaethol gryfach a chliriach ar frys, ynghyd â mwy o bwyslais ar atal. Mae hyn mewn amgylchedd lle mae llawer o gleifion canser yn aros yn rhy hir am ddiagnosis a thriniaeth canser a chanlyniadau goroesi canser sydd, er eu bod yn gwella, yn dal i fod yn wael o'i gymharu â gwledydd eraill.

Fe wnaethom dynnu sylw at ddiffyg eglurder ynglŷn â statws Cynllun Gwella Canser cenedlaethol Cymru a lansiwyd yn 2023. Fe wnaethom hefyd alw am fwy o eglurder ynghylch rolau priodol Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG wrth oruchwylio a chefnogi gwelliant. Cawsom gefnogaeth gref i'n canfyddiadau a'n hargymhellion gan Gynghrair Canser Cymru sydd ers hynny wedi rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd fel rhan o'i waith ymchwilio pellach ar y pwnc hwn.



Bioamrywiaeth

Ym mis Chwefror 2025, fe wnaethom adrodd ar sut mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill wedi ymateb i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n gosod 'dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau' gwell arnynt. Canfuom nad yw'r argyfwng natur wedi bod yn flaenoriaeth ddigon uchel i awdurdodau cyhoeddus, ac mae llawer wedi methu â chydymffurfio â gofynion cynllunio a/neu adrodd allweddol y ddyletswydd, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ei hun ar un agwedd.

Fe wnaethom bwysleisio bod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i arwain drwy esiampl, cefnogi gwelliant, a chymryd diddordeb mwy gweithredol yng nghymhwyso ac effaith ei deddfwriaeth ei hun a gwnaethom argymhellion i'r perwyl hwnnw. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio ein gwaith i rannu gwersi gyda Llywodraeth Cymru wrth iddi ystyried newidiadau pellach i gyfraith amgylcheddol.



Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu

Astudiaeth achos 3: Adrodd ar arbedion posibl a nodwyd gan ein gwaith

Un o'n blaenoriaethau gwella busnes ar gyfer y flwyddyn oedd canolbwyntio mwy ar werth am arian trwy ddadansoddiad ariannol a chanlyniadau cryfach yn ein gwaith archwilio perfformiad. Hefyd yn berthnasol i'r flaenoriaeth hon mae ein DPA ar werth arbedion posibl, cynhyrchiant a buddion ariannol eraill a nodwyd trwy ein gwaith.



Paru data fferylliaeth gymunedol

Ym mis Mai 2024, gwnaethom gyhoeddi'r canlyniadau o brosiect treialu paru data fferylliaeth gymunedol a oedd yn cwmpasu dau fwrdd iechyd. Er ei fod yn destun cafeatau amrywiol, roeddem wedi amcangyfrif y gallai tua £700,000 fod wedi cael ei arbed gan y GIG yng Nghymru drwy leihau costau sy'n gysylltiedig ag eitemau y mae angen eu paratoi'n arbennig gan wneuthurwr cofrestredig. Roedd ein gwaith yn herio'r GIG i ystyried a oes mwy y gellid ei wneud i fynd i'r afael ag amrywiadau mewn costau yn y maes hwn a meysydd eraill, yn ogystal â risgiau twyll.



Y Fenter Twyll Genedlaethol

Ym mis Hydref 2024, fe wnaethom adrodd ar rownd ddiweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) eilflwydd. Nododd yr ymarfer £7.1 miliwn o ganlyniadau twyll neu ganlyniadau gwallau, y rhan fwyaf ohonynt yn deillio o waith awdurdodau lleol yn paru data yn ymwneud â'r dreth gyngor, budd-dal tai, bathodynnau glas, rhestrau aros tai, a phensiynau.

Mae llwyddiant yr NFI yn dibynnu ar ba mor dda y mae cyrff sy'n gyfranogwyr yn asesu ac yn adolygu paru data ac yna yn cofnodi'r canlyniadau. Mae rhai cyrff yn gwneud gwaith da ar hyn, ond mae ein hadolygiad o adroddiadau paru data yn tynnu sylw at anghysondebau mewn trefniadau dilynol lleol a rhai amrywiadau mawr mewn canlyniadau rhwng cyfranogwyr tebyg. Wrth i rownd nesaf yr NFI gael ei chyflwyno, rydym yn bwriadu cynyddu ein hymgysylltiad â chyrff sy'n cymryd rhan i godi ymwybyddiaeth, hyrwyddo cyfranogiad gweithredol, a deall yn well sut mae cyrff yn asesu ac yn adolygu gwaith paru.



Gwasanaethau canser

Yn ein hadroddiad Ionawr 2025, fe wnaethom nodi rhywfaint o ddadansoddiad o'r effaith y gallai gostyngiad o 10%, 20% a 38% mewn achosion o ganser ei gael, yn seiliedig ar lefelau gweithgaredd 2022-23. Byddai'r arbedion ariannol blynyddol posibl o'r gostyngiad mewn diwrnodau gwely tua £8.2 miliwn i £31.4 miliwn. Nodwyd y gellid cyflawni arbedion sylweddol drwy leihau apwyntiadau cleifion allanol a chostau cyffuriau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y byddai costau hefyd yn gysylltiedig â gweithgarwch i atal canser. Rydym wedi cyfrif y ffigur pen isaf o'n hamrediad o'i gymharu â'n DPA.

Mynd i'r afael ag oedi wrth ryddhau o'r ysbyty

Mae ein gwaith ar wahanol agweddau ar ofal brys ac argyfwng hefyd yn nodi arbedion posibl. Dros y 21 mis rhwng Ebrill 2023 a Rhagfyr 2024, rydym yn amcangyfrif bod oedi wrth ryddhau o'r ysbyty wedi cyfrif am dros 710,000 o ddiwrnodau gwely y gellid eu defnyddio'n well. Mae hyn yn cyfateb i gost o £355.3 miliwn ar gyfartaledd o £16.9 miliwn y mis.

Rydym wedi bod yn paratoi adroddiadau ar gyfer pob rhanbarth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n tynnu sylw at y costau hyn a'r potensial i'w lleihau¹². Nid ydym eto wedi cynnwys ffigur arbedion posibl sy'n ymwneud â'r dadansoddiad hwn yn erbyn ein DPA. Byddwn yn gwneud hynny unwaith y byddwn yn cwblhau'r dadansoddiad hwn mewn allbwn cryno cenedlaethol yn 2025-26 ond disgwylir y bydd hyn wedyn yn ein helpu i gyrraedd a rhagori ar ein targed DPA.

Astudiaeth achos 4: Mwy o ymgysylltu â phwyllgorau pwnc y Senedd

Ym mis Tachwedd 2024, fe wnaethom drafod ein gwaith yn archwilio cynghorau cymuned a thref gyda'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai fel rhan o'i ymchwiliad i lywodraethu ac atebolrwydd ar draws y sector. Fe wnaethom esbonio'r dull yr ydym yn ei fabwysiadu wrth archwilio cyfrifon cynghorau a themâu sy'n dod i'r amlwg o'r gwaith hwnnw. Ym mis Rhagfyr 2025, fe wnaethom ddarparu rhagor o wybodaeth am y broses uwchgyfeirio ynglŷn â chynghorau'n peidio â chyflwyno cyfrifon a modelau amgen posibl ar gyfer cyfrifon ac archwilio cynghorau. Myfyriodd y Pwyllgor ar y materion hyn yn ei adroddiad ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector a'r Archwilydd Cyffredinol i gyd-gynhyrchu system archwilio bwrpasol newydd.

Hefyd ym mis Tachwedd 2024, ymunom â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i ddarparu briff technegol am ein hadroddiad Medi 2024 ar deithio llesol. Defnyddiodd y Pwyllgor faterion a godwyd gan ein gwaith i lywio ei waith craffu cyffredinol ar Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru y mis hwnnw a'i waith craffu ac adodd yn ddiweddarach ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Rydym hefyd wedi bod yn cefnogi gwaith ymchwilio'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar y pwnc hwn.

Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2025, fe wnaethom ddarparu mewnbyn unwaith eto i gefnogi gwaith y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, yn gyntaf fel rhan o'i waith ymchwilio archwiliadol ar ddigidol mewn llywodraeth leol. Yma, fe wnaethom ddefnyddio yr hyn a ddysgwyd o ystod o waith, gan gynnwys ein hadroddiad 'Digidol o fwriad?' ar y sector ym mis Awst 2024 a gwaith cynharach ar seibergadernid ac ar gynhwysiant digidol. Yn ddiweddarach ym mis Chwefror, fe wnaethom gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig fanwl i gefnogi ymchwiliad y Pwyllgor ynghylch rôl awdurdodau lleol o ran cefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbty. Fe wnaethom hefyd fynychu digwyddiad rhanddeiliaid y Pwyllgor ym mis Mawrth i rannu dysg ychwanegol o'n gwaith yn y maes hwn ochr yn ochr â chynrychiolwyr o sefydliadau eraill.

Yn olaf, ddiwedd mis Mawrth 2025, cawsom ein gwahodd i gwrdd â'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i rannu ein meddyliau ynghylch y pwnc o archwilio llywodraethu a diwylliant sefydliadol. Fe wnaethom ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'n gwaith i lywio sut mae'r Pwyllgor yn mynd i'r afael â chraffu posibl ar gyrrff o fewn ei gylch gorchwyl yn y dyfodol.

12 Roedd yr adroddiadau a gyhoeddwyd erbyn diwedd mis Mawrth 2025 yn cynnwys yr adroddiadau ar gyfer rhanbarthau Gogledd Cymru a Chaebydd a'r Ffôr.



Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

Astudiaeth achos 5: Mwy o gydweithredu ag asiantaethau archwilio tramor

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi adnewyddu ein pwyslais ar gydweithio â swyddfeydd archwilio tramor, a oedd wedi lleihau yn dilyn effaith pandemig Covid, a'r gostyngiad dilynol mewn teithio rhyngwladol. Mae'r cydweithrediad hwn yn dod â manteision lluosog, gan gynnwys caffael mewnwelediadau byd-eang, rhannu arferion gorau, a chael safbwyntiau newydd ar gyfer ein gwaith.

Ym mis Ebrill 2024, fe wnaethom gymryd rhan mewn ymweliad taith astudio gan Ddirprwyaeth Gwasanaeth Cyhoeddus Talaith Sabah. Mae Sabah yn un o'r 13 talaith ffederal ym Malaysia. Rhoddodd ein staff gyflwyniadau i'r parti ynghylch gwaith Archwilio Cymru, yr heriau ariannol ac ehangach ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ym mis Medi 2024, cymerodd yr Archwilydd Cyffredinol, Adrian Crompton, a'n rheolwr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG), Catryn Holzinger, ran yng Nghynhadledd CEF-CIPFA 2024 yn Ljubljana, Slofenia. Traddododd Adrian brif araith y digwyddiad rhanbarthol ac Ewropeaidd mawr hwn, a hwylusodd Catryn weithdy a chymryd rhan mewn trafodaeth banel gydag amrywiaeth o arbenigwyr pwnc eraill. Roedd hwn yn gyfle gwych i rannu mewnwelediadau o'n gwaith WFG gyda chynulleidfa ryngwladol.

Ym mis Ionawr 2025, fe wnaethom groesawu dirprwyaeth o Swyddfa Archwilio Genedlaethol Gweriniaeth Kosovo, a oedd yn cynnwys yr Archwilydd Cyffredinol, Vlora Spanca, a'i huwch staff. Roedd hwn yn gyfle i ddysgu mwy am ein priod swyddfeydd a'n gwaith, a oedd yn cynnwys cyflwyniadau a thrafodaethau dilynol ar archwilio tymor real, ac archwilio digidol.

Ym mis Ionawr 2025, ymunodd Adrian â thîm clericio Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd ac eraill o Gomisiwn y Senedd i gefnogi ymweliad gan ddirprwyaeth o Senedd Irac. Roedd y ddirprwyaeth yn ymweld i gryfhau goruchwyliaeth ariannol, ac adeiladu perthynas waith gryfach gyda chyrff eraill, gan gynnwys cynrychiolwyr o Senedd y DU a Swyddfa Archwilio Genedlaethol y DU.

Astudiaeth achos 6: Peilot oriau cywasgedig

Fel rhan o drafodaethau cyflog 2023, cynigiodd ein Undebau Llafur cydnabyddedig y dylai Archwilio Cymru ystyried gweithredu gweithio cywasgedig ar draws y gweithlu, lle gallai gweithwyr gywasgu hyd at 10% o'u horiau dan gontract dros gyfnod o bythefnos.

Gwnaed y cynnig yng nghyd-destun lefelau uchel o chwyddiant, ac fe'i gwelwyd fel budd di-gost a allai gefnogi mwy o gynhyrchiant a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, trwy ddarparu hyblygrwydd ychwanegol i staff a galluogi gwell cydbwysedd bywyd gwaith. Ochr yn ochr â'r manteision posibl, cydnabuwyd bod risgiau posibl hefyd, yn enwedig o ran effeithiau ar gynhyrchiant staff, incwm a chyflawni'r gwasanaeth archwilio yn ddi-dor.

Cytunwyd i dreialu oriau cywasgedig yn gweithio am gyfnod o leiaf 12 mis, i asesu effaith trwy gylch cyflawni archwilio cyfan. Adolygwyd cynnydd bob tri mis, gyda'r opsiwn i ddod â'r peilot i ben os nad oedd yn cyflawni'r manteision a fwriadwyd, neu os oedd unrhyw un o'r risgiau posibl yn crisialu. Datblygwyd cerdyn sgorio cytbwys o fesurau i asesu effaith gweithio oriau cywasgedig yn llawn, gan gwmpasu safbwyntiau ariannol, gweithwyr, sefydliadol a rhanddeiliaid. Yn ogystal, fe wnaethom arolygu staff a ddewisodd gymryd rhan ynddo, yn ogystal â pheidio â chymryd rhan ynddo, bob chwarter i asesu ei effaith.

Mae'r cyfle i gymryd rhan yn y cynllun peilot wedi'i ymestyn i'r holl staff, a hyd yn hyn, mae tua 30% wedi dewis cymryd rhan. Fe wnaethom gwblhau'r trydydd adolygiad chwarterol ym mis Ebrill 2025 ac mae'r adborth wedi bod yn hynod gadarnhaol. Nid oes unrhyw dystiolaeth o effeithiau andwyol ar gyflawni archwiliad, ac mae staff sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot wedi nodi effaith gadarnhaol ar eu cydbwysedd gwaith bywyd a'u lles.

Crynodeb o'n defnydd o adnoddau yn y cyfnod adrodd

- 55 Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy¹³ yn y ffordd yr ydym yn rhedeg ein busnes, ac yn y ffordd yr ydym yn darparu adnoddau ar gyfer ein gwaith archwilio. Yn yr adran hon rydym yn darparu rhywfaint o sylwebaeth lefel uchel ar sut rydym wedi rheoli ein defnydd o adnoddau yn ystod 2024-25.
- 56 Er nad yw'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru yn gyrrff cyhoeddus rhestredig at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym serch hynny yn ceisio gwneud y mwyaf o'n cyfraniad at gyflawni [nodau llesiant Cymru](#).

Darparu rheolaeth ariannol cadarn ac effeithlonrwydd

Ffynonellau cyllid

- 57 Nodwyd y blaenoriaethau allweddol ar gyfer ein defnydd o adnoddau yn 2024-25 mewn [Amcangyfrif](#) a [Gwybodaeth Ategol](#), a gafodd ei ystyried a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Tachwedd 2023.
- 58 Roedd disgwyl i oddeutu dwy ran o dair o'n cyllid yn 2024-25 ddod o ffioedd a godir i gyrrff archwiliedig yn unol â [Chynllun Ffioedd](#) a gymeradwywyd gan y Senedd. Roedd y rhan fwyaf o'r gweddill yn cynnwys cyllid cymeradwy gan Gronfa Gyfunol Cymru, ac roedd ein defnydd o'r Bwrdd yn destun craffu gan y Bwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.
- 59 Wrth i ni weithio'n galed i gyflawni ein targed i fynd i'r afael â'r ôl-groniad archwilio ar ôl Covid, fe wnaethom ragori yn sylweddol o ran cyflawni ein incwm ffioedd disgwylidig gydag incwm dros ben o £961,000 yn cael ei adrodd yn ein Datganiad o Alldro Adnoddau ar dudalen 95.

Ein Gwariant

- 60 Fel y nodir yn y Datganiad o Alldro Adnoddau a'r nodiadau cysylltiedig, cyfanswm ein cyllideb ar gyfer 2024-25 oedd £26.9m ac roedd £22.3m (83%) ohono i fod i gael ei wario ar gostau staff, £4.2m (15%) ar gostau gweithredu eraill megis ein llety swyddfa, darpariaeth TGCh, hyfforddiant staff a theithio gyda'r balans o £310k (2%) yn cael ei ddyrannu ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn ein llety swyddfa ac offer TGCh.
- 61 Yn 2024-25 fe wnaethom danwario'r gyllideb hon o £864,000 a oedd yn cynrychioli 3.2% o'n cyllideb gwariant gros. Mae ein targed KPI ar gyfer amrywiad o 2% ac felly ni chafodd y targed hwn ei gyrraedd am y flwyddyn.

13 Fe'i diffinir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i diwallu eu hangenion eu hunain'.

- 62 Y prif reswm am hyn oedd tanwariant sylweddol (£1.1m) mewn costau staff oherwydd swyddi gwag yn hanner cyntaf y flwyddyn ariannol. Gan fod y mwyafrif o'r swyddi gwag hyn mewn rolau nad ydynt yn ennill ffioedd a rolau hyfforddeion, roeddem yn dal i allu cyflawni ein huchelgais i leihau'r ôl-groniad o waith archwilio a arweiniodd at yr incwm ffioedd dros ben a drafodwyd uchod.
- 63 Gwnaethom fuddsoddi £303,000 o gyllid cyfalaf gan gynnwys yn y meysydd canlynol:
- £152,000 ar gyfer gwelliannau i'n llety swyddfa gan gynnwys costau sefydlu ar gyfer swyddfa newydd Gorllewin Cymru a gwelliannau cyfrinachedd yng Nghyffordd Llandudno;
 - £84,000 ar liniaduron ac offer ymylol newydd yn unol â'n rhaglen amnewid dreigl; a
 - £45,000 i uwchraddio ein system gyllid, gan ei symud i ddatrysiaid cwbl cwmwl ar gyfer gwella seiberddiogelwch.

Defnydd effeithiol o adnoddau

- 64 Yn unol â'n gweledigaeth strategol i fod yn sefydliad enghreifftiol, rydym yn parhau i archwilio meysydd ar gyfer arbedion ac effeithlonrwydd ar draws Archwilio Cymru. Yn 2024-25, fe wnaethom gyflawni ein targed arbedion cost di-dâl o £400,000 ar gyfer y flwyddyn (KPI 16) a defnyddio rhywfaint o'r arbedion o swyddi gwag staff i fuddsoddi yn ein meysydd blaenoriaeth gan gynnwys lles staff, ein heffaith a'n defnydd o ddata.
- 65 Rydym yn parhau i gyflawni arbedion blynyddol o dros £200,000 o'n symudiadau diweddar i swyddfa yng Nghaerdydd a Gogledd Cymru. Yn 2025-26 byddwn yn gwireddu arbedion pellach yn dilyn symud i swyddfa yng Ngorllewin Cymru ym mis Ebrill 2025.

Ein hasedau a'n rhwymedigaethau

- 66 Mae ein hasedau a'n rhwymedigaethau wedi'u nodi yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn y Datganiadau Ariannol. Mae hyn yn dangos bod ein hasedau net wedi gostwng ychydig dros £200,000 yn 2024-25. Cafodd y newid yng ngwerth asedau net ei ysgogi gan:
- gostyngiad o ychydig o dan £1m yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy (dyledwyr) a'r gwaith ar y gweill (h.y. gwaith archwilio sydd wedi'i gyflawni ond heb ei filio eto). Mae'r gostyngiad mwyaf sylweddol yn ein dyledwyr wrth i ni weithio'n galed yn y flwyddyn i fynd ar drywydd symiau heb eu talu.
 - gostyngiad o £1.2m mewn incwm gohiriedig (ffioedd sydd wedi'u bilio lle nad yw'r gwaith wedi'i gyflawni eto) wrth i ni fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith archwilio.

Adnoddau ar gyfer blynyddoedd i ddod

- 67 Cymeradwyodd Pwyllgor Cyllid y Senedd ein Amcangyfrif ar gyfer 2025-26 ym mis Tachwedd 2024 a gynyddodd gyfanswm ein hadnoddau 5.4% ar gyfer y flwyddyn. Bydd hyn yn cael ei ariannu gan gynnydd o 6.5% yn swm yr incwm o ffioedd y disgwylir i ni ei gyflawni ynghyd â chynnydd o 3.5% mewn cyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru.
- 68 Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio i gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025-26, gan gynnwys ein cynlluniau i barhau i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith archwilio.

Sicrhau ymgysylltu effeithiol â'r staff

- 69 Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ddefnyddio amrywiaeth o sianeli cyfryngau a chyfathrebu i ymgysylltu â'n gweithwyr, gan ddarparu diweddariadau a gwybodaeth hanfodol am gael mynediad at adnoddau a chefnogaeth, a chasglu adborth ar eu profiadau.
- 70 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r holl staff gwblhau ffurflen annibyniaeth flynyddol, lle maent yn cytuno i gydymffurfio â gofynion ein Cod Ymddygiad, Cod Ymarfer Archwilio a Pholisi Diogelwch Gwybodaeth. Fel rhan o'r broses hon, tynnir sylw at ystod o ddogfennau perthnasol, gan gynnwys ein Canllawiau Gwyngalchu Arian a'n Strategaeth Gwrth-dwylo, Llwgwrwobrwyo a Llygredd.
- 71 Ym mis Hydref 2024, gwnaethom gynnal arolwg ymgysylltu â'r holl staff i gadw ein bys ar bwls profiad y gweithiwr a nodi lle mae angen i ni wella. Cwblhaodd 80% o staff yr holiadur, a oedd yn cwmpasu ystod o themâu, o arweinyddiaeth a diwylliant y sefydliad hyd at sut mae timau unigol yn gweithio.
- 72 Mae crynodeb o ganlyniadau ein harolwg wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Roeddem yn falch o weld ein sgôr mynegai ymgysylltu cyffredinol (DPA 12) yn codi o 64% i 71%, yn sylweddol uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil. Gwellodd canran y sgoriau positif yn ystod y flwyddyn ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd thematig a gwmpesir gan yr arolwg. Fodd bynnag, rhoddodd staff adborth hefyd ar sawl maes lle mae lle i wella ymhellach, a ddefnyddiwyd hyn i lywio ein cynllunio busnes ar gyfer 2025-26.


Hyrwyddo iechyd a llesiant

- 73 Rydym yn annog ffordd iach o fyw a chydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith ymhlith ein staff. Rydym hefyd eisiau i'n staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n llawn pan fyddant yn profi anawsterau, waeth a oes effaith ar eu gallu i ymgymryd â'u rôl.
- 74 Mae ein polisïau a'n canllawiau rheoli llesiant a phresenoldeb cynhwysfawr yn sicrhau bod unrhyw faterion iechyd a lles staff yn cael eu nodi a'u rheoli'n rhagweithiol ac yn sensitif. Arhosodd cyfran cyfanswm yr amser a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch (DPA 14) o fewn ein targed o lai na 4%. Darperir rhagor o wybodaeth am ein data absenoldeb salwch ar gyfer y cyfnod adrodd yn yr adran Adroddiad Staff.
- 75 Trwy gydol 2024-25, roedd ein rhwydwaith o gynorthwyr cyntaf iechyd meddwl a hyrwyddwyr lles wrth law i siarad â staff, ochr yn ochr â'n rhaglen cymorth i weithwyr 24/7 sy'n cynnig mynediad i staff at gwrsela cyfrinachol a chymorth emosiynol pan fo angen. Fe wnaethom hefyd gyfathrebu mentrau i annog iechyd a lles da yn y gwaith. Roedd y rhain yn cynnwys:
- a Gwiriadau iechyd Gwybod eich Rhifau a gynigir i'r holl staff
 - b Brechiadau Ffliw i'r holl staff
 - c Blogiau llesiant, erthyglau a chinio a dysgu
 - ch Aelodaeth campfa trwy ein ap budd-daliadau
 - d Cynllun Beicio i'r Gwaith
 - dd Ad-daliadau profion llygaid

Gwerthfawrogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

- 76 Mae'r Archwilydd Cyffredinol mewn sefyllfa gref i nodi cyfleoedd i helpu i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Wrth adrodd ar gyrf cyhoeddus, mae'n gallu annog newidiadau buddiol.
- 77 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwmo i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth yr holl bobl, ein staff ein hunain a'r rhai yr ydym yn dod i gysylltiad â nhw yn ystod ein gwaith. Rydym yn cefnogi hawliau pobl i gael eu trin gydag urddas a pharch.

- 78 Yn Archwilio Cymru, mae'n ofynnol i ni ddilyn y fframwaith amddiffyn rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a'r dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i leihau'r anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol ac mae gennym gyfrifoldeb i gynnal y confensiynau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998.
- 79 Mae gennym grŵp staff sefydledig, Pawb, sy'n helpu i sicrhau ymgysylltiad effeithiol â gweithwyr sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchoddedig. Mae aelodau Pawb yn gweithredu fel hyrwyddwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth sydd ar gael i staff godi pryderon a rhannu syniadau ar sut y gellir gwella ein polisïau a'n harferion.
- 80 Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2022-2026 yn nodi ein hamcanion cydraddoldeb cyfredol, a ddatblygwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Trwy gydol 2024-25, cynhaliwyd ystod o weithgareddau i gefnogi cyflawni'r amcanion hyn. Yn 2025-26, byddwn yn cynnal adolygiad o'r amcanion hyn, ac yna ymgynghoriad allanol ar unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i'n hamcanion cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod 2026-2030.
- 81 Mae ein Hadroddiad Cydraddoldeb diweddaraf yn crynhoi'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn 2023-24 ac mae'n cyd-fynd ag offeryn data rhyngweithiol sy'n cyflwyno data amrywiaeth ein gweithlu a bylchau cyflog. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad cynnydd ar gyfer 2024-25 yn ddiweddarach yn 2025.
- 82 Darperir crynodeb o ymatebion gan weithwyr ym mis Hydref 2024 i ddatganiadau arolwg staff sy'n ymwneud â chydraddoldeb isod.



Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg

- 83 Rydym yn ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth archwilio dwyieithog ac rydym wedi ymrwmo i weithredu a chynnal Safonau'r Gymraeg, yr ydym yn eu gweld fel lefel sylfaenol gwasanaeth dwyieithog, nid targed. Mae ein dogfennau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg a Saesneg, mae gennym wefan gwbl ddwyieithog, a drwy gydol 2024-25 fe wnaethom gyfathrebu â'r cyhoedd, cyrff archwiliedig, a'r cyfryngau yn y ddwy iaith.
- 84 O fewn ein hymgyrchoedd recriwtio prentisiaid a graddedigion, ac ar gyfer pob ymgyrch arall sy'n recriwtio ar gyfer tair swydd neu fwy, mae gennym ymrwymiad y bydd o leiaf 20% o'n swyddi yn cael eu hysbysebu fel rhai hanfodol o ran y Gymraeg.
- 85 Yn ystod 2024-25 fe wnaethom gynnal sawl menter i hyrwyddo'r Gymraeg, yn fewnol a chyda phartneriaid. Rydym yn parhau i hyrwyddo a chefnogi diwrnodau sy'n dathlu'r Gymraeg yn fewnol i staff, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Ddydd Miwsig Cymru a Diwrnod Shwmae, Defnyddia dy Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg. Rydym yn parhau i annog staff i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg a'u cefnogi ar eu taith.
- 86 Mae ein Hysbysiadau Cydymffurfio i'w gweld ar ein gwefan ac ym mis Medi 2024 cyhoeddwyd ein Hadroddiad Cymraeg blynyddol diweddaraf.

Cefnogi gwaith cymunedol ac elusennol

- 87 Rydym yn cydnabod y manteision y gall gwaith cymunedol ac elusennol gan staff eu rhoi i'r gymuned ehangach ac yn cymeradwyo ein staff am eu hymdrechion unigol. Gall staff gymhwyso'r sgiliau y maent wedi'u datblygu yn y gweithle a gallant ddatblygu sgiliau newydd, tra'n gwella eu morâl, eu hiechyd corfforol a'u cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
- 88 Yn amodol ar ofynion gweithredol, rydym yn cefnogi gweithwyr sy'n dymuno ymgymryd â gweithgareddau cymunedol neu elusennol fel gwaith gofal cymunedol, cymryd rhan mewn prosiectau cadwraeth a gweinyddu digwyddiadau cyhoeddus.
- 89 Yn ystod y cyfnod adrodd cynhaliodd ein staff nifer o ddigwyddiadau codi arian a rhoddion, gan gynnwys gwerthu cacennau a'n cyngerdd carolau blynyddol yn cefnogi oedolion ag anawsterau dysgu.

Lleihau ein heffaith amgylcheddol

- 90 Mae Archwilio Cymru yn cydnabod yr angen i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â bygythiad newid yn yr hinsawdd a'r bygythiadau a achosir i fywyd gwylt a chynefinoedd naturiol gan weithgareddau dynol.
- 91 Yn 2024-25, gwnaethom gynnal ein hachrediad ar Lefel 5 (y lefel uchaf) o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i reoli amgylcheddol effeithiol. Cwblhawyd archwiliad allanol diweddaraf y Ddraig Werdd ym mis Mehefin 2024.
- 92 Rydym wedi cyhoeddi offeryn data rhyngweithiol sy'n caniatáu i'r darllenydd archwilio sut rydym wedi perfformio dros y blynyddoedd diwethaf yn erbyn ein mesurau cynaliadwyedd amgylcheddol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, defnydd adnoddau cyfyngedig, a rheoli gwastraff. Mae paratoi'r offeryn hwn wedi'i lywio gan y Trysorlys EM diweddaraf canllawiau i gyrrff cyhoeddus ar adrodd cynaliadwyedd a'r Canllaw adrodd sero net sector cyhoeddus Cymru.
- 93 Yn gyffredinol, cynyddodd cyfanswm ein hallyriadau cyfwerth â CO₂ (DPA 17) o 280 tunnell yn 2023-24 i 370 tunnell yn 2024-25. Roedd hyn yn bennaf oherwydd lefelau cynyddol o bresenoldeb staff yn ein swyddfeydd a'n safleoedd cyrff archwiliedig, fel rhan o'n gwaith ar symud i fodel gweithio hybrid gorau posibl gyda chymysgedd priodol o weithio wyneb yn wyneb ac ar-lein.
- 94 Drwy gydol y cyfnod adrodd, gyda mewnbwn gan Weithgor Lleihau Carbon mewnol a rhwydweithio allanol, fe wnaethom barhau â'n gwaith cynllunio ar gyfer sut y byddwn yn cyfrannu at gyflawni nodau carbon sero net tymor hwy Cymru. Roedd hyn yn cynnwys mireinio ein prosesau adrodd, cyhoeddi Cynllun Teithio Cynaliadwy newydd, a datblygu Cynllun Lleihau Carbon cyffredinol.
- 95 Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y mae'n gyson â'n swyddogaethau. Ym mis Awst 2023, gwnaethom gyhoeddi Cynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ar gyfer y cyfnod 2023-2027, sy'n nodi pedwar amcan penodol i'n helpu i berfformio'n well Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Trwy gydol 2024-25, cynhaliwyd ystod o weithgareddau i gefnogi cyflawni'r amcanion hyn. Byddwn yn cyhoeddi ein pedwerydd adroddiad ar gydymffurfio â'r Dyletswydd ym mis Rhagfyr 2025, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Rhagfyr 2025.
- 96 Mae'r adrannau isod yn rhoi mwy o fanylion am y cynnydd yr ydym wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf wrth leihau ein heffaith amgylcheddol mewn meysydd allweddol.

Teithio busnes

- 97 Mae Archwilio Cymru yn gweithredu model gweithio hybrid lle mae staff yn cael eu hannog i:
- gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch ble maen nhw'n gweithio, gan ddewis yr amgylchedd gwaith mwyaf addas i gyflawni canlyniadau llwyddiannus, gan roi anghenion tîm a chyflenwi yn gyntaf; a
 - chymbwysu manteision cydweithredu yn y swyddfa gyda'r hyblygrwydd o weithio gartref.
- 98 Mae'r mabwysiadu hwn o ffyrdd craffach a mwy hyblyg o weithio, gyda chefnogaeth ein llwyfannau TG a digidol, yn lleihau'r angen i staff deithio a'n hól troed amgylcheddol cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys trwy ein peilot oriau cywasgedig a gyflwynwyd yn ddiweddar (gweler Astudiaeth Achos 6).
- 99 Fodd bynnag, mae rhywfaint o deithio busnes yn parhau i fod yn hanfodol i ni gyflawni ein swyddogaethau archwilio a swyddogaethau eraill yn effeithiol. Yn 2024-25, mynychodd staff Archwilio Cymru ein swyddfeydd ac archwilio safleoedd cyrff yn fwy rheolaidd nag o'r blaen yn y cyfnod ôl-COVID, sydd wedi effeithio ar gynnydd tuag at gyrraedd ein targed DPA o ostyngiad o 40% mewn allyriadau cyfwerth â CO₂ o waelodlin cyn COVID (gostyngiad o 35% ar hyn o bryd). Mae ein Llawlyfr Cynllun Teithio Cynaliadwy a'n Llawlyfr Teithio a Threuliau yn parhau i'n helpu i leihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol teithio busnes a chymudo ac annog lefelau uwch o weithgarwch corfforol er buddion iechyd a lles.
- 100 Trwy gydol y cyfnod adrodd, cynigiwyd i'r holl staff gymryd rhan mewn cynllun beicio i'r gwaith a chynllun prydles aberthu cyflog i annog defnyddio cerbydau trydan a hybrid, ochr yn ochr â chael eu cyfeirio at gymhellion ac adnoddau eraill i hyrwyddo teithio llesol. Mae gan bob un o'n lleoliadau swyddfa orsafoedd gwefru EV, cyfleusterau beicio a chawodydd i hyrwyddo teithio llesol.

Ein hegwyddorion teithio busnes cynaliadwy



Dylid ystyried dewisiadau amgen i deithio er enghraifft galwad fideo cyn cytuno i gwrdd rhywun yn bersonol



Dylai lleiafswm nifer y cyflogeion y mae eu hangen deithio



Dylid defnyddio trafndiaeth gyhoeddus pan fo hynny'n bosibl



Rydym yn annog rhannu ceir pan nad yw trafndiaeth gyhoeddus yn ddewis dichonadwy



Dylai unigolion chwilio am y dewis mwyaf cynaliadwy posibl, gan bwysu a mesur yr holl ystyriaethau perthnasol er enghraifft iechyd a diogelwch, llesiant a gwerth am arian

Ystad

101 Dros y ddwy flynedd flaenorol, rydym wedi adleoli pob un o'n tair swyddfa i adeiladau llai, mwy modern gyda pherfformiad amgylcheddol llawer gwell:

- ym mis Mawrth 2023, fe wnaethom adleoli ein pencadlys yng Nghaerdydd i adeiladau llai yn agos at ddwy brif orsaf drenau a llwybrau beicio a cherdded di-draffig;
- ym mis Medi 2023, fe wnaethom adleoli ein swyddfa yng ngogledd Cymru i adeiladau llai a rennir, hefyd gydag ôl troed amgylcheddol a chyfleusterau gwell; ac
- ym mis Mawrth 2024 gwnaethom orffen sefydlu ein swyddfa ddiweddaraf yng ngorllewin Cymru, i adeiladau llai mwy effeithlon, gyda'r symud yn digwydd ym mis Ebrill 2025.

- 102 Gellir gweld effaith y symudiadau hyn trwy ostyngiad o 58% mewn allyriadau carbon a briodolir i ddefnydd ynni a defnydd o adnoddau naturiol ar draws ein hystad o'i gymharu â 2022-23. Yn ein holl adleoliadau ystad, fe wnaethom hefyd ddewis ailddefnyddio ein holl ddodrefn ac offer dros ben yn hytrach na'i fewnbynnu i'r llif gwastraff. Rhoddwyd eitemau i dros 15 o sefydliadau elusennol, cymunedol a sector cyhoeddus sy'n cefnogi'r gymuned leol.
- 103 Ym mis Ebrill 2024, cyflwynodd Llywodraeth Cymru reoliadau newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob gweithle wahanu deunyddiau ailgylchadwy. Lleolwyd biniau ailgylchu newydd yn ein swyddfeydd i ddal y ffrydiau gwastraff ar wahân angenrheidiol a gwella ein prosesau ar gyfer casglu a gwahanu gwastraff ymhellach.
- 104 Trwy gydol y cyfnod adrodd, rydym wedi defnyddio cynlluniau ailddefnyddio yn rhagweithiol i leihau ein defnydd o adnoddau cyfyngedig, a chyfran ein gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Mae ein defnydd o blastigau untro defnyddwyr hefyd yn isel iawn, ac ar gyfer llawer o ddanfoniadau yn 2024-25 fe wnaethom optio allan o ddeunydd pacio yn gyfan gwbl.
- 105 Mae ein holl staff yn defnyddio gliniaduron a ffonau clyfar sy'n lleihau'r angen am argraffu papurau cyfarfod.

Caffael

- 106 Trwy gydol y cyfnod adrodd, mae ein gweithgareddau caffael wedi dilyn hierarchaeth sy'n blaenoriaethu osgoi, ailddefnyddio, adnewyddu ac ailgylchu cyn prynu newydd. Mae hyn yn cynnwys cymhwyso'r dull gweithredu i'n prosiectau symud swyddfa ac fel rhan o ddull 'economi gylchol' ar gyfer prynu cyflenwadau ac offer. Pan fo prynu yw'r opsiwn hyfyw, ein llwybr a ffefrir o gaffael cynaliadwy yw drwy fframweithiau Llywodraeth Cymru a'r DU sy'n dilyn Safonau Prynu'r Llywodraeth.
- 107 Yn benodol mewn perthynas â chaffael offer TG, rydym yn blaenoriaethu effeithlonrwydd ynni ac ailddefnyddio dyfeisiau, ochr yn ochr ag anghenion defnyddwyr.



Adroddiad Atebolrwydd

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth â llywodraethu corfforaethol da.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

26 Mehefin 2025

02

Tudalen y pecyn 138

Adroddiad Ilywodraethu corfforaethol

Adroddiad y cyfarwyddwyr

Ein Bwrdd



Adrian Crompton
Archwilydd
Cyffredinol Cymru



Alison Gerrard
Aelod
anweithredol



Anne Beegan
Aelod gweithiwr
etholedig



Chris Bolton
Aelod gweithiwr
etholedig



Darren Griffiths
Aelod gweithiwr
penodedig



David Francis
Aelod
anweithredol



Dr Ian Rees
Cadeirydd
anweithredol y Bwrdd



Mike Norman
Aelod
anweithredol



Richard Thurston
Aelod
anweithredol

Ein Tîm Arweinyddiaeth Weithredol



Adrian Crompton

Archwilydd
Cyffredinol Cymru
a'r Prif Weithredwr



Anne-Louise Clark

Cyfarwyddwr
Gweithredol
Cyfathrebu a Newid



Ann-Marie Harkin

Cyfarwyddwr
Gweithredol y
Gwasanaethau
Archwilio



Kevin Thomas

Cyfarwyddwr
Gweithredol
Gwasanaethau
Corfforaethol

108 Mae'r arddangosion yn yr adran hon yn dangos cyfansoddiad y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol (ELT) ar 31 Mawrth 2025. Am y rhestr lawn o unigolion sydd wedi bod yn aelodau o'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn ystod 2024-25, gweler y Tabl Presenoldeb yn y Datganiad Llywodraethu.

Cofrestr o fuddiannau

109 Rhaid i aelodau'r Bwrdd ac ELT ddarparu manylion am unrhyw gyfarwyddwyr cwmni a buddiannau arwyddocaol eraill a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau ac yn cyflwyno risgiau i annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Gellir cyrchu cofrestrau buddiannau ar gyfer aelodau unigol o'r Bwrdd ac ELT drwy'r dolenni 'Read More' ar dudalen [Pwy yw pwy](#) ar ein gwefan.

Archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru

110 Mae RSM UK Audit LLP wedi ei benodi'n archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ers 1 Mawrth 2015, yn fwyaf diweddar am gyfnod o 48 mis sy'n dechrau ar 1 Tachwedd 2022.

111 Yn ogystal â'u gwaith i ffurfio barn ar y datganiadau ariannol a'r rheoleidd-dra, caiff yr archwilydd gynnal archwiliadau i'r economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y mae'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru wedi defnyddio adnoddau i gyflawni eu swyddogaethau a gosod adroddiad o ganlyniadau unrhyw arholiadau o'r fath gerbron y Senedd.

112 Datgelir manylion cost gwasanaethau archwilio allanol yn y Nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

- 113 O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru a rhaid iddo, ar gyfer pob blwyddyn ariannol:
- cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy; a
 - pharatoi datganiad o gyfrifon.
- 114 Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru a'i incwm a'i gwariant, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.
- 115 Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol i:
- cadw at Gyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwysu polisïau cyfrifyddu addas ar sail gyson;
 - rhoi barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
 - nodi a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi'u dilyn a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon; a
- ch pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes parhaus.
- 116 Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Swyddfa Archwilio Cymru, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Disgrifir cyfrifoldebau ychwanegol yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd gan y Senedd.
- 117 Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n cadarnhau:
- mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hwn yn ei gyfanrwydd yn deg, cytbwys a dealladwy ac rwy'n cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu ei fod yn deg, cytbwys a dealladwy;
